ECO'R WYDDFA

Rhif 241 NADOLIG 1997 / IONAWR 1998 Pris 30c

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl ddarllenwyr, hysbysebwyr, noddwyr a gweithwyr.

Alun yn Ennill

Mae prif wobr Chwaraeon Arfon wedi ei hennill gan un o fro'r Eco eleni eto. Yn y Noson Wobrwyo flynyddol a gynhaliwyd yng Ngwesty'r Celt, Caernarfon, enillwyd Tlws Chwaraewr y Flwyddyn gan Alun Vaughan y rhedwr dawnus o Lanberis.

Ugain mlwydd oed yw Alun ac mae erbyn hyn yn rhedwr profiadol ar y lefel rhyngwladol mewn cystadlaethau rhedeg mynydd. Ef yw pencampwr dan 18 oed Prydain. Mae hefyd yn cystadlu ar y trac athletau, mewn rasus 3,000 a 5,000 metr. Bu'n cystadlu yn Sydney, Awstralia mewn ras 14 cilometr gan orffen yn y deugain uchaf mewn ras oedd yn agored i bob oedran.

Mae ei lwyddiant i'w briodoli i oriau lawer o ymarfer cyson ym mhob tywydd dros gyfnod o flynyddoedd bellach. Yn anffodus nid oes gan Alun noddwr a golyga hynny fod pwysau mawr ar ei deulu i'w gynnal yn ei gamp. Mae Golygydd Chwaraeon yr Eco yn awyddus i apelio ar unrhyw unigolyn neu fusnes ystyried cynnig nawdd i Alun er mwyn ei gynorthwyo i gyrraedd y brig yn ei faes. Mae Alun ei hun yn gobeithio y caiff ei dderbyn i garfan 'elité Cymru' sy'n derbyn nawdd at dalu costau teithio a hyfforddi. Ceir hanes y Noson yn llawn ar y dudalen chwaraeon.

Y Band yn ennill eto

Mae Seindorf Arian Deiniolen wedi cael gwybod bod un o grantiau mwyaf y Loteri wedi ei rhoi iddi. Cyhoeddwyd ddoe (Rhagfyr 17) bod y Seindorf i dderbyn yn agos i *chwarter miliwn* o bunnoedd er mwyn ei galluogi i addasu adeilad presennol y band yn gartref teilwng i fudiad mor weithgar a llwyddiannus. Bwriedir defnyddio'r arian er mwyn gwneud y cwt band yn lle addas i gynnal pob math o gyfarfodydd ynddo. Gobeithir gallu cynnal ynddo weithdai offerynnol, ynghyd ag arddangosfeydd celfyddydol o bob math, a bwriedir iddo fod hefyd yn fan cyfarfod i wahanol gymdeithasau yn y pentref. Mae'n siŵr y cawn fwy o'r hanes yn fuan yng ngholofnau'r Eco.

Trystan Ellis Morris, unawdydd gorau Pencampwriaeth Gogledd Cymru.

Dawnswyr yn Ennill

Llongyfarchiadau i Ddawnswyr Caernarfon ar eu llwyddiant yn yr Ŵyl Gerdd Dant a gynhaliwyd yn y Neuadd Fawr yn Aberystwyth ym mis Tachwedd. Dyfarnwyd y parti'n fuddugol mewn cystadleuaeth o safon uchel oedd yn cynnwys nifer o bartïon profiadol eraill. Mae amryw o aelodau Dawnswyr Caernarfon yn byw ym mro'r Eco. Nid dyma'r tro cyntaf iddynt gael llwyddiant yn ein gwyliau cenedlaethol wrth reswm. Dymunwn yn dda iddynt yn y flwyddyn newydd. Gobeithiwn y daw llwyddiant pellach iddynt hwy fel ag i holl bartïon, corau, bandiau a thimau'r fro yn ystod 1998.

Ysgol Feithrin ar ei hennill

Ysgol Feithrin Llanberis yw'r mudiad diweddaraf i elwa o waith caled aelodau pwyllgor Carnifal llwyddiannus y pentref. Cyflwynwyd siec o £1,900 i'r Ysgol Feithrin yn ddiweddar gan drysorydd y Carnifal, Mr Arfon Phillips. Cynhelir yr Ysgol Feithrin erbyn hyn yn Y Ganolfan.

ECO'R WYDDFA

Rhif 214
Nadolig 1997 / Ionawr 1998

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Golygyddol:
JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390

IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649

Cadeirydd Pwyllgor Llywio:
ARWEL JONES
CAE EBONI, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 871274

E-bost: ecorwyddfa@AOL.com

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS
Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi, Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWR
Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug (677263)

DATBLYGU LLUNIAU
Bryn Jones, Elidir, Allt Dewi, Bangor (01248) 353337 neu 871925

TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU
Ann Gibbins, Lodj Plas Tirion, Pontrug (673696)

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach, Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran (01248 670726)
BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed (870580)
CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn Gwna (677438)
CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon (872275)
DEINIOLEN: W. O. Williams, 6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)
DINORWIG: Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri (870491)
LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn (675384)
NANT PERIS: Ann Cumberton, Gwastadnant (870356)
PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)
TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry, Ael-y-Bryn (872276)
WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, IONAWR 29, 1998
Deunydd i law'r golygyddion perthnasol
NOS LUN, IONAWR 19, 1998
Os gwelwch yn dda

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, (01286) 650570

RHIFYN	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU Â	RHIF FFÔN
CHWEFROR	IONAWR 29	WAUNFAWR	Mrs Nan Roberts	650570
MAWRTH	CHWEFROR 26	LLANRUG	Mr Iolo Llywelyn	650200
EBRILL	MAWRTH 26	CWM-Y-GLO	Mrs Iris Rowlands	872275
MAI	EBRILL 30	DEINIOLEN	Mr W. O. Roberts	871259
MEHEFIN	MAI 28	BRYNREFAIL	Mrs L. P. Roberts-Williams	870580
GORFFENNAF	GORFFENNAF 2	BETHEL	Mr Geraint Ellis	(01248) 670726
AWST	—	—	—	—
MEDI	AWST 27	DINORWIG	Mr Meirion Tomos	870056
HYDREF	HYDREF 1	PENISARWAUN	Mrs Ann Evans	872407
TACHWEDD	HYDREF 29	LLANBERIS	Mr Gwilym Evans	872034
RHAGFYR	TACHWEDD 26	CAEATHRO	Mr Clive James	677438

Llythyrau

Diolch am y Bocsys

Diolch yn fawr iawn am bob cefnogaeth a roddwyd eleni eto i Apêl Bocs Esgidiau Ymgyrch Plentyn y Nadolig. Mae cannoedd ohonoch wedi bod yn brysur yn paratoi'r bocsys ac yn eu llenwi â phob math o anrhegion ar gyfer y plant fydd yn eu derbyn. Bydd eich haelioni yn siŵr o wneud rhywfaint o wahaniaeth i Nadolig plant sydd yn byw o dan amgylchiadau anodd mewn gwledydd fel Bosnia, Romania ac Armenia.

Diolch i'r ysgolion, yr eglwysi, aelodau'r Urdd a'r unigolion a anfonodd focsys atom.

Ar ran
Ymgyrch Plentyn y Nadolig (sy'n rhan o'r elusen Pwrs y Samariaid)

JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS

Llyfrau ar Dâp

Annwyl Ddarllenwyr,

A wyddoch chi am unrhyw un sy'n dioddef o nam ar eu golwg a hoffai dderbyn recordiadau o lyfrau Cymraeg? Mae'r Cynllun Casetiau Cymraeg yn cynnig gwasanaeth 'Llyfrau ar Dâp' yn rhad ac am ddim i unrhyw un sydd wedi'i gofrestru'n ddal neu'n rhannol ddall.

Gellir dewis o lyfrgell o dros fil o lyfrau sy'n cynnwys nofelau, straeon byrion, cofiannau, gweithiau ar chwedloniaeth, byd natur, hanes a thoreth o feysydd eraill. Cynigiwn, yn ogystal, recordiadau o ddarlithoedd, gwasanaethau crefyddol, darlleniadau o'r Beibl ac ambell gyngerdd lleol.

Os carech gael mwy o wybodaeth am ein gwasanaeth gallwch gysylltu â ni yn y cyfeiriad yma:

Cynllun Casetiau Cymraeg i'r Deillion
Rhif 1
Penlan
CAERFYRDDIN SA31 1DN
Ffôn: (01267) 238225

Rhai o blant Ysgol Gynradd Llanrug yn llwytho'r anrhegion Nadolig i'w hanfon i'r plant dramor.

CWMNI BARA CAWS
yn cyflwyno
OEDOLION YN UNIG
gan Robin Gruffydd
a Dyfed Thomas
yn Neuadd Ysgol Brynrefail
Nos Fercher, 21 Ionawr 1988
TREFNIR GAN BLAID CYMRU LLANRUG

EISTEDDFOD GADEIRIOL MYNYDD Y CILGWYN CARMEL
NOS WENER, 20 CHWEFROR
YN NEUADD Y PENTREF
RHAI O'R TESTUNAU
Y Gadair: Stori Fer — Yr Ymwelydd
Englyn: Y Daith
Telyneg: Yfory
Llunio brawddeg o'r gair 'Bryntirion'
Paradoi o unrhyw gerdd enwog
Cyfansoddi agored: unrhyw ddarn o gerddoriaeth i offerynnau/côr/unawd
Beirniaid
Llên: Dennis Davies, Llanrwst
Cerdd: Guto Puw
Manylion pellach: Elfyn Williams
9 Rhes Brynhyfryd, Carmel
Ffôn: (01286) 880962
DYDDIAD CAU: 31 IONAWR 1998

CWMNI DRAMA LLWYNDYRUS
yn cyflwyno
CRAFU CEINIOG
gan William Owen
yn NEUADD BENTREF CARMEL
NOS WENER 23 IONAWR
am 7.30 p.m.
Yr elw at Adran yr Urdd Carmel
Manylion / Tocynnau gan Elfyn Williams
9 Rhes Brynhyfryd, Carmel
Ffôn (01286) 880962

Mae
ANTUR WAUNFAWR
eisiau eich
COED NADOLIG
Peidiwch a'u taflu!
Rydym yn edrych am goed Nadolig i'w malu ar gyfer eu defnyddio yng ngerddi'r Antur.
Dewch â nhw draw atom o Ionawr 6ed ymlaen ffoniwch Dewi ar
(01286) 650721
ANTUR WAUNFAWR

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith), 677438 (cartref)

DIWRNOD HIR. Roedd pob sedd ond un wedi'i gwerthu cyn i'r wibdaith i ddinas Caer fynd tua'r dwyrain. Wrth ddychwelyd roedd pawb wedi eu plesio, ag eithrio'r criw a aeth i weld y gêm rygbi yn y prynhawn (methodd y Crysau Duon a churo Lloegr!). Ond, roedd rhaid i rai fynychu 'tafarn y pentref', sef bar ochr y pwll Glangwna ar y noson olaf agored cyn i dymor partion 'Dolig ddechrau. Aeth y gwahoddedigion i lawr yn brydlon, ond pwy oedd yn absennol — y trefnydd!

GWASANATHAU'R CAPEL. Wrth i flwyddyn olaf llawn cyn y mileniwm ddechrau disgwylir y canlynol i wasanaethu yng Nghapel y pentref yn ystod wythnosau cyntaf y flwyddyn newydd:

Ionawr
4: Parchg W. R. Williams (2)
11: Cyhoeddiad lleol
18: Parchg W. R. Williams (2)
25: Mr Glyn Owen (2)

Dymunir blwyddyn newydd dda i bawb a chroeso i gapel y pentref.

PLYGU'R ECO. Diolch i bawb a fu'n gyfrifol am lwyddiant noson y plyguk. Yn anffodus roedd rhaid i ddau o'r trefnwyr ymddiheuro.

BEDYDD. Ar 7 Rhagfyr bedyddiwyd Lleucu Gwawr yng nghapel y pentref gan ein gweinidog, y Parchg W. R. Williams. Roedd yn braf clywed lleisiau plant eraill hefyd yn ystod y gwasanaeth.

DATHLU PEN-BLWYDD. Llongyfarchiadau i Norma Evans, Llecyn Clyd ar ddathlu ei phen-blwydd yn 50 oed yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

CROESO i drigolion newydd Y Bwthyn, sydd gyferbyn â'r garej, sef Gwenllian Daniel a Dafydd. Gwenllian yw perchennog cwmni arlwyo 'Gong'. Croeso i chi'ch dau.

GENEDIGAETH. Croeso mawr i Osian, mab Gwenno ac Eryl Bebb, Bryn Mair.

Y DYNFA FISOL. Enillwyr mis Rhagfyr oedd — £40: Lowri Ceiriog, 4 Erw Wen; £25: Aaron Evans, Llecyn Clyd; £15: Harriet Roberts, Sea View; £5: Gerallt Owen, 17 Glangwna. Yn ychwanegol mae'r canlynol wedi ennill bonws y Nadolig o £10 yr un: Aled a Julie, Llwyn Onn; Clive Hame, Hafan; Gwenno ac Eryl Bebb, Bryn Mair; Elfyn Roberts, 10 Erw Wen; Sarah Hughes, Bryngwna; Beti Roberts, Monfa; Brian Hayes, Glangwna; Alwen Roberts, 4 Caeathro Bach; Margaret Hemsworth, The Barn; Michael a Dawn Williams, Rhythallt Ganol. Hefyd enillwyd hamper Nadolig gan Elspeth a David Cartmel.

CYFARCHION TYMHOROL. Dymuna tîm Eco'r Wyddfa yn y pentref — Rhiannon, Marian a Clive — ddiolch i chi am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn. Dymunwn i chwi flwyddyn newydd dda. Mae croeso i chi anfon newyddion y pentref i unrhyw un ohonom — hebddoch chi ni fydd newyddion i bawb arall eu mwynhau.

MEWN MYNWENT YN LISBON

Fuoch chi erioed yn Lisbon? Bu Neville a Jane Thorman Jones o Ddeiniolen yno ar wyliau yn ddiweddar. Roeddent yn aros yn ardal yr Algarve ond pan glywsant fod trip diwrnod wedi ei drefnu i ddinas Lisbon roeddent wrth eu bodd gan y byddai hynny yn rhoi cyfle iddynt chwilio am fedd ewythr i Neville.

Un o Gaeathro oedd William Jones a aned yn 1917. Cafodd ei fagu yn 20 Glangwna Gerrace lle mae ei frawd, Mr Hugh Jones, yn dal i fyw. Roed dyn un o chwech o blant, Emrys, Stell, Twm (tad Neville Thorman Jones), Gwilym, Hugh ac Ann. Aeth William, neu Gwilym fel y'i gelwid, i'r môr yn ifanc gan wasanaethu gyda'r Llynges Fasnachol. Cyn diwedd y Rhyfel yn 1945 ymosodwyd ar ei long, y *Bardistan*, odd ar arfordir Portiwgal a lladdwyd ef a nifer o'i gydweithwyr. Claddwyd ef yn Lisbon ym Mynwent Brydeinig St. George.

Yr unig aelod o'r teulu oedd wedi gweld y bedd o'r blaen oedd merch Gwilym oedd wedi rhoi rhyw syniad i Neville a Jane Thorman Jones lle yn y fynwent yr oedd y bedd. Ond roedd dod o hyd i'r fynwent yn y lle cyntaf yn broblem ynddi'i hun yn arbennig o gofio mai dwyawr yn unig oedd ganddynt wrth gefn. Gyda chymorth tywysydd y daith a fu'n ffonio'r Llysgenhadaeth Brydeinig llwyddwyd i gyrraedd y fynwent oedd ar un o strydoedd prysuraf y ddinas. Ac yna cafwyd cymorth gofalwraig y fynwent i chwilio am y bedd. Er y drafferth o geisio egluro i'r hen wraig llwyddwyd yn y diwedd i ddod o hyd i'r bedd wrth fur yr eglwys. Roedd dau arall a laddwyd yr un pryd wedi eu claddu yn y bedd: James Edward Butler oedd enw'r naill, ond ni chofnodwyd enw'r llall ar y garreg.

Roedd Neville a Jane yn hynod falch iddynt lwyddo i weld y bedd. Byddai wedi bod yn siom fawr dod adref heb ei weld â hwythau wedi bod mor agos ato.

MODURDY
PLAS BACH
CAEATHRO
Ffôn: Caernarfon 672072
GWERTHU . TRWSIO
TRIN CYRFF . H.P. AR GAEL
NADOLIG LLAWEN A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
I BAWB

CYFARCHION NADOLIG O
GAEATHRO

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb ym
MHARC GWYLIAU
GLAN GWNA
CAEATHRO. Ffôn: Caernarfon 673456
Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH BAWB YN
GAREJ GWALIA
CAEATHRO
Ffôn: 673096
M.O.T • TRWSIO CEIR
GWASANAETH
TORRI LAWR 24 AWR

O SIAMBAR SELWYN . . .

Wel, ia, Nadolig llawen i chitha hefyd, a diolch i chi am droi i mewn i'r Siambar yn ystod y flwyddyn. Gan ei bod hi i fod yn Ŵyl o lawenydd beth am dynnu tipyn o gracyrs hefo'n gilydd. Y gamp i chi fydd penderfynu a yw'r datganiadau canlynol yn gywir neu'n anghywir. Ydach chi'n barod? Tynnwch y gracyr, 'ta.

1. Tua 450 miliwn o flynyddoedd yn ôl roedd Pegwn y De yn y fan lle mae Anialwch Sahara heddiw.
2. Roedd y cyfansoddwr Rossini yn rhy nerfus i deithio mewn trên.
3. Roedd y brenin Siôr II yn diodde o'r peils.
4. Yn 1743 roedd un o pob chwe siop yn Llundain yn gwerthu alcohol.
5. Mi fyddai'r ddaear yn ffitio i mewn i'r haul 109 o weithiau.
6. Dechreudd y Dug Wellington ar ei garwriaeth olaf ac yntau'n 83 oed.
7. Roedd Charlie Chaplin wedi insiwrio'i draed am $150,000.
8. Mae soya beans yn cael eu defnyddio i wneud paent, gliw, plastic a ffrwydron.
9. Roedd gan y frenhines Ann 17 o blant ac roeddan nhw'i gyd wedi marw o'i blaen hi.
10. Fe agorodd Henry VI y Senedd pan oedd o ond tair oed, ac mi griodd drwy'r seremoni.
11. Roedd Winston Churchill yn dioddef cymaint gan iselder ysbryd fel na fyddai'n mentro sefyll ar ochr platfform, rhag ofn iddo gael ei demtio i neidio o dan y trên.
12. Ar y blaned Jupiter 9 awr a 50 munud yw'r diwrnod.
13. Codwyde y ciosg teleffon cyntaf yn Nottingham yn 1908.
14. Fe ddringodd Clwydfardd, a fu'n Archdderwydd Cymru am ddeunaw mlynedd (1876-94), i gopa'r Wyddfa ac yntau'n 84 oed.
15. Yn Eisteddfod Genedlaethol Abertawe 1891, fe gwympodd y babell mewn storm enbyd ac fe laddwyd un wraig yn y gynulleidfa.
16. Dywedir i'r Bardd Cocos 'sgwennu at y frenhines Victoria gan gynnig ei phriodi.
17. I seiniau cord ar y piano y cododd Cynan ar ei draed i gael ei goroni am ei bryddest 'Mab y Bwthyn' yn Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon.
18. Cafodd Eluned Morgan (Patagonia) ei geni ar fwrdd llong ym Mae Biscay yn 1870.
19. Yn Ffrainc yn 1740 cafwyd buwch yneuog o fod â dawn ddewinol ganddi ac fe'i crogwyd.
20. Mae'r *Guiness Book of Records* wedi torri record — dyma'r llyfr sy'n cael ei ddwyn amlaf o'n llyfrgelloedd.

Wel, dyna'r ugain cwestiwn i chi. Os cewch chi dros 15 yn gywir, patiwch eich hun ar eich cefn.

Os cewch chi lai na 7 yn gywir — rhaid i chi ddarllen mwy.

Os cewch chi'r cyfan yn gywir — galwch yn y Siambar fore'r Nadolig ac fe gewch gropar o sheri a mins pei.

Mae'r atebion i'w gweld ar dudalen 22 o'r rhifyn hwn o'r Eco.

Ac, wrth gwrs, blwyddyn newydd dda i bob un ohonoch.

A WNAIFF Y FERCH O RHIWLAS A GYSYLLTODD Â'R TREFNYDD HYSBYSEBION, JOHN ROBERTS, YNGLŶN Â HYSBYSEB GWERSI PIANO AILGYSYLLTU AG EF (01286) 675605) GAN FOD YR HYSBYSEB WREIDDIOL WEDI MYND AR GOLL.

Gwahoddiad 1997

(ar yr alaw 'Sari Maris)

Mae Gŵyl Nadolig wedi dod,
O! byddwn lon ein llef,
Yn diolch am y Baban Bach
A ddaeth i'n byd o'r nef.
Cytgan:
Clywch glychau'r Ŵyl mewn melys sain
Yn llenwi yr holl fyd —
'Fe aned Crist ym Methlem dref,'
Yw'r newydd da o hyd.

Mae'r doethion wedi dod drachefn
At wyrth y gwely gwair;
Gan blygu glin a thalu rhwysg
i faban bychan Mair.

Yn ufudd, y bugeiliaid ddaw
Ar gais y nefol gôr,
Yn werin lon i'r stabal llwm
I gyffwrdd anrheg Iôr.

Gwyddonwyr a soffyddion ddônt
I gartre'r asyn mud;
Gan werthfawrogi'r esgor hwn,
Sef gwaredigaeth byd.

O! tyred Gymru, tyrd drachefn
Yn ôl, a phlyg i lawr
I'r cariad mawr a roir i ti
O freichiau Duw yn awr.

Nadolig ddaeth, O! llawenhawn
Am rodd a ddaeth o'r nef;
Ar ysgafn droed i'r stabl awn —
I gwmni Brenin Nef.

John H. Hughes, Tan y Clogwyn, Llanberis

Siop Nwyddau Tŷ a Gardd

FORMAG

41A STRYD FAWR
LLANBERIS Ffôn: 872501

NADOLIG LLAWEN
A BLWYDDYN
NEWYDD DDA
ODDI WRTH
IFOR A MARGARET

DRAENOG

Glywsoch chi hanes y wraig o Lanbêr
Aeth i aros mewn gwesty i lawr yn y De?
Wrth fynd i'w hystafell ar hyd coridor hir
Fe welodd hi ŵr ar lawr ar ei hyd.
Gwaethodd y wraig, 'Byddaf yna yn awr
I'ch helu i godi oddi ar y llawr.'
Daeth c'wilydd mawr drosti wrth nesu ato fo
Pan welodd mai'r plymar wrth ei waith oedd y co?
Mae'n rhaid iddi ypsetio yn llwyr
Ers hynny mae'n rhoi siwgwr yn lle halen ar ei bwyd!

(Druan o Elizabeth Anne)

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda
i bawb yn Llanberis a'r cylch oddi wrth

E.W.Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272
TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

GARTH MAELOG
PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota

Molchi, cribo a chlipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

ALOE VERA

Am well iechyd yn naturiol, profiwch nerth **ALOE VERA**. Canfuwyd iddo roi esmwythâd i lawer sy'n dioddef o afiechydon cyffredin fel:- **Cryd y Cymalau, Mygdod, Dŵr Poeth, I.B.S., Afiechydon y Croen, Diffyg Egni Afiechydon yr Arennau, Pwysau Gwaed a.y.y.b.** am fwy o fanylion, cysylltwch ag **Alun, Ffôn: (01248) 670746**
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

'Un funud fach . . .'

Y LEIN FACH

Bu cryn sôn am y rheilffordd fach o Gaernarfon i Borthmadog y dyddiau diwethaf yma. Mae'r ymchwiliad cyhoeddus wedi cychwyn yr wythnos ddiwethaf a bydd llawer iawn o drafod a dadlau cyn y gwyddom a fydd y rheilffordd yn cael ei hail-ddatblygu. Bydd y penderfyniad yn naturiol o ddiddordeb mawr i lawer o ddarllenwyr yr Eco, yn arbennig felly pobl Waunfawr a Betws Garmon. Does wybod ar hyn o bryd beth a ddaw o'r cynlluniau. Bydd rhaid aros a disgwyl. Os ailagorir y lein fach bydd rhai wrth eu bodd ond bydd eraill yn siomedig a dweud y lleiaf.

Ar ddechrau blwyddyn newydd dyna'n hanes ni oll. Does gan yr un ohonom y syniad lleiaf beth all ddigwydd y flwyddyn nesaf yma. Aros a disgwyl sydd raid i weld beth fydd gan y flwyddyn ar ein cyfer. Duw yw'r unig un a ŵyr beth sydd o'n blaen; mae'n gwybod beth a fydd a beth a ddaw. Mae'n gwybod am lwyddiannau a siomedigaethau'r flwyddyn nesaf yma. A bydd ei nerth a'i ras ar gael bob dydd i'n helpu i wynebu'r cyfan. Gallwn ymddiried ynddo i ofalu amdanom a'n harwain yn ddiogel beth bynnag a ddaw. Bydd yno i'n helpu. Bydd yno i'n cysuro. Bydd yno i'n gwrando. A bydd yno i dderbyn ein diolch. Y flwyddyn nesaf yma mynnwn bwyso arno fwy bob dydd.

Nid yw'r hyn a ddigwyddodd y llynedd yn sicrhau llwyddiant pellach i'r lein bach. Os yw'r trên wedi dechrau rhedeg o Gaernarfon i Dinas nid yw hynny'n gwarantu y bydd yn cyrraedd Porthmadog. Ond os bu i ni brofi nerth a chymorth Duw yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yma, gallwn fod yn sicr y bydd y nerth a'r cymorth hwnnw yn aros gyda ni yn y flwyddyn sy'n dod. Yr Un yw Duw bob amser. Mae wein ein cynnal hyd yma, a bydd yn siŵr o'n cynnal eto.

Blwyddyn newydd dda i bob un ohonoch. Blwyddyn newydd gobeithio fydd yn llawn bendithion a llawenydd. Ond yn bwysicach na hynny hyd yn oed, blwyddyn fydd yn ein galluogi i weld trugaredd a chariad y Duw sydd mor dda yn ei ymwneud â phawb ohonom.

JOHN PRITCHARD

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Yn y cefn, Clair Pritchard, oedd yn cymryd rhan y 'dyn blin' yn sioe Nadolig plant hŷn yr Ysgol, gyda'r llefarwyr Catrina Cullen ac Andrew Jones; ac yn y blaen Peter Thornton, oedd yn chwarae rhan Pablo yn sioe'r plant iau am y 'teganau pren'. Llongyfarchiadau i'r holl blant am eu gwaith da yn y ddwy sioe.

LLONGYFARCHIADAU i Dafydd, Bwlch ar achlysur dathlu ei ben-blwydd yn 21 oed.

CYDYMDEIMLAD. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Mrs Ena Jones, Raymond a Gwyneth gynt o'r Swyddfa Bost yn eu profedigaeth lem o golli priod, tad a thaid annwyl, Mr Dennis Jones, Llanberis.

ADRAN GYMUNED. Bydd pwyllgor yr Adran Gymuned yn cyfarfod yn yr Ysgol Gymuned nos lau, Ionawr 15, am saith o'r gloch. Bydd croeso i unrhyw un sydd â diddordeb i drefnu wythnos o weithgareddau o Fehefin 28 hyd Gorffennaf 4.

YSGOL CWM-Y-GLO. Ychydig iawn o newyddion sydd gennym ers y rhifyn diwethaf o'r Eco. Ond carem ddiolch yn ddiffuant iawn i bawb a gefnogodd ein Ffair Nadolig ar 28 Tachwedd. Gwnaed elw anrhydeddus o £431 ac fe dderbyniwyd nifer helaeth o wobrau raffl a rhoddion ar gyfer y noson honno ac ar gyfer y noson gymdeithasol a gynhaliwyd yn y Fricsan nos Sadwrn, Rhagfyr 6. Gwerthfawrogwn y cyfan o'ch haelioni – rhieni, pentrefwyr a ffrindiau.

Casglwyd £55 ar ddydd Plant Mewn Angen ac anfonwyd hefyd nifer fawr o focsus esgidiau yn llawn o nwyddau i Bosnia ar gyfer Apêl Plentyn y Nadolig.

Diolch i Mrs Jên Roberts am noson llawn o chwerthin gyda'r 'Parashiwt' yn yr Urdd.

Mae plant yr Adran lau yn edrych ymlaen yn fawr i gael ymuno unwaith eto eleni â phensiynwyr pentref Brynrefail. Byddant yn perfformio rhannau o'r sioe Nadolig 'Y Dyn Blin' ar Ragfyr 16.

Llongyfarchiadau i Miss Carys Williams, Cwm-y-glo a Mrs Doreen Roberts, Llanberis ar ennill gwobrau Clwb yr Ysgol am fis Tachwedd.

Dymuniadau gorau unwaith eto i bawb dros y gwyliau.

CEUNANT

Trystan a Sioned Larsen Bodafon. Ffôn: (01286) 650799

GENEDIGAETH. Ar Dachwedd 22ain 1997 ganwyd Dafydd Llewelyn, mab i Arwel a Janice, Arwelfa, brawd bach i Rhys a Ceri. Llongyfarchiadau mawr i chwi.

NANT PERIS

Ann Cumberton, Gwastadnant Ffôn: (01286) 870356

Camera yn ngofal John Pritchard Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

SWYDD NEWYDD. Dymunwn yn dda i Alan Pritchard, Llys Awel ar dechrau ei yrfa gyda chwmni Wardle Storey yn Llandegai. Pob llwyddiant i ti, Alan.

PARTI. Darparwyd parti Nadolig i blant y pentref yn Nhy'n Llan bnawn Sul, Rhagfyr 14. Ceir lluniau a'r hanes yn llawn yn y rhifyn nesaf.

Y NADOLIG. Estynnir croeso i aelodau Rehoboth i wasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul yn Capel Coch am 2 o'r gloch ddydd Sul, Rhagfyr 21.

DRAENOG

Bydd raid i aelodau Côr Meibion Dyffryn Peris godi ynghynt o hyn allan. Wedi trefnu mynd i ganu y tu allan i siop Tesco ym Mangor yr oedd yr hogia i hel ceiniog neu ddwy. Ond roedd criw arall yno o'u blaen a chafodd y Côr ddim canu'r un nodyn na chasglu'r un ddimai. Haws trefnu taith i'r Almaen nag i Fangor mae'n rhaid!

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Gwasanaeth Trylwyr gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau i'ch **CAR.** Cystal â Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych **CHWI** yn ei yrru, o Audi i Zastava

MOT · AA Specialist · Retail Motor Industry Federation · RAC Selected

GEMINI SERVICE CENTRE

Car neu Fan
Petrol neu Disel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth ni yn arbed £ £ £ ichwi ac yn ymestyn oes eich car

AVW YSTAD CIBYN
CAERNARFON (01286) 673559
BOSCH SERVICE

MANTEISIWCH AR EICH OED!

Dros 55?

Dewis o yswiriant yn rhoi gwerth eich arian.

Cartref a Chynnwys
Teithio • Car
Anifail Anwes
Gwasanaeth Torri Lawr

Age Concern (Wales) Enterprises Limited
Ffordd Santes Helen
Caernarfon
Gwynedd LL55 2YD

01286 678310

AGE Concern
INSURANCE SERVICES

All our profits support the work of Age Concern

CHWILOTA

MELINAU'R SAINT

Diddorol oedd darllen nodiadau 'Ar ben arall y lein' yn rhifyn diwethaf o'r *Eco*, a chael rhestr gynhwysfawr o wahanol felinau ar lannau afon Saint. Yr un mor ddiddorol, wrth gwrs, oedd cael yr enwau lleol am y gwahanol 'lynnoedd' yn yr afon ple câi'r dŵr ei gronni cyn ei droi ar hyd ffosydd i droi olwynion y melinau. Dichon mai'r pysgotwyr lleol yw'r unig grŵp o bobl sydd bellach yn arddel ac yn cadw'r hen enwau am wahanol rannau o'r afon. Beth am restr gyflawn o'r holl byllau, llynnoedd a cherrig ar yr afon erbyn y flwyddyn newydd.

Er mor naturiol yr olwg yw'r afon i ni heddiw, rhaid cofio fod Dyn ar hyd y canrifoedd wedi effeithio arni, a hynny'n enwedig am y rhan o Bontrhythallt i Gaernarfon. Rhaid cofio fod pobl yn malu ŷd ers cyn cof: mae dros chwe mil o felinau dŵr yn cael eu cofnodi yn Llyfr *Domesday*. Mae cofnodion ar gael yn sôn am rai melinau ar afon Saint yn yr Oesoedd Canol — gan gynnwys hawliau'r trigolion i falu ŷd ynddynt. Ceir hefyd gofnodion yn sôn am 'dorri cryw' (adeiladu argae) ar afon Saint yn 1646. 'Criw' yw'r enw a ddefnyddir ar yr argaeau cerrig sy'n ffurfio llawer o'r 'llynnoedd' ar yr afon heddiw, a dyna hefyd o ble daw'r enw 'Crawia'. Cyn bod pont ar draws yr afon yma, yr enw ar yr ardal oedd Sarn y Crywia (crywiau = lluosod cryw). Ar lafar, newidiodd yr enw i 'Crawia'. Gyda llaw, yr un gair yn union sydd yn enw'r dref rheilffordd enwog Crewe yn Lloegr. Mae Hugh P. Hughes yn ei golofn fis diwethaf yn enwi Llyn Criw ger hen ffatri Peblig.

Mae cofnodion am lawer o'r hen felinau hyn i'w cael, ond nid am bob un yn anffodus. Enwir tua dwsin gan Hugh P. Hughes ond yr oedd mwy; er efallai nad oeddent i gyd yn gweithio ar yr un pryd. Mae adfeilion llawer ohonynt i'w gweld o hyd ond eraill bron wedi llwyr ddiflannu. Am y tro, bodlonaf ar sôn am ddwy yn unig. Nid yw'r gyntaf yn un o felinau afon Saint ond wedi ei lleoli ar un o'i llednentydd, sef Afon Gwna. Mae'r adeilad, sydd bellach yn gartref i'r Geidiaid, yn parhau i gadw'r enw gwreiddiol Felin Bach, Caeathro. Y cofnod cynharaf i mi ei ddarganfod amdani yw cyfeiriad yn ewyllys gŵr o'r enw Maurice Robbins yng Ngorffennaf 1656. Dair blynedd yn ddiweddarach mae'r felin yn dod yn eiddo i deulu'r Wynniaid, ond erbyn dechrau'r ganrif ddiwethaf, Thomas Lloyd, Glangwna oedd y perchennog (ef hefyd oedd yn berchen Melin Peblig a Melin Bodrual). Fe'i prynwyd ganddo am swm o £525. Roedd ffern Cae Rhyda yn rhan o'r pryniant hefyd.

Yng Ngorffennaf 1861 bu arwerthiant ar Stad Glangwna a chynhaliwyd ocsiwn yng Ngwesty'r Sportsman yng Nghaernarfon gan gwmni William Dew. Roedd Melin Peblig a'r Felin Bach ar werth: *'The River Seiont, far-famed for its trout and salmon fishing forms one boundary, and coupled with the River Gwna, supplies ample water power for the Corn Mills included in these particulars'.*

Deuddeg acer o dir oedd ynghlwm â Melin Peblig — *'. . . a valuable water corn mill working three pairs of stones, with Miller's house. Also the advantage of a Smut machine'.* Does gen i ddim syniad beth oedd peiriant 'Smut' — efallai fod peiriannwyr ymhlith y darllenwyr all roi gwybodaeth i mi erbyn y mis nesaf. Gŵr o'r enw John Parry oedd y melinydd a'r tenant ar y pryd. Gwerthwyd Melin Peblig i Roger Evans o Borthaethwy, marsiandwr blawdia' am £1,373. Mae map o leoliad y felin yn cael ei gynnwys gyda'r catalog arwerthiant, ac mae'n ddiddorol nodi nad oedd y ffordd o Gaeathro i Gaernarfon yn dilyn yr union batrwm a wna heddiw. Mae'n ymddangos fod pont newydd wedi ei chodi dros yr afon yn fuan wedi 1861. Dangosir llwybr y ffordd newydd arfaethedig ar y map.

Owen Owens oedd melinydd y Felin Bach. Roedd John Roberts hefyd â hawl ar diroedd y Felin Bach, gan gynnwys Cae Crin. Gwerthwyd y cyfan (a rhan sylweddol o fferm gyfagos Pwll y Bar) i Owen Owens am £3,290. Yn y cytundeb gwerthu, rhoir cyfeiriad Owen Owens fel Twthill Cottages, Caernarfon.

Yn yr un ocsiwn, roedd adeilad ym mhentref Caeathro yn cael ei werthu. Fe'i lleolir ar y groesffordd yng nghanol y pentref — lle mae'r hen siop a swyddfa bost. Roedd yr adeilad yn siop bryd hynny hefyd; fe'i disgrifir yn yr arwerthiant fel *'weaver's shop'*. Mae hyn yn awrymu fod un o'r ddwy felin gyfagos yn trin gwlân. Tybed oes rhywun o gyffiniau Caeathro sy'n cofio'r adeilad yn cael ei adnabod fel siop y gwehydd?

Cawn hanes mwy o felinau yn ystod 1998 . . .



MELIN PEBLIG — 1861

Mae'r llinell doredig yn dangos llwybr newydd y ffordd o Gaethatro i Gaernarfon. Ble tybed mae'r ynys fechan yn yr afon? Mae'r 'Corn Mill' bellach wedi diflannu dan adeiladau Ffatri Peblig.

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?

YSWIRIO EICH TŶ (i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR (i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD (i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda CDH

Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)
Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055

Cyfarchion y Tymor i bawb

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

Fframia

GWASANAETH FFRAMIO LLUNIAU

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth
Dewis eang yn cynnwys:
IVOR STUBLEY :: KEITH ANDREW
KEITH BOWEN :: ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

★ Priodasau ★ Dathliadau
★ Achlysuron Arbennig
★ Cynadleddau ★ Pwyllgorau
★ Bwydlen Bar ★ Cinio Dydd Sul
★ Cwrw Felin Foel

Royal Victoria Hotel

wrth droed yr Wyddfa

Ffôn: Llanberis 870253

TWNNEL YR WYDDFA

Yn rhifyn Hydref soniais am y ddau fachgen o Lanberis a gerddodd o dan yr Wyddfa! Cefais lythyr gan Mrs Elizabeth Griffiths, 'Rallt Goch, Llanberis yn ychwanegu at y wybodaeth. Roedd John Rees Jones, un o'r ddau fachgen, yn gefnder iddi ac mae ganddi, *'frith gof o'r antur fawr yng nghrombil y mynydd'*. Mae'n cofio ei holi am y twnnel mawr, ac iddo ddweud fod *'. . . adar mawr yn llenwi'r lle; miloedd ohonyn nhw, gymaint â Rhode Island Reds . . .'* Disgrifiad plentyn o ystlumod yn nhywyllwch yr ogofâu, mae'n siŵr. Mae Mrs Griffiths yn credu hefyd i'r ddau fachgen gael eu holi ar gyfer rhaglen radio 'Awr y Plant'. Bûm mewn cysylltiad ag Archifau'r BBC yng Nghaerdydd a gobeithiaf gael ateb cyn diwedd y flwyddyn. Os yw'r recordiad yn dal ar dâp yna bydd yn bosib ailfyw yr 'antur fawr'.

O'R CEUNANT I CHARTERS TOWERS

Holwyd rhyw ddeufis yn ôl ynglŷn â pherson o Gwm-y-glo a ymfudodd i Queensland, Awstralia ac ysgrifennu hanes yr achos crefyddol anenwadol yn Charters Town. Gan fod yr *Eco* bellach ar y wê rhyngwladol, penderfynodd un o'r golygyddion, Iwan Roberts, ddarganfod mwy am y ddinas hon yn Awstralia. Darganfuwyd aur yno gyntaf yn 1871 a blwyddyn yn ddiweddarach enwyd y meysydd aur yn Charters Towers ar ôl un o swyddogion y cloddfeydd, William Charters. Rhwng 1871 ac 1911 cloddiwyd dros daith miliwn owns o aur o'r gweithfeydd. Dinas gyda phoblogaeth o faint Caernarfon yw Charters Towers erbyn heddiw, ond yn anterth y rhuthr aur, roedd dros ddeg ar hugain o filoedd o bobl yn byw yno — ac yn eu plith nifer o Gymry a ymfudodd yno o fro'r *Eco*.

Un o'r rheiny oedd gŵr ifanc o'r enw Edward Roberts, Pant Hafodlas, Ceunant. Cadwodd ddyddiadur pur fanwl o'i fordaith o'r wlad hon i Awstralia ac y mae'r dyddiadur hwnnw bellach yn cael ei gadw'n ddiogel yn Archifdy Gwynedd yng Nghaernarfon. Cychwynnodd o Bant Hafodlas ar nos Sul, 16 Mai 1886 er mwyn dal y trên o Fangor i Lundain y noson honno. Roedd ei frawd, John, wedi ymfudo saith mlynedd ynghynt.

Y *Merkara* oedd enw'r llong a glaniodd yn Townsville, Queensland ar Orffennaf 13 — tair o bron i ddau fis. Mae'n amlwg oddi wrth y dyddiadur fod brawd arall iddo, Richard, eisoes yn Charters Towers. Ceisiodd hwnnw ei berswadio rhag teithio oherwydd fod gwaith yn brin yn Charters Towers ar y pryd, ond gan fod tocynnau trên wedi eu rhoi am ddim i deithwyr y *Merkara*, penderfynodd Edward yrru ymlaen am y gweithfeydd aur. Mae'n disgrifio'r daith trên honno fel un ofnadwy — yn union fel pe bai trên yn ceisio dringo o Gaernarfon i Bant Hafodlas meddai yn y dyddiadur!

O'r diwedd, cyrhaeddwyd Charters Towers am hanner awr wedi saith yr hwyr, *'. . . a dyna lle yr oedd llond y station o Gymry yn ein disgwyl; yn eu plith yr oedd G. Morris, T. Parry, Henry Williams, Afon Rhos a William ei frawd, ac amryw eraill. Hefyd Margaret, gwraig Richard, a dwy o genod bychan y rhai na allent siarad Cymraeg, ond yn deall y cwbl: mae eu tad a'i mam yn Gymry'*. Mae posibilrwydd mai brodor o Dan-y-coed oedd y G. Morris a enwir uchod, sef un o gyndeidiau Iwan Roberts. O Afon Rhos, Llanrug y deuai Henry Williams a'i frawd.

Ac os ydych chi yn un o'r rheiny sy'n cadw ôl-rifynnau o'r *Eco*, yna trown yn ôl i rifynnau 113, 114 a 115 (Ebrill, Mai a Mehefin 1986) lle ceir adroddiad am John Parry, Bryn Hafod, Ceunant yn teithio i Charters Towers. Mae'n ymddangos felly fod nifer dda o'r fro hon wedi cael eu denu i'r gweithfeydd aur yn ystod y cyfnod hwn rhyw ychydig dros ganrif yn ôl. Mae mwy o hanes mordaith Edward Roberts i'w gael hefyd yn llyfr Lewis Lloyd, *Australians from Wales*.

Yn od iawn, ar yr union ddiwrnod y bûm yn yr Archifdy yn holi ynglŷn â dyddiadur Edward Roberts, roedd cais wedi ei dderbyn oddi wrth swyddfa Uwch Gomisiwn Awstralia yn Llundain yn gofyn am lun-gopi o'r dyddiadur. Mae talaith Queensland wedi sefydlu prosiect i gofnodi ei hanes ac yn casglu deunydd am rai o'r ymfudwyr o Brydain.

Tybed a ddaeth Edward Roberts yn ôl i Gymru a chael y dymuniad sydd i'w weld ar ddalen olaf ei ddyddiadur — '. . . cawn gyfarfod eto i ysgwyd llaw cynhesol yn yr hen wlad'.

'GIRLS' SCHOOL', DEINIOLEN?

Mrs E. Jones, bellach o Fryngwran, Ynys Môn a gysylltodd ynglŷn â'r gwahanol nodiadau am Fecws Bryngwyn a ymddangosodd yn ystod y misoedd diwethaf. Yn y Becws y magwyd hi gyda'i nain a'i thaid. Mae'n credu mai Grisdale oedd enw cywir y perchennog cyntaf (unrhyw gysylltiad â phrifathro presennol Ysgol Brynrefail tybed?). Mae Mrs Jones yn cofio hefyd fel y byddai cymdogion agosaf y Becws yn dod a'u cinio dydd Sul yno i'w goginio: *'. . . tair ceiniog oedd y pris am datws a chig, ceiniog am bwdin reis a cheiniog am darten blât.'* Byddai'n brysur iawn yno dros gyfnod y Nadolig hefyd, *'. . . byddem ar agor ddiwrnod 'Dolig, a'r cymdogion yn dod a'r ffowls a'r gwyddau — dim twrcis bryd hynny! — a ninnau'r plant fel y "Bistro Kids" yng nghanol yr arogleuon hyfryd'*.

Ym meddiant Mrs Jones mae tri o lyfrau a gyflwynwyd i un o ddisgyblion Ysgol Deiniolen am bresenoldeb didor yn yr ysgol yn ystod 1896, 1897 ac 1898. Ar yr wyneb-ddalen ysgrifennwyd: *'Presented to Anne Jones for regular attendance at Deiniolen Girls' School'*. A dyna sy'n peri dryswch. Pam y gelwir hi'n *'Girls' School'*? Onid Ysgol Elfennol oedd yn Neiniolen y pryd hwnnw, fel ymhob pentref arall? Oes bosibl fod y bechgyn a'r genethod yn cael eu cadw ar wahân yn Neiniolen? Os oes rhywun all daflu goleuni ar y penbleth yna cysylltwch ar unwaith.

I DDOD . . .

Yn rhifyn cynta'r flwyddyn newydd cawn fwy o hanes y sampler o Lanrug; lluniau a gwybodaeth am Westy Pen Gorffwysfa, ac ychwaneg o hanes rhai o felinau afon Saint.

Os oes gennych unrhyw wybodaeth, lluniau neu ymholiadau'n ymwneud â hanes y fro, cofiwch gysylltu â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon (01286) 673515.

DRAENOG

Dyma rHUW stori fach dda glywais y dydd o'r blaen. Roedd yna un dyn bach dewr yn yr Eglwys yn Llanberis yn ddiweddar. Mentro wnaeth i gyfarfod arbennig heb sylweddoli mai'r Women's Guild oedd yn ei gynnal. Perswadiwyd ef i aros a hyd yn oed i wneud y baned a golchi'r llestri cyn diwedd y noson.

DAFYDD OWEN
TRYDANWR
Pob math
o waith trydanol
a Larwmau Lladron
Nadolig
Llawen
a Blwyddyn
Newydd Dda
National Inspection Council for Electrical Installation Contracting
APPROVED CONTRACTOR
11 Rhes Faenol
LLANBERIS
Ffôn: (01286) 871680

Y Bistro
LLANBERIS
Ffôn 871278
PERCHNOGION: DANNY A NERYS ROBERTS
Beth am **Fwffe Enwog Nerys**
i ddathlu pen-blwydd neu ben-blwydd priodas
Partïon rhwng 20 a 40. Ffoniwch am fanylion.
Cofiwch am nosweithiau arbennig y Bistro — nos Wener olaf bob mis
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
ODDI WRTH **DANNY, NERYS** A'R **STAFF**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i chi oll
oddi wrth **Tim, Jackie a phawb yng**
NGORSAF BETROL
Esso BERAN
DEINIOLEN. Ffôn: Llanberis 871521
Ar agor 7 a.m. – 9 p.m. bob diwrnod
Petrol ● Disel ● Nwy Calor ● Glo ● Cylchgronnau
Papurau Newydd ● Cardiau Penblwydd
Wyau ● Nwyddau Groser ● Melysion
Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn
TICEDI LOTERI AR WERTH

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH
ANN A BILLY HUGHES
SIOP TREFLYN
BETHEL
Ffôn: (01248) 670106
Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

MERCHED Y WAWR. Ar gais chweched dosbarth Ysgol Brynrefail am rodd ariannol tuag at drefnu parti Nadolig Ysgol Pendalar fe drefnodd y gangen fwrdd gwerthu mewn noson a drefnwyd gan yr Ysgol Feithrin yn ddiweddar. Cyflwynwyd £43 i'r chweched dosbarth gan obeithio eu bod wedi mwynhau trefnu a bod plant Ysgol Pendalar wedi cael parti i'w gofio. Diolch i bawb am ein cefnogi.

Bu nifer o'n haelodau yng ngwasanaeth carolau 'Cadwyn y Nadolig' a drefnwyd gan y rhanbarth. Mrs Glenys Griffiths oedd yn cynrychioli'r gangen fel organyddes.

Bydd gwasanaeth Nadolig y gangen yn cael ei gynnal yng Nghapel y Cysegr nos Sul, 21 Rhagfyr, am 6 o'r gloch. Yr arweinydd fydd Mrs Glenys Griffiths a'r organyddes fydd Mrs Beti Owen, yng nghwmni côr y gangen, parti llefaru Lleisiau Cadnant, Côr Cadnant ac aelodau'r Ysgolion Sul. Tâl mynediad fydd £1 wrth y drws a'r elw tuag at Dŷ Enfys, Ysbyty Gwynedd.

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fercher, 14 Ionawr.

CARTREF PRESWYL
SANT TEILO
SARON
BETHEL
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i bawb oddi wrth
yr holl breswylwyr, Mrs Edwards a'r staff
Ymholiadau: (01248) 670353

Harddwch eich cartref gyda
FFENESTRI CELTIC **WINDOWS**
Sefydlwyd 1980
FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL
Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch — 'dio'n costio dim i gael pris
(01286) 678618 (dydd) (01248) 670081 (nos)
NHBC
Uned 5, Griffiths Crossing
Llanfair-is-Gaer, Caernarfon
Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i bawb

CYFARCHION NADOLIG BETHEL

H. F. OWEN (TRANSPORT)
CONTRACTWR CLUDO
Fferm y Ddôl, Bethel
Caernarfon Gwynedd LL55 1UN
Ffôn (01286) 670487/671201 Symudol: 0836 590832
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

CYFLENWYR PORTHIANT
IDRIS MORRIS
BWYDYDD ANIFEILIAID ANWES
GWERTHWYR NWY A GLO
Y Fachell
Llanddeiniolen
Ffôn:
Y Felinheli 670439
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

Cefnogwch Fusnesau Lleol
CEIR CYMRU
BETHEL (01248) 670451
(Hefyd yng Ngherrig-y-Drudion a'r Gaerwen, Môn)
Fel cwmni hoffem ddiolch i'r cannoedd o gwsmeriaid a gefnogodd ein busnes dros y saith mlynedd diwethaf. Rydym yn fusnes Cymreig sy' amcanu i roi gwasanaeth ceir proffesiynol ac i werthu ceir am brisiau di-guro. Mae gennym brynwyr proffesiynol y'n teithio dwy fil o filltiroedd yr wythnos i chwilio am y ceir gorau am y prisiau isaf.
Dymuniadau gorau ar gyfer 1998 i ddarllenwyr *Eco'r Wyddfa* ac ystyriwch hon fel adduned blwyddyn newydd: **'Rhowch gyfle i fusnesau Cymreig lleol ddangos eu gwerth yn hytrach na chwmnïau dyfod ac archfarchnadoedd Seisnig!'**
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth
Cig Bethel
Ffôn: (01248) 671170 • Symudol: 0468 452763
Diolch am bob cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Plant yr Ysgol ddiwrnod Plant Mewn Angen.

YSGOL GYNRADD. Dymunir llongyfarch y plant am gasglu'r swm anrhydeddus o £231 at gronfa Plant Mewn Angen. Rhoddwyd heibio'r wisg ysgol am y diwrnod a chafodd y plant wisgo gwisg ffansî. Bu rhai yn cyfarfod Hywel Gwynfryn ar y Maes ac yn siarad gydag ef ar y radio.

URDD ADRAN BENTREF. Nos Fawrth, Rhagfyr 2il mwynhawyd Gwaith Llaw Nadolig gydag Elinor a Susan, Bryn Rhydd. Diolchodd Melanie iddynt.

Nos Fawrth, Rhagfyr 9fed cafwyd parti a disgo'r Urdd i gloi gweithgareddau'r tymor hwn. Diolchir i swyddogion swyddfa'r Urdd am drefnu'r disgo ar eu cyfer.

Bydd yr adran yn ailgychwyn nos Fawrth, Ionawr 6ed pryd y ceir noson o ganu a hwyl gyda Einir Owena Griffith.

YSGOL SUL BOSRA. Braf oedd croesawu aelod newydd i'r Ysgol Sul, sef Lois Megan. Gobeithio y bydd yn mwynhau y cwmni ac y bydd yr un mor ffyddlon. Cynhelir gwasanaeth Nadolig y plant **fore** Sul, Rhagfyr **21ain am 10 a.m.** Stori'r 'Llwynog coch a'r oen bach gwyn, lwcus' fydd y thema. Gwneir casgliad at achos da. Croeso cynnes i bawb. Bydd yr Ysgol Sul yn ailgychwyn ar **Ionawr 11eg.**

PARTI'R YSGOLION SUL. Cynhelir parti Nadolig Ysgolion Sul Eglwys y Santes Helen a Bosra bnawn Llun, Rhagfyr 22ain o (sylwer) **2.30 – 4.30 p.m.** Y mae cymaint o alw ar Siôn Corn felly bydd yn dod draw i ddweud 'Helô' o gwmpas 4 p.m.

EGLWYS Y SANTES HELEN. Gwasanaethau Nadolig: Cynhelir gwasanaeth Cristingl ddydd Sul, Rhagfyr 21ain am 4.00 p.m. Dydd Nadolig gweinyddir Cymun y Nadolig am 9.30 a.m. Bydd Gwasanaeth Naw Llith a Charol yn cynnwys eitemau gan blant yr Ysgol Sul ddydd Sul, Rhagfyr 28ain am 4.00 p.m.

Cymerodd plant Ysgol Sul Eglwys y Santes Helen ran mewn cystadleuaeth arlunio St Bodfan eleni a chafodd yr Ysgol Sul lwyddiant gyda Luke Lloyd Hughes yn ennill yr ail wobr yn yr oedran 7-10 oed a Hannah Wyn Williams a Rhys Pleming yn cael canmoliaeth uchel yn yr un oedran. Cafodd Mari Pleming ganmoliaeth hefyd yn yr oedran hyd at 6 oed.

Dymuna'r Parchg Tegid Roberts a swyddogion plwyfi Llandinorwig a Phenisarwaun Nadolig dedwydd a blwyddyn newydd dda a llewyrchus pan ddêl hi. Bydd llyfrau ariannol yr Eglwys yn cau ar ddydd Sul yr 28ain o Ragfyr felly gwerthfawrogir pob cyfraniad am 1997 i lawr cyn y diwrnod hwnnw.

DYMUNIADAU DA. Pob dymuniad da i Olwen, Cae Eboni a Kevin ar achlysur eu dyweddïad yn ddiweddar. Pob hapusrwydd i'r ddau ohonoch.

LLONGYFARCHIADAU i Siôn Wyn Jones, Tyddyn Perthi ar ei lwyddiant yn ennill ysgoloriaeth o £1,000 mewn cystadleuaeth dan 21ain oed gan Gymdeithas y Gwartheg Duon. Bydd Siôn yn cael mynd i Alberta, Canada ym mis Mai i ymweld â buchesi gwartheg duon. Edrychir ymlaen am gael ei hanes ar ôl iddo ddychwelyd.

CINIO NADOLIG YR HENOED. Pnawn Sadwrn, Rhagfyr 13 aeth llond bws o bensiynwyr y pentref i Westy Bryn-y-môr, Dinas Dinlle i fwynhau cinio Nadolig blasus dros ben. Dymunant ddiolch i bawb a drefnodd y diwrnod hwn ac i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd.

PWYLLGOR NEUADD. Tynnwys Clwb Cant mis Rhagfyr a'r enillwyr oedd – 1, Leslie Larsen, Llygad yr Haul; 2, R. Hughes, Bodhyfryd; 3, Phyllis Elis, Rhosfair.

Bydd criw o garolwyr yn dod o amgylch y pentref nos Lun, Rhagfyr 22ain gan gychwyn o Lys y Gwynt am 6.30 p.m. Croeso cynnes i unrhyw un ymuno yn yr hen draddodiad hwn.

Gobeithir trefnu Disgo Dwynwen yn ystod mis Ionawr.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gefnogodd yr holl weithgareddau yn ystod 1997 a diolchir yn arbennig i aelodau'r Clwb Cant sy'n sicrhau swm anrhydeddus tuag at gostau'r Neuadd Gymuned. Diolch yn fawr i chwi oll. Adnewyddir aelodaeth y Clwb Cant yn Ionawr; £6 y flwyddyn, neu 50c y mis. Os oes unrhyw un yn dymuno ymaelodi cysylltir ag aelodau'r pwyllgor neu'r trysorydd Dafydd Williams, 871754.

Dymunir Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i chwi oll.

Y Canghellor Meurig Foulkes yn cyflwyno'r wobr i Luke.

Bob Williams, cadeirydd, a Goronwy Jones, llywydd Cymdeithas y Gwartheg Duon gyda Siôn.

DRAENOG

Bu raid i un o aelodau côr meibion lleol gael crys newydd yr wythnos hon gan fod ei grys gwyn wedi troi'n grys pinc yn y peiriant golchi. Ddeuda i ddim pwy oedd o wrth gwrs. Dim ond deud mai trôns coch oedd wedi colli ei liw yn y peiriant. Ond mi wn y bydd yna ambell i beth coch ei liw yn cyrraedd y tŷ arbennig yma ym mis Rhagfyr gan y bydd yna ddathliad go arbennig yno. Yr unig beth ddeuda i ydi darllenwch newyddion Llanberis yn y rhifyn diwethaf o'r Eco!

R. M. (DIC) PARRY
PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL
TAWELFA, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 870846
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i ddarllenwyr yr *Eco*

Nadolig Llawen a diolch am eich cefnogaeth oddi wrth
Alwyn a Sarah Jones
BLODAU RACCA
PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 870605
RITHOEDD CELYN
COED NADOLIG
Brysiwch i archebu!
Ar agor saith diwrnod yr wythnos

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA

Cyrhaeddwch mewn steil – mewn cerbyd *Rolls Royce* ar gyfer priodasau, penblwyddi ac achlysuron arbennig eraill
Dylan Griffith, Tros-y-Waen, Penisarwaun
Ffôn: (01286) 871833
NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I CHWI OLL



EDRYCH AM DDODREFN RHAD?

Mae **Gwasanaeth Ailgylchu Gwynedd** yn cyflenwi dodrefn am bris isel i'r di-waith, a phobl ar incwm isel. Bydd ein **Storfa Ddodrefn** ar agor bob **dydd Mercher, 10.00 - 3.00 yn Depo West End, Bangor**

Neu efallai fod gennych ddodrefn i'w cynnig i'n **Cynllun Ailddefnyddio Dodrefn?** (Yn anffodus ni allwn dderbyn soffas neu welyau heb dystysgrif tân.)

Rydym hefyd angen **gwirfoddolwyr**, e.e. trydanwyr, seiri coed ac unrhyw un gyda diddordeb mewn gwaith DIY.

Ffoniwch Meirion ar **(01248) 355112**

Gwasanaeth Ailgylchu Gwynedd yn hybu AILDDEFNYDDIO ac AILGYLCHU

ANTUR WAUNFAWR

Swyddfa'r Post

SWYDDFA'R POST YSTORFA TŶ NEWYDD WAUNFAWR

Ffôn: 650708

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH ALLEN, ANNE A'R STAFF

CROESO I GWSMERIAID HEN A NEWYDD YN 1998

WELDPAR

CYMRU WALES

8 Pant y Waun

WAUNFAWR. Ffôn: 650426/720

OFFER WELDIO O'R SAFON UCHAF

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH **BRIAN, SHIRLEY A TONY**

Mae **Liz** a **John Whitehead, Anna, Cerys** a **Margaret**

SIOP CHIPS WAUNFAWR

Ffôn: 650683

yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn y pentref

---

Mae

LLEUFER A NELMA PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR

Ffôn: 601286) 650291

yn dymuno diolch am bob cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll

Mae BRIAN a RITA HENDERSON

SIOP Y PENTREF

BRYN GWYNEDD WAUNFAWR

YN DYMUNO NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

GWERTHWYR CARDIAU MITAR MANWEB

— FIDEOS I'W LLOGI —

CYFARCHION NADOLIG WAUNFAWR

ŠKODA FELICIA

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

John Ferrarese a'r staff

MODURDY PANT Y WAEN

WAUNFAWR Ffôn: 650524

SFP

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth pawb yn

SNOWDONIA FIRE PROTECTION

YR HEN EFAIL, WAUNFAWR

Ffôn: (01286) 650235

Hefyd: Uned 10 TIR LLWYD, BAE CINMEL (01745) 360445

OFFER DIFFODD TÂN — masnachol ac i'r cartref

OFFER CANFOD MŴG ar gyfer y cartref

GOLEUADAU ARGYFWNG

LARWM TÂN, a llawer mwy i'w gweld yn ein swyddfa.

BSI REGISTERED FIRM

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

EMRYS OWEN

PEIRIANWAITH AMAETHYDDOL Y WAUN

(Waun Agricultural Engineering)





- Offer amaethyddol o bob math
- Haearn addurn ar gyfer y tŷ

WAUNFAWR

Ffôn: (01286) 650253

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

ADREF O'R YSBYTY. Croeso adref o'r ysbyty i Mr W. Jones, Graianfryn, ac i Mr Evan Hughes, 3 Bryn Golau. Hyderwn yn fawr eich bod eich dau'n gwella.

GENEDIGAETH. Llongyfarchiadau i Elin a Rhisiart Walker, Môrawel ar enedigaeth merch fach, Mirain, chwaer fach i'r efeilliaid Gwen a Cadan. Dymunwn yn dda i'r teulu yn eu cartref newydd.

DATHLU PEN-BLWYDD. Yn ystod y mis dathlodd Mrs Mary Vaughan Jones, Hafod y Coed ei phen-blwydd yn bedwar ugain oed. Llongyfarchiadau mawr iddi a phob dymuniad da.

Yn ystod mis Rhagfyr bydd Sioned Williams, Bryn Beddau a Kevin Davies, Hafan yn dathlu cyrraedd eu deunaw oed. Dymunwn yn dda i'r ddau i'r dyfodol.

APÊL — PLYGU'R ECO. Ni, drigolion y Waun, fydd yn gyfrifol am blygu rhifyn mis Chwefror o'r Eco. Byddwn yn ddiolchgar iawn am bob cymorth i wneud y gwaith yn festri Capel Croesywaun, nos Iau, 29 Ionawr o 5.30 o'r gloch ymlaen. Fel arfer bydd nifer dda yn dod i helpu a bydd y gwaith wedi'i gwblhau ymhen rhyw ddwyawr.

CROESO. Mae nifer o deuluoedd wedi ymgartrefu yn y pentref yn ystod y misoedd diwethaf a chroesawn chi'n gynnes i'r pentref gan obeithio y byddwch yn hapus iawn yn ein plith. Hefyd dymunwn yn dda i'r rhai sydd wedi newid i gartrefi eraill yn y pentref.

DIOLCH. Dymuna Katie, Norman a theulu'r diweddar Hugh Williams, Glaslyn, Waunfawr ddiolch yn gywir iawn am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth. Cydnabyddir y rhoddion hael a gasglwyd tuag at Y Feddygfa. Gwerthfawrogir yn arbennig ofal y meddygon, nyrsus a gofalwyr yn y cartref, a staff y Feddygfa. Diolch hefyd i Eirlys ac Ifan am wasanaeth arbennig yn y Capel ac i Eric Owen am y trefniadau trylwyr.

ENILLWYR Y CLWB 300 am fis Tachwedd — £40: Mr Haydn Jones, Rhandirmwyn; £25: Mrs Brenda Jones, Tŷ Ni; £10: Mr S. G. Tyrrell, Garreg Wen.

NADOLIG LLAWEN. Dymunwn Nadolig dedwydd iawn a blwyddyn newydd dda i bob un ohonoch, gan ddiolch am eich cefnogaeth drwy gydol y flwyddyn.

DIOLCH. Dymuna Nefyl Owen, Bryn Gwylan ddiolch i bawb a'i gefnogodd am yr wyth mlynedd y bu'n gwerthu llefrith yn yr ardal. Diolch yn fawr.

DAMWAIN. Dymunwn wellhad buan i Gerallt, Hafod y Rhug sydd wedi anafu ei goes tra'n chwarae pêl-droed.

LLWYDDIANT CERDDOROL. Llongyfarchiadau i Aled Rhys Jones, Pen-y-graig ar ei lwyddiant yn arholiad theori, gradd 5; ac i Dylan Parry, Bron Llywelyn ar lwyddo yn yr arholiad chwarae piano, gradd 2. Daliwch ati hogia.

GWELL I MI SWATIO

Welai ddim ceirw yn dod dros y bryn,
Chlywai mo'r clychau yn canu'n y glyn,
Ond mae'r gwynt wrthi'n chwipio'r llyn dan y lloer —
Mae'n well i mi swatio ar noson mor oer.

Cytgan:
A'r gwynt yn chwipio'r llyn dan y lloer —
Gwell i mi swatio ar noson mor oer.

Dacw ddyn eira ymhell ar y rhos,
Disgwyl mae'n eiddgar i weld Santa Clôs,
Gyda sgarff am ei wddw, het am ei ben,
Mae'n gwylio un seren sy'n sgleinio uwchben.

Ai dyma'r seren fu'n trimio'r nef
Noswyl y geni ym Methlehem dref?
A fu hon wrthi'n arwain tri Santa Clôs
At breseb y baban yn nhrymder y nos.

Cysgaf yn dawel, breuddwydiaf yn bêr
Gwelaf dri Santa dan drimins o sêr,
Yna deffro'n y bore, codi'n ddi-oed
A chanfod fy hoson, y lawnaf erioed.

SELWYN GRIFFITH
(Allan o *Y Stori Fawr*, Leah Owen ac Angharad Llwyd; Cyhoeddwyr: Curiad, Pen-y-groes.)

CARPEDI GLÂN
Mynnwch driniaeth
STIMVAK
gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â
TEGID PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR 650291
hefyd ail-osod carpedi
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

CARPEDI GERAINT OWEN
GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED a FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC
FFONIWCH UNRHYW AMSER: WAUNFAWR (01286) 650552
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr yr Eco.

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH KAREN A BAWB YNG NGWESTY'R
SNOWDONIA PARC
WAUNFAWR Ffôn: 650218
★ Tŷ Rhydd ★ Bwyd Cartref ★ Prydau Plant ★ Ystafell Deulu ★ Cinio Dydd Sul Traddodiadol ★ Cerddoriaeth Fyw ★ Cwrw Go lawn ★
★ NOS WENER, 19 RHAGFYR, BROC MÔR ★
CROESO CYNNES I BAWB DROS WYLIAU'R NADOLIG

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn
STERMAT
OFFER TŶ A GARDD
CAERNARFON
Ffôn: 676506
Diolch yn fawr am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491.

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: (01286) 872390

Gwasanaeth Carolau yr Ysgol.

CAPEL COCH. Cynhelir gwasanaeth Nadolig plant yr Ysgol Sul am 2 o'r gloch ddydd Sul, Rhagfyr 21. Croeso cynnes i bawb. Bydd gwasanaeth Cymundeb yn cael ei gynnal yn y Festri am 10 o'r gloch fore dydd Nadolig ac eleni eto mae croeso cynnes i aelodau eglwysi eraill y pentref i ymuno â ni yn yr oedfa.

Cynhaliwyd te parti Nadolig yr Ysgol Sul nos Lun, Rhagfyr 15 a'r prynhawn dilynol cafwyd parti'r Cyfarfod Plant.

ENILLWYR Clwb Ffrindiau Ysgol Dolbadarn am fis Rhagfyr — £35: Mrs C. Roberts, 12 Llainwen Isaf (18); £25: Mrs M. Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (141); £15: Mrs A. W. Welsby, 1 Rhesdai Glan'rafon, Nant Peris (219); £10: Mrs I. Owen, Stryd yr Wyddfa (130); £5: G. Williams, Bungalows Glan'rafon (217). Pelen eira — £50: Mrs M. Toleman, 10 Maes Padarn (74); £50: Mr W. G. Allsup, 7 Stryd Ceunant (16). Diolch am eich cefnogaeth gydol y flwyddyn.

CÔR MEIBION DYFFRYN PERIS. Bu'n rhaid i'r Côr fwrw iddi yn syth wedi cyrraedd gartref o'r Almaen. Buont yn canu yng Ngwesty Fictoria ddwywaith yn ogystal â Phentrefoelas, Caernarfon, Rhoshirwaun a Dinorwig. Mae'r mis hwn yn un prysur iawn hefyd gan ddechrau yng Nghlwb Pêl-droed Caernarfon ar nos Fercher, 10 Rhagfyr. Nos Wener, 12 Rhagfyr bydd y Côr yn canu carolau yn siop Tesco, Bangor am 8 o'r gloch. Dydd Sul, 14 Rhagfyr, byddant yng nghartref henoed Penisarwaun a nos Lun, 14eg, ym Mhen-gwaith, Llanberis. Dydd Sul byddwn yn Amgueddfa Llanberis am 2.30 ac yna ym Mron Eryri, Llanberis.

Diolch i chwi am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn a dymunwn i chwi Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda.

PLAS PEN-GWAITH. Cafodd Mr Leslie Sharpe, Mrs Mair Hughes a Mrs Jane Ellen Parry eu pen-blwydd y mis diwethaf. Hoffant ddiolch i'r staff am baratoi te parti iddynt. Mae'r trigolion i gyd yn cael parti gwerth chweil bob tro. Diolch yn fawr iawn i bawb a gefnogodd y Bingo yn y Clwb nos Wener, 28 Tachwedd ac am y rhoddion hael a dderbyniwyd. Carem ddiolch i'r Parchg Philip Hughes am ddod i roi gwasanaeth Cymun.

Cafwyd Ffair Nadolig lwyddiannus nos Wener, 5 Rhagfyr, ac enillwyr y raffl oedd Robin Evans, Phyllis Morris, Iola Sellers, Jane Parry, Anne Williams, Valerie Owen, Brenda Richardson, Ellen Owens, Ross Thomas, Carys Williams, Phyllis Jones, Albert Rees, Gordon Owen, Jane Jones, Miss M. Williams, Ellen Flynn, Heulwen Jones, Mannon Roberts, Adriyel Lloyd. Diolch yn fawr i bawb am eich cefnogaeth ar y noson ac am y rhoddion a dderbyniwyd. Dymunwn Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i bawb.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Cynhaliwyd noson 'Sŵyn y Nadolig' yn Festri Capel Coch nos Fawrth, Rhagfyr 16. Roedd y noson yng ngofal Lleisiau Lliwedd dan arweiniad Mrs Mattie Hughes. Yn ogystal â'r wledd o gân roedd blas ar y mins pei a'r baned.

GOLEUADAU NADOLIG. Mae'r goleuadau lliwgar wedi harddu'r Stryd Fawr ers dechrau mis Rhagfyr. Cyngor Cymuned Llanberis sydd wedi bod yn gyfrifol am osod y goleuadau eleni gan fod Cyngor Gwynedd wedi cyhoeddi na allai wynebu'r gost. Llwyddodd y Cyngor Cymuned gael nawdd hael gan gwmni First Hydro at y gost a diolchir i'r cwmni am eu parodrwydd i noddi'r fenter.

Y LLENG BRYDEINIG. Dymunir eich hysbysu bod cangen y Lleng Brydeinig yn parhau yn weithredol yng Nghlwb Cymdeithasol Llanberis. Croeso i bob cais am gyllid a chyfarwyddyd.

CYMDEITHAS EGLWYSI ST. PERIS A ST. PADARN. Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas yn Eglwys St. Padarn nos Iau, Rhagfyr 4ydd dan lywyddiaeth Mrs Ann Parry-Jones. Dechreuwyd trwy weddi gyda Mrs Nancy Jones, Stryd Newton yn arwain. Mrs Ceryd Jones, Llanrug ac o Goleg Menai, oedd y wraig wadd a chafwyd noson ddifyr dros ben yn ei chwmni yn dangos ei gwaith llaw cywrain mewn addurniadau Nadolig. Mrs Olwen Roberts a Mrs Buddug Hughes oedd yn gyfrifol am y te a'r raffl ac fe'i henillwyd gan Mrs Hilda Williams. Croesawyd Mrs Heulwen Edwards yn aelod newydd gan y llywydd a diolchodd yn gynnes i'r merched a fu'n gofalu am y baned. Cinio Nadolig fydd y cyfarfod nesaf a gynhelir yng Ngholeg Menai, Bangor nos Iau, Rhagfyr 11eg.

UNDEB Y MAMAU. Prynhawn Mawrth, 9 Rhagfyr, yn Eglwys St. Padarn, cynhaliwyd gwasanaeth o ddarlleniadau a charolau Adfent o dan arweiniad y Rheithor, y Parchg Philip Hughes gyda chymorth y Parchg Emyr Owen, Mr Derek Jones, a Mr Gareth Jones wrth yr organ. Cymerodd aelodau'r gangen ran hefyd yn y darlleniadau.

Te Nadolig gwych oedd yn dilyn. Gwledd yn wir. Yn dilyn y te cafwyd amser i drin un neu ddau o faterion. Llongyarchwyd Mrs Marjorie Edwards, Maes Padarn am ddod yn hen nain. Estynnwyd dymuniadau am wellhad llwyr a buan i Mrs Betty Williams, 18 Maes Padarn a Mrs Beryl Owen, 46 Maes Padarn. Cafwyd syrpreis bach wedyn wrth i Mrs Bet Hughes rannu rhodd Nadolig fechan i bawb. Diolchodd Mr Derek Jones am y te arbennig, i'r Rheithor ac i Gareth a phawb a gymerodd ran i wneud y pnawn yn un mor bleserus. Eiliwyd y diolchiadau gan y Parchg Emyr Owen a diweddwyd y cyfarfod trwy adrodd y Gras.

CAROLAU. Aeth aelodau Eglwys Sant Padarn o amgylch y pentref mewn lorri i ganu Carolau, nos Fawrth, 9fed Rhagfyr. Roedd yn noson oer a gwlyb ond serch hynny cafwyd noson o fwynhad — pebai ond gweld wynebau'r plant bach wrth weld Siôn Corn. Gwnaed casgliad ac fe aiff yr elw i elusen Gristnogol. Ymddiheurwn i'r rhai na fu'n bosib i ni eu cyrraedd oherwydd y tywydd garw. Gwell lwc y flwyddyn nesaf efallai. Dymunwn ddiolch yn fawr i Mr Dennis Davies, Ael Eryri am roi o'i amser a'i lorri yn rhad ac am ddim. Diolch Dennis.



NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

ODDI WRTH

KMP LLANBERIS

DIOLCH I BAWB A'N CEFNOGODD YN YSTOD Y FLWYDDYN

Dim bysus dydd Iau / dydd Gwener 25 a 26 Rhagfyr
na dydd Iau, 1 Ionawr 1998

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259

Camera yng ngofal Valmai Williams, Hafle, 2 Rhes Faenol Ffôn: 871174

DIOLCHIADAU

Dymuna Mrs Ena Jones a Gwyneth, 3 Coed y Ddôl ddiolch i'w cyfeillion a'u cymdogion am eu caredigrwydd a'r cydymdeimlad o golli Dennis (Post gynt). Diolch hefyd i feddygon Llanberis ac Ysbyty Gwynedd am eu gofal.

Dymuna Elizabeth a Peredur, Fron Goch ddiolch yn fawr am y cardiau, galwadau ffôn a'r blodau a gafodd Gwyneth tra yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Diolch hefyd i feddygon a nyrsus Ward Conwy a'r meddygon teulu a staff y Clinic. Diolch yn fawr.

Dymuna Mrs Jean Roberts, 5 Dôl Eilian ddiolch i'w theulu, cyfeillion, Meddygfa Llanberis ac Ysbyty Gwynedd am bob gofal pan oedd yn wael yn ddiweddar.

YSGOL DOLBADARN. Cynhaliwyd Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol yn Capel Coch nos Fercher, Rhagfyr 10. Roedd yn braf gweld gwaelod a llofft y capel mawr bron yn llawn. Cafwyd gwasanaeth graenus iawn a'r holl blant yn gwneud eu rhan yn ardderchog. Y diwrnod wedyn cafwyd y cinio Nadolig traddodiadol. Bydd y plant yn mynd i'r pantomeim yn Theatr Gwynedd yn ystod wythnos ola'r tymor.

YR URDD. Bu rhai o'r plant yn cystadlu yn Gala Nofio'r sir ym mis Tachwedd. Gwnaeth Rhiannon Williams, Cai Griffith a Gruffudd Pritchard yn dda yn eu rasus hwy. Enillodd Ceri Jones, Sioned Jones, Sarah Jane a Nia Wakeham eu ras gyfnewid cymysg ac enillodd Ceri Jones ddwy ras. Yn y Gala cenedlaethol a gynhaliwyd hefyd ym Mangor ddechrau Rhagfyr cafodd Ceri ail wobr yn y ras pili-pala a'r bedwaredd wobr yn y ras gymysg unigol, a chafodd y genod hwyl dda ar y ras gyfnewid.

YSGOL GWAUN GYNFI. Ffarwelio: ar ddiwedd y tymor hwn bydd Dirprwy Bennaeth yr Ysgol, Rhys ab Elwyn, Ysw, yn ffarwelio â ni yn dilyn ei ddyrchafiad i swydd Pennaeth Ysgol Dwyran yn Sir Fôn. Bydd colled fawr ar ei ôl, ond dymunwn yn dda iddo ar gychwyn ei yrfa newydd. Rydym hefyd yn ddiolchgar dros ben iddo am ei waith cydwybodol gyda'r disgyblion ac am yr holl oriau ychwanegol a roddodd i blant yr ardal.

Enillwyr Clwb 100: Tachwedd: £12, Myfi, rhif 111; £9, Valmai Williams, rhif 59; £5 Morris, rhif 117. Rhagfyr: £12, Eirian Jones, rhif 67; £9, Clarice Roberts, rhif 50; £5 Wendy James, rhif 68.

Drama: bu holl blant yr Ysgol yn gwylio perfformiad o 'Dreamland' gan Theatre for Youth yn ystod mis Medi. Bu plant blynyddoedd 5 a 6 yn mwynhau perfformiad o 'Taliesin' gan Gwmni'r Frân Wen ar Dachwedd 21ain.

Noson Agored: cafodd y rhieni gyfle i ddod i drafod datblygiad eu plant yn ystod y mis gyda'r rhan fwyaf yn dod nos Fawrth, Tachwedd 25ain.

Cymdeithas Rhieni/Athrawon: Y tymor hwn cynhaliwyd noson Caws a Gwin yn ogystal â noson Bingo ar Dachwedd 28ain i godi arian at goffrau'r Ysgol. Rydym yn ddiolgar dros ben am eu gwaith caled i gynorthwyo'r Ysgol.

Ffair Lyfrau: cynaliwyd Ffair Lyfrau lwyddiannus ar ddiwedd y mis pan werthwyd gwerth dros £400 o lyfrau.

EBENESER A CHEFNYWAUN. Bydd gwasanaeth Nadolig plant yr Ysgol Sul yn cael ei gynnal yn Ebeneser, ddydd Sul, Rhagfyr 21, am 10.30 o'r gloch. Croeso cynnes i rieni a theuluoedd y plant i ymuno â ni yn yr oedfa. Cynhelir gwasanaeth Nadoligaidd ei naws yng Nghefnywaun y noson honno hefyd am 5 o'r gloch.

Cynhaliodd Cymdeithas y Chwiorydd eu gwasanaeth Nadolig brynhawn Iau, Rhagfyr 11, yn Ebeneser. Dymunir pob bendith a llwenydd i holl aelodau'r ddwy eglwys ac i bawb yn Neiniolen dros gyfnod y Nadolig, ac edrychwn ymlaen at gael eich cwmni gyda ni yn yr oedfaon yn y flwyddyn newydd.

CYNGOR EGLWYSIG. Nos Fercher, Rhagfyr 24, cynhelir Gwasanaeth Cymundeb Noswyl Nadolig yn Eglwys Llandinorwig am 11.30 o'r gloch. Ddydd Sul, Rhagfyr 28, cynhelir Gwasanaeth Cristingl yn Eglwys Llandinorwig am 00.00 o'r gloch. Bydd cyfarfod cyntaf y Cyngor yn y flwyddyn newydd nos Lun, Ionawr 12 am 7 o'r gloch yn Libanus. Y Parchg Olaf Davies fydd yn arwain yr oedfa.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Nos Lun, Tachwedd 24, cafwyd sgwrs ddiddorol gan Mr Ifan Wyn Evans, Deganwy ar 'Cofio Gwenlyn'. Bydd cyfarfod nesaf y Gymdeithas yn Y Caban am 7 o'r gloch, nos Lun, Ionawr 26. Disgwylir Mr Neville Hughes, Bethesda atom i roi rhywfaint o hanes 'Hogia Llandegai'.

LLONGYFARCHIADAU calonnog i Marion Wyn Mathewman, merch R. O. Williams, 3 Bro Deiniol ar ennill gradd B.A. mewn Astudiaethau Busnes a Chyfrifiaduron yng Ngholeg Prifysgol Huddersfield, Swydd Efrog.

Pêldroedwyr Deiniolen — heddiw a ddoe. Kevin John Jones aelod o dîm 1997 gyda Mr Frank Yould oedd yn chwarae yn nhîm 1957.

Y SEINDORF. Llongyfarchiadau i'r Seindorf ar ennill dwy wobr gyntaf yn Llandudno yn ddiweddar mewn cystadleuaeth o safon uchel iawn. Cafwyd y wobr gyntaf ar y march gyda 195 o bwyntiau ac ar y darn prawf gyd'r un nifer o bwyntiau. Y canlyniad llawn oedd: 1, Deiniolen, 195 pwynt; 2, Seindorf Y Rhyl, 193; 3, Seindorf Trefor, 192. Rhaid llongyfarch yn arbennig Mr Colin Williams am ennill y wobr gyntaf am yr unawdydd gorau yn y gystadleuaeth. Enillodd y Seindorf leuenctid y wobr gyntaf hefyd, a llongyfarchiadau mawr iddynt hwythau, ac i Tristan Morris a ddyfarnwyd yn unawdydd gorau yn adran yr ieuenctid. Bu 1997 yn un o'r blynyddoedd mwyaf llwyddiannus eto yn hanes y Seindorf. Bydd y Seindorf yn cael dyrchafiad i Adran Dau y flwyddyn nesaf yn dilyn y llwyddiant a gafwyd eleni yn Aberystwyth ym mis Ebrill ac yn Birmingham ym mis Tachwedd. Diolch yn fawr am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn. Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i bawb ohonoch.

Rhagor o'r plant 'fenga yng Ngwasanaeth Ysgol Dolbadarn.

Mrs Eurgain Eames yn cyflwyno cwpan er cof am ei diweddar briod, Mr W. J. Eames, cyn-brifathro Ysgol Gwaun Gynfi i Ruth Edge, enillydd yr Adran Arlunio yn Eisteddfod Gwaun Gynfi.

PLAID CYMRU. Enillwyr Clwb Cant mis Tachwedd — £10: Mr Dafydd Morris, Cefn Coch; £5: Mrs Ellen Wyn Williams, 1 Pentre Helen. Enillwyr Clwb Cant mis Rhagfyr — £10: Mrs Vera Parry, Bro Dawel; £5: Mrs Margaret Roberts, Crud yr Awel.



Colin Williams.

CYFARCHION NADOLIG. Mae Mr Hugh Vaughan Evans, Bron Eryri, Llanberis (3 Dinorwig Terrace gynt) yn dymuno Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i'w holl deulu a ffrindiau gan na fedr anfon cardiau eleni.

Dymuna Iorwerth a Peri Evans, 5 Hafod Olau, Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i'w teulu, ffrindiau a chymdogion.

DIOLCH. Dymuna teulu'r ddiweddar Mrs Maggie Thomas, Arosfa, Stryd Fawr ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth; hefyd am gyfraniadau tuag at Gapel Ebeneser, Deiniolen. Diolch arbennig i Ward Aran, Ysbyty Gwynedd a staff Plas Pen-gwaith, Llanberis. Diolch hefyd i'r Parchg John Pritchard a'r Parchg Geraint Hughes am y gwasanaeth ac i E. W. Pritchard am eu trefniadau trylwyr.

GWASANAETH TRYDANOL

ERYRI ELECTRICAL FRON DEINIOLEN

★ AIL WEIRIO ★ CAWODYDD
★ GOLEUADAU DIOGELWCH
★ LARWM LLADRON
★ CYNNAL A CHADW

(01286) 870858 SYMUDOL 0467 774 326

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat — nosweithiau allan, partïon, tripiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

D. P. OWENS
RHIWLAS
01248-361044

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA
LLOGWCH FWS I'W DDATHLU'N DDIOGEL

Cyfarchion Nadolig

LLANRUG

GWYN JONES

FFENESTRI ERYRI

GARTH ISAF, LLANRUG

(01286) 650764

neu W. G. Roberts (Wil Korea) 676741

★ Ffenestri ★ Drysau ★ Drysau Patio

★ *Porches*

★ Byrddau Ffasia

★ Cladio

★ Conserfateris

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

EMYR JONES

PLYMAR A PHEIRIANNYDD GWRESOGI

Cynnal boileri nwy, olew, tanwydd solat a thredio peipiau

44 Glanffynnon

LLANRUG

Caernarfon

673513

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

W. J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 673248

Gosodwyr Nwy Cofrestredig Corgi

CORGI GAS IN SAFE HANDS

Aelod o'r Association of Plumbing and Mechanical Service Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

Richard , Meirwen a'r staff

SPAR

Y SGWÂR, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon: 672790

Oriau Arferol:
7am - 10pm wythnos; 8am - 10pm Sul
Noswyl y Nadolig: 7am - 8.30pm
Gŵyl San Staffan (Boxing Day)
a **Dydd Calan:** 8am - 4pm

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

J.M. JONES A'I FEIBION

GWAITH CERRIG BEDDAU

Y SGWÂR LLANRUG

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol

Cerrig o bob math ar gael

Ffôn: (01286) 672898 (dydd) 676285 (nos)



GWYNANT PIERCE

Cynyrchion Coed:-
Gatiau, Ffensus ac ati am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon

LLANRUG

ffôn: (01286) 650349

(0589) 899901

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH

Wavell Roberts

CIGYDD

LONDON HOUSE

LLANRUG

Ffôn: Caernarfon

673574

PEN CIGYDD Y FRO

MYNNWCH Y GORAU A DEWCH ATOM NI

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Rhiannon Morris a holl staff

BYSIAU ARFON

LLANRUG

(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 675175 a 677858

CHIROPODIST

Gwasanaeth yn eich cartref

E. Ll. Parry

M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.

57 Glanffynnon

LLANRUG

Ffôn: C'fon: 675754

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed. Ffôn: (01286) 677263

Mrs Nansi Roberts a'r Parchedig Dafydd Hughes.

CAPEL Y RHOS. Fore Sul y 7fed o Ragfyr 1997 – yr ail Sul yn yr Adfent – cynhaliwyd oedfa arbennig o dan arweiniad y gweinidog, y Parchg Dafydd Hughes, pryd y dadorchuddiwyd cofeb i'r diweddar Barchedig William Owen Roberts, gweinidog ar eglwysi Presbyteraidd ardal Llanrúg rhwng 1961 a 1982. Gerbron cynulleidfa niferus o blant a phobl leol o sawl enwad, yn ogystal ag aelodau eglwysi o'r tu allan i'r cylch lle bu'r Parchg W. O. Roberts yn eu gwasanaethu, talwyd teyrnged haeddiannol iddo gan y Parchg Dafydd Hughes. Wrth gloi dyfynnwyd englyn William Morris i Tom Nefyn gan ddweud fod yr hyn oedd yn wir am Tom Nefyn yr un mor wir am y Parchg W. O. Roberts:

Bu was gwir, heb seguryd – i'w Arglwydd
Dan eurglod ac adfyd;
Ac o'i bregethau i gyd
Y fwyaf oedd ei fywyd.

Wrth ei gwahodd i ddadorchuddio'r gofeb diolchodd y Parchg Dafydd Hughes i Mrs Nansi Roberts, gweddw'r diweddar W. O. Roberts, a blaenor yng Nghapel y Rhos, am ei hymroddiad i Eglwys Iesu Grist ac am ei ffyddlondeb i'w gŵr yn ystod ei weinidogaeth am 50 mlynedd. 'Os oes y fath alwedigaeth â "Gwraig Gweinidog" yn bod,' meddai, 'yna byddai Mrs Nansi Roberts cystal *role model* â'r un.'

Cymerwyd y rhannau arweiniol gan flaenoriaid yr Eglwys ac yn ysbryd Efengyl Ioan, pennod 13, dathlwyd y Cymun Bendigaid o dan arweiniad y gweinidog cyn dod â'r oedfa i'w therfyn.

MERCHED Y WAWR. Nos Fawrth, Rhagfyr 8fed aeth nifer dda o aelodau'r gangen i'r Bistro, Llanberis i fwynhau bwffe hyfryd i ddathlu'r Nadolig. Diolchir i Gwenda Roberts am wneud y trefniadau. Enillwyr y raffl Nadoligaidd oedd Megan Roberts, Beryl Thomas ac Anwen Owen. Wedi gloddesta'r Nadolig fe fydd sgwrs gan y Dietegydd Carys Owen yn fuddiol iawn nos Fawrth, Ionawr 13eg, am 7.30 o'r gloch yn yr Ysgol Gynradd. Cofier fod croeso o hyd i aelodau newydd, mae gweithgareddau amrywiol a diddorol ar y rhaglen hyd fis Mehefin.

Y SEINDORF. Dymuna'r pwyllgor ac aelodau'r Seindorf ddiolch o galon i bawb am eu rhoddion a'r gefnogaeth tuag at noson ragorol y Cyngerdd. Diolch i'r doniau lleol ac rydym yn siŵr eich bod yn cydnabod ei fod wedi bod yn noson lwyddiannus iawn. Diolch hefyd i Llion Williams a Dewi 'Pws' Morris am arwain y noson. Diolch i'r pentrefwyr a'r ardalwyr am eu cefnogaeth drwy gydol 1997 a dymunwn i chwi Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda.

Phyllis Ellis a Mrs Gwladys M. Jones.

PLAID CYMRU. Cafwyd cyfarfod hwyliog yng Nghanolfan Penisarwaun nos lau, Tachwedd 20, gyda cwis wedi ei drefnu gan Richard Lloyd Jones. Llongyfarchiadau lawer i'r tîm buddugol, sef tîm Nia o Fethel. Ar ran y gangen cyflwynodd Mrs Gwladys M. Jones anrheg o lestr gwydr hardd i lywydd y gangen, Miss Phyllis Ellis, ar ei hymddeoliad o'i swydd fel Ysgrifennydd Pwyllgor Rhanbarth Arfon. Rhoddwyd y raffl y noson gan Ann Ifans a'r enillydd oedd Mair Rees.

Cynhaliwyd Ffair Nadolig nos Fawrth, Rhagfyr 2, yn yr Ysgol Gynradd a gwnaed elw sylweddol ar y gwahanol stondinau. Roedd y plant wrth eu bodd gyda Siôn Corn. Dyma enillwyr y rafflau: Mary Parry, 4 Gwêl Fynydd; Llio Meirion, Yr Hen Felin; Mair Fflur, Cwm-y-glo; Megan Williams, Y Felinheli; Berwyn Jones, Glanffynnon; Phyllis Ellis, Penisarwaun; Pat Jones, Glanffynnon; Sam Harry, Glanffynnon; Janet George, Rhosbodrual; Karen, Glan Moelyn.

Yng nghyfarfod nesaf y gangen, nos lau, Ionawr 15, bydd Ioan Gruffydd yn sôn am ei daid, y cymeriad poblogaidd o Sir Fôn, Ifan Gruffydd 'Y Gŵr o Baradwys'. Mae croeso cynnes i bawb i'r noson ddiddorol hon.

Nos Fercher, Ionawr 21, bydd cwmni Bara Caws yn perfformio eu drama gymuned newydd yn Ysgol Brynrefail.

DIOLCHIADAU

Dymuna Llinos a Neil, Corlan y Rhos ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu dyweddïad. Diolch yn fawr.

Dymuna Vera, Awelon, Ffordd yr Orsaf ddiolch o waelod calon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau, anrhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniodd tra yn yr ysbyty yn Lerpwl ac ar ôl iddi ddod gartref.

GWAELEDD. Bu Mr Arthur Jones, Stad Gwêl Fynydd yn derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar ond mae wedi dod gartref erbyn hyn. Anfonwn ein dymuniadau gorau iddo am wellhad buan ac i bawb sydd ddim mewn iechyd da ar hyn o bryd.

DIM OND SEREN

Doedd na'm golau ar y goeden,
Doedd na'm disgo yn y dref,
Doedd na'm trimins drud yn hongian,
Noson geni Brenin Nef.

Cytgan:
Dim ond seren yn disgleirio
A'r angylion fel un côr
Yn cydganu â'r bugeiliaid
Gan foliannu enw'r Iôr.

Doedd na'm dawns ar sgwâr y pentre
Na the parti ar y stryd,
Doedd na'm cyffro yn y ddinas,
Noson geni Brenin Byd.

Doedd na'm carol ar y radio,
Doedd na'm cynnwrf yn y ffair,
Doedd ond byd yn llawn rhyfeddod
Noson geni Baban Mair.

SELWYN GRIFFITH

(Allan o *Y Stori Fawr*, Leah Owen ac Angharad Llwyd; Cyhoeddwyr: Curiad, Pen-y-groes.)

CLWB ERYRI

Yn y cyfarfod nos Wener, 5 Rhagfyr, cyfeiriodd y llywyddd, Cledwyn Pritchard Jones at Ralph Jones a gafodd ei daro'n wael yn ddiweddar a dymunwyd iddo adferiad llwyr a buan.

Pleser oedd gweld J. Norman Davies yn y rhengoedd ac yn amlwg yn prysuro'n ôl i'w lawn iechyd. Llongyfarchwyd Gwyn Hefin Jones ar ei benodiad yn Gydlynydd/Rheolwr Canolfan Iaith Nant Gwrtheyrn dros-dro, a dymunwyd y gorau iddo yn ei orchwylion anodd a sensitif.

Cyflwynwyd siaradwr y noson, Dafydd Ellis, Brynrefail, gan y Cadeirydd John Hugh Hughes, Llanberis a gyfeiriodd at ei yrfa ddiddorol mewn aml faes a'i swydd gyfrifol bresennol fel rheolwr y Gwasanaeth Prawf. Yn ei dro traddododd hwnnw'n afiaethus a chartrefol ar hanesion a chymeriadau'r blynyddoedd cynnar yn Nolwyddelan a Llanrwst yn bennaf, a ffitiwyd i gyd dan ambarél y thema 'Peiriannau'. Cyn cloi, apeliodd trefnydd y wibdaith flynyddol (TWF), y dywededig gadeirydd, am well cefnogaeth i'r amgylchiad y tro hwn gan ei fod bellach yn un o'r eitemau allweddol yng nghalendr y Clwb. Sicrhaodd yr aelodau fod a drefnwyd ganddo at ddant pawb cymharol ddiwylliedig ac edrychai ymlaen at weld cynnydd sylweddol yn y cyfartaledd presenoldeb. Rhoed pen ar y mwdwl gan y llywydd pan ddymunodd gyfarchion y tymor i bawb a chyhoeddi bod y cyfarfod nesaf nos Wener, 2 Ionawr, pryd y ceid anerchiad gan John Emlyn Hughes, Clwt-y-bont a Gwyn Hefin Jones, Brynrefail yn cadeirio.

IOLO HUWS-ROBERTS

SWYDD NEWYDD. Dymuniadau gorau i Lowri Angharad, Ll.B., Bedw Gwynion, Ffordd Glanffynnon yn ei swydd newydd gyda chwmni cyfreithwyr Breese Gwyndaf, Porthmadog. Mae'n dechrau ym mis Ionawr ar ôl cyfnod gyda Phwyllgor Llysoedd Ynadon Gogledd Cymru ym Mae Colwyn.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb yn

Y CO-OP LLANRUG

Ffôn: (01286) 672937

I gael bargen drwy'r flwyddyn ymunwch â'ch Co-op lleol — y siop yr ydych chi'n berchen arni

Cofiwch fod DIFIDEND O 2g YN Y BUNT i aelodau'r gymdeithas

DIOLCH AM EICH CEFNOGAETH YN 1997
DYMUNIADAU GORAU AM 1998

LINDA MORRIS

GWASANAETH TRIN GWALLT YN EICH CARTREF
1 BRYN FEDWEN, FFORDD YR ORSAF
LLANRUG. Ffôn: 678857

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

CYFARCHION Y TYMOR ODDI WRTH

DENNIS ROBERTS

(Glyn Roberts a'i Fab)
DYNION GLO LLANRUG
Ffôn: 675043

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

JONES A PITTS

PEIRIANWYR MECANYDDOL
Arbenigwyr mewn pob math o waith metel

GWAITH BRYN AFON
LLANRUG
Ffôn: 675523



LLUH Y FELIN

Capel Mawr, Llanrug
Caernarfon, Gwynedd

Ffôn (01286) 678102

Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda oddi wrth gynhyrchwyr 'Y Mynydd Grug' ffilm Nadolig S4C
Cofiwch ei gwylio am 9.15 p.m. dydd Nadolig.

CARTREF PRESWYL
LLYS EIDDON

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

oddi wrth breswylwyr a staff y cartref

R.D.Thomson
Crefftwaith Coed

Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda oddi wrth Bob

Uned 1A BRYNAFON
LLANRUG
Ffôn: (01286) 650732 (fin nos)
FFENESTRI : DRYSAU
DODREFN : GRISIAU
GWAITH TURNIO
BLYCHAU CLOCIAU
BLYCHAU DAL OFFERYNNAU
BLYCHAU ARDDANGOS

CYFARCHION Y TYMOR A DYMUNIADAU GORAU oddi wrth

NEIL A STAFF

y Siop Sglodion

Pontrhythallt
Llanrug

SGLODION MWYAF BLASUS Y FRO !

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n cwsmeriaid i gyd oddi wrth

ARFON A CARYS

SIOP CHIPS TEGFAN

Y Sgwâr
LLANRUG
676128

LLYTHYR O'R 'MERICIA . . .

CAMBRIA
WISCONSIN
February 7th 1884

Annwyl frawd,

Yr ydwyf o'r farn mai myfi sydd i ysgrifennu attat, er fy mod wedi bod yn dipyn yn ymarhous cyn gwneuthur, etto, paid ti a meddwl fy mod yn dechrau dy anghofio, na, dim o'r fath beth, achos yr wyf yn myned yn fwy hoffus bob wythnos o gael clywed gair oddiwrthych yna.

Am y llythyr diweddaf a dderbyniais oddiwrthych, yr oedd yn llawn o newyddion, a llawer ohonynt heb fod yn taro yn hyfryd iawn onide. Y mae yn wir ddrwg gennyf glywed am y marwolaethau mynych sydd yn digwydd yna, ac yn enwedig cyfeillion agos iawn hefyd. Yr oeddwn wedi synu yn anghyffredin clywed am Robert, Caerfran. Y mae yn bur debyg eu bod yn teimlo yn ddrwg iawn yno. Yr oeddyt yn awgrymu i mi ysgrifenu yno iddynt hwy. Yr oeddwn wedi meddwl am wneud lawer gwaith yng nghorph yr haf diweddaf, ond rhywfodd yn esgeuluso. Yr wyf yn sicr o wneud yng nghorph y gaeaf yma, achos yr oeddwn yn gymaint o law gyda theulu Caerfran a neb yn yr ochr os nad mwy gyda'r hogia, yn enwedig Robert.

Yr ydwyf yn falch iawn o'r 'Herald' a'r 'Amseroedd' wyf yn ei dderbyn oddiyna bob wythnos. Byddaf yn sylwi yn arw iawn ar y Genedigaethau, Marolaethau a'r Priodasau ac yn teimlo mwy o ddyddordeb yn y colofnau hyny nag a wneuthum erioed o'r blaen. Byddwn yn methu deall beth fyddai Mam a Janet yn ei gael ynddynt lawer gwaith, ond yn awr yn wir yr wyf wedi cael esboniad fy hunan. A fyddi di yn cael gweled 'Y Drych' gan Dewyrth Hugh? Y mae ynddo lawer o bethau da iawn.

Sut y mae Dewyrth Hugh yn awr o ran ei iechyd? Pa fodd y daliodd gyda'r defaid eleni pan yn eu hanfon i ffwrdd? A ydyw modryb yn cael eu hiechyd yn bresenol? Cofia fi attynt, a dywed fy mod am ysgrifenu attynt yn bur fuan. Dylaswn fod wedi gwneud ers wythnosau, ac at John Fron Goch. Dywed wrtho am beidio a digio wrthyf — y caiff fy hanes rhyw ddiwrnod.

A fedri di roi ar ddeall imi pan fyddi yn ysgifenu y tro nesaf, pwy ydyw John O. Jones o Cwm-y-glo. Yr oedd yn wr i Mary Llwyncoed, ond y mae hi wedi ei chladdu yna, ac fe ddaeth yntau drosodd i Nebraska, ac y mae wedi priodi gwraig weddw yno, sef chwaer i Wil Clogwyn Gwyn, gwr ffarm y Ceunant yma. Bu yn Llanberis yn lodgio gyda Griffith Jones, Coed-y-Glyn (Turner Street). Mab yng nghyfraith D. Wilson. Yr oedd ganddo 2 o blant. Buont yn yr ysgol yn hir gyda Abel Williams. Y mae wedi priodi dynes anolygus ryfeddol. Yr ydwyf wedi cael llawer o hwyl wrth glywed hwn a llall yn ei hactio hi pan oedd yn y Welsh Prairie yma. Y mae yn chwaer i wraig Humphrey Closs hefyd, achos Jemima ddaeth ai hanes i mi ar ol bod yn Nebraska. Yr wyf wedi methu yn lan a chofio pwy ydyw. Yr wyf yn meddwl mai tair blynedd sydd er pan y mae wedi dod drosodd, os nad 5. Fe gladdodd ei ail wraig yn Vermont ac y mae Mari Spoon (chwedl y lads yma) yn drydydd iddo. Y mae Jemima yn dweud ei fod yn ddyn nice iawn a chall iawn ac y mae yn rhaid ei fod wedi priodi Mari Spoon er mwyn cael ffarm gyda hi, medda hi.

Bu yn Nebraska am tua mis, ac yr oedd yn brolio y wlad yn arw iawn, yn enwedig yr hinsawdd. Y mae Humphrey ei brawd yn feddianol ar ffarm o 160 acres yno, yn ymyl tref Wymore, ac y mae yn dod ymlaen yn dda yno. Y mae ganddo 3 o blant (bechgyn). Cafodd gynig $20 yr acre am ei ffarm 5 mlynedd sydd er pan y mae yno.

Hwyrach mai pur dderbyniol gennych yna fyddai cael dipyn o fy hanes fel gauafwr yn Wisconsin yma.

Daeth y gaeaf ar ein gwarth tua 20th Dec. ond ni ddaeth fel ag yr oeddem yn ei ddisgwyl iddo ddod o lawer iawn. Yr oeddwn i yn disgwyl i ddechrau cael cnwd o eira tua 18 inches neu 24 ins., ac yna hwnw i gael ei rewi i fyny fel palmant cerrig, fel na byddai modd trafaelio ond yn hynod o anhwylus. Ond nid felly y daeth o lawer iawn. Yr oedd yn dod yn raddol, fel y mae yna yn union. Ac yn rhywle, tua 20th Dec dyma yr eira yn dechreu dod. 'Wel,' meddaf wrthyf fy hun, 'bydd golwg ryfedd ar y Prairie yma yfory. Yfory a ddaeth, a'r peth cyntaf a wneuthum oedd neidio i'r ffenestr mewn dipyn o arswyd, ond petrusais yn ofer. Nid oedd ond tua chwarter in., o drwch, ac erbyn 2 o'r gloch yr oedd yn llai na hyny. Ac o hyny hyd yn awr nid ydyw wedi cynyddu ond tua 4 modfedd. Y mae wedi toddi bron yn llwyr ac yna rhewi yn un palmant. Y mae y sledges yn chwrlio hyd y ffyrdd yma bob dydd, a ride nice ryfeddol ryfeddol ydyw ridio ynddynt. Nid ynddynt. Nid oes yma yr un garreg hyd y ffordd yma yn unlle i wneud neb yn anghysurus pan yn ridio.

Bum yn y Gymanfa Ganu gyda Tom dydd Nadolig, tua 7 neu 8 milldir oddiyma. Cychwynasom yno ar ol ymwledda yn helaeth o'r twrci tua hanner dydd, ac yr oeddym yno yn brydlon am chwarter i ddau. Dyna y tro cyntaf i mi fod mewn cutter yn ridio.

Nid oes gennyf ddim i'w ddweud ond ein bod wedi cael Cymanfa dda iawn ac ystyried y defnyddiau nid oedd i'w chydmaru a C.Coch dan arweiniad Jenkins, ond etto y mae yma rai cantorion gwych iawn. Yr oedd yno bass a soprano da iawn, ond tenor ac alto ar ol. Yr oedd yno amryw o arweinyddion y gwahanol Gapeli yn arwain eu tonau yn eu turn. Y tonau oeddynt, 'Ardudwy', 'Bangor', 'Eiseuach', 'Nashville', 'Langoedmor', 'Rhyl', 'Navarre', 'Yr Hen 50if', 'Potsdam', 'Jabes', 'Penllyn' ac anthem 'Mawl a'th Erys yn Sion'. Cawsom ddau gyfarfod, un am 2 a'r llall am 6. Yr oedd yno 2 arweinydd da iwan, un o Gapel Cambria a'r llall o Jerusalem, Welsh Prairie, un o'r enw Elias R. Williams, a llall Morris J. Rowlands, sef cefnder Nhad, gwr Pen y Gwryd a Brawd i John Rowlands Caledfryn.

Y mae Morris Rowlands yn gerddor campus ac yn arwaenydd campus. Efe oedd ar y blaen o ddigon yno fel arweinydd. Efe oedd yn arwain yr anthem yn yr hwyr. Diweddodd y Gymanfa a phawb yn dweud eu bod wedi eu boddhau yn fawr iawn ynddi, ac yr oeddym adref erbyn 10.30.

Yr oedd yn dywydd heb fod yn oer iawn tua'r Nadolig, ond ar ol troead y flwyddyn yr oedd i'w chlywed yn oeri bob dydd. Yr oedd yr hinfesurydd ar y 5ed o January yn 28 below Zero yma. Yr oedd yn oer iawn dros y wlad i gyd y diwrnod hwnw. Yr oedd yn Manitoba yn 62 below zero. Pa fodd y buasai John yn teimlo y diwrnod hwnw tybed pe buasai yno. Ond er mor oer ydoedd ni bu arnaf annwyd o gwbl. Bum yn teimlo yn fwy rhynllyd yna lawer gwaith, a byth er hyny nid ydyw yn oer. Y mae yn chware o zero i 35 above, ac y maent yn dweud ei bod cyn oered gaeaf eleni ag un amser. Ond mae gennyf secret i ddweud wrthych fel teulu am y bore oer hwnw. Euthum i a Tom i roddi ychydig gorn i'r moch ac yn y weithred o roddi bwyd i'r moch mi rewais fy nhrwyn. Yr wyf wedi cael hwyl anghyffredin o'r achos, 'rhwbia, rhwbia,' meddai Tom, 'mae dy drwyn di'n rhewi' meddai, ac yr oeddwn innau yn edrych ar ei un yntau ac yn gweled ei ben yn wynach nag arferol, ac yn parhau i wynnu bob gafael, a 'rhwbia, rhwbia' meddaf innau, a rhwbio y buom ein dau. Ond hyn sydd i'w ddweud, trwydded chwarelwr yw 'slap wen,' trwydded Ianci yn America yw rhewi trwyn. O ganlyniad dyma fi yn Ianci.

Yr wyf yn mynd i Portage City yng nghorph yr wythnos nesaf i geisio a fy Citizen Paper gyda Tom yn y cutter. Bydd genyf ddefnydd llythyr hwyrach i ti ar ol bod yno. Yr wyf am fy photo yno os caf ddigon o amser. Y mae gennym 20 filldir o ffordd yno.

A ydyw Lizzie John Ellis wedi penderfyny dod yma. Y mae Jemima wedi derbyn llythyr oddiwrth John Ellis yn gorchymyn iddi chwilio am le iddi. Ni chredaf y daw nes y gwelaf hi, ac os y daw bydd Llyn Llanberis yn fwy llawn nag y bu erioed o'r blaen. Pe buasai yn dod buasai yn llawer gwell iddi. Y mae yma gyflawnder o leoedd da iawn iddi. Gall gael tua $3 yr wythnos ar ei h'union. Y mae yma amryw y buasent yn falch iawn pe buasai modd iddynt ei chael. Ond y mae arnaf ofn mai torri ei chalon a wnaiff pan ddaw yn ddydd y trial, fel rhai o'i blaen.

Cofia fi at Nain a M. Evans. A gafodd fy llythyr? Dywed wrth E. Williams nad wyf wedi ei anghofio, a James hefyd. Cefais epistol dda iawn gan James.

Terfynaf yn bresenol gan gofio attoch oll fel teulu a derbynia dithau fy nghofion mwyaf caredig.

Ydwyf dy anwyl frawd,

OWEN

EIRIAN PIERCE JONES
Swyddog Adfywio Bro Gwyrfai

Gwasanaeth symudol — mewn trelar!

Bu cryn fwrlwm yn estyniad newydd Canolfan Waunfawr yn ddiweddar wrth i Eirian Pierce Jones, Swyddog Adfywio Bro Gwyrfai symud i mewn i'w swyddfa newydd. Mae Eirian yn un o naw Swyddog Adfywio Bro sydd wedi eu penodi drwy Wynedd wledig o ganlyniad i gais llwyddiannus am arian Ewropeaidd gan Gyngor Gwynedd.

Cyn graddio eleni mewn Cynllunio a Rheoli'r Amgylchedd bu Eirian yn gweithio mewn nifer o feysydd gwahanol, o fyd amaeth i lyfrgelloedd, yn ogystal â byw yn Belize a thrafaelio Guatemala am flwyddyn. Ond rŵan sefydlu ei swyddfa ym Mro Gwyrfai sy'n cymryd ei bryd a thrwy wneud hyn bydd Eirian yn gallu cynorthwyo a chefnogi trigolion yr ardal i gryfhau'r economi, amgylchedd a'r gymdeithas leol drwy ddatblygu prosiectau penodol ac adnabod cyfleon newydd. Hefyd bydd modd i bobl y fro achub ar gyfle i ddatgan beth, yn eu barn hwy, yw anghenion eu hardal drwy gynnal arolwg bro fydd yna'n arwain at greu cynllun datblygu unigryw ar gyfer adeiladu dyfodol i'w cymuned.

Yn amlach na pheidio diwedd y gân yw'r geiniog ac er mwyn gwireddu'r prosiectau bydd modd ceisio am arian o'r Grant Adfywio Bro a bydd cymorth ar gael gan Eirian i gyrraedd at y ffynonellau arian eraill sy'n bodoli a sut i gryfhau ceisiadau lle bo angen.

Felly, os ydych am gael sgwrs ag Eirian ynglŷn â'r cyfle cyffrous yma cysylltwch â hi ar y rhif ffôn dros dro canlynol: **(01286) 679528.**

Yn y rhifyn diwetha o'r Eco fe gyfeiriwyd at benodiad Eifion Jones yn Swyddog Adfywio Bro Peris ac mae yntau bellach ar fin symud i'w swyddfa newydd yng Nghanolfan Gwybodaeth Ymwelwyr yn Llanberis. Gellir cysylltu ag ef ar hyn o bryd ar **(01286) 679528.**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth
JACKIE, DAVE A STAFF
TAFARN
PENBONT
LLANRUG
LLE BRAF
A CHWMNI DIFYR DROS
WYLIAU'R NADOLIG

DYMUNA
GWYNFA A MARGARET
PRITCHARD
GWERTHWYR LLEFRITH
CEFN LLWYD
LLANRUG
Ffôn 872263
NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
I CHWI OLL

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth bawb yng
NGHARTREF
Y Foelas
Ffordd yr Orsaf
LLANRUG
Ffôn: C'fon 674652

Dysgwch yrru'r car gydag
Y.Y.O.
Ysgol Yrru Ofalus
★ Gwasanaeth 7 diwrnod
★ O ddrws i ddrws
★Control Deuol
D L
PRITCHARD
43 Glanffynnon, Llanrug
Ffôn: C'fon 675112
Cymeradwy gan yr Adran Drafnidiaeth
Nadolig Llawen a Blyddyn Newydd Dda i bawb

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn y
GLYNTWROG
LLANRUG
Bwyd ardderchog am brisiau rhesymol
Bydd croeso cynnes yma dros yr ŵyl

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth
BERYL A GWENDA
LLYTHYRDY
LLANRUG
Ffôn: C'fon 672422

GAREJ PEUGEOT HAFOD
LLANRUG Ffôn: 673372

PEUGEOT 306 Estate: Yr union gar ar gyfer y flwyddyn newydd
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
John Trevor a'i deulu, a'r holl staff

ARIA

Mae'r misoedd diwethaf wedi bod yn llawn prysurdeb i grŵp o ferched ifanc lleol. Wyth o ferched sydd yn y grŵp pop Aria a ffurfiwyd fis Gorffennaf diwethaf. Ar y pryd Curiad oedd enw'r grŵp ond bu'n rhaid newid yr enw wedi iddynt sylweddoli bod yna grŵp o'r enw hwnnw i'w gael yn barod. Mae'r wyth yn ddisgyblion yn Ysgol Brynrefail. Daw Claudette Louise, Ann Marie, Mari Wyn, Lianne Allsup, Ffrion Hughes a Claire Jarvis o Lanberis; Elin Dafydd o Lanrug ac Ellen Robinson o Fethel.

Er nad oedd yr un ohonynt wedi bod mewn grŵp pop o'r blaen maent yn hen gyfarwydd â chanu. Cawsant ran yn y sioeau 'Olifar' a 'Prima Donna' yn yr Ysgol ac maent yn ddiolchgar i'w hathro cerdd, Mr Gareth Hughes-Jones, am ei gefnogaeth. Mae'r genod wedi arfer cystadlu mewn gwahanol eisteddfodau ers blynyddoedd.

Gareth Jones, Llanberis gafodd y syniad o ffurfio'r grŵp wedi i rai o'r genod ganu yn Eisteddfod Llanberis ym mis Mai. Gareth sy'n hyfforddi ac yn cyfeilio i'r grŵp. Bu'r grŵp yn canu gyntaf mewn cyngerdd yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis ym mis Gorffennaf cyn canu mewn cyngerdd yn yr Eglwys ddiwedd Awst. Roedd y ffaith mai Dafydd Du oedd yn arwain y cyngerdd hwnnw yn plesio'r grŵp.

Erbyn hyn mae'r genod wedi canu mewn sawl cyngerdd mewn llefydd fel Beddgelert, Llanfairfechan, Noddfa Caernarfon a Niwbwrch, Môn. Maent yn ymarfer o leiaf unwaith yr wythnos ac yn gobeithio cael mynd allan i ganu bob rhyw dair wythnos. Gall unrhyw un sy'n awyddus i estyn gwahoddiad i'r grŵp gadw noson ffonio Brenda Hughes (01286) 870485 neu Margaret Price (01286) 871658.

Mae'r genod yn gwerthfawrogi cymorth Gareth a chefnogaeth eu rhieni. Maent hefyd yn ddiolchgar i rai fel Mrs Dilys Bayliss a Mr Bryn Jones sydd wedi ysgrifennu geiriau caneuon ar eu cyfer.

Dywed y genod eu bod wrth eu bodd yn canu ac yn mwynhau'n fawr yr hwyl a geir. Maent yn gobeithio y daw cyfle i ganu'n rheolaidd ac yn edrych ymlaen at gael eu 'darganfod' gan ryw gwmni recordiau mawr a fydd yn eu troi'n 'sêr' dros nos. Gobeithio clywn ni lawer mwy am lwyddiant ARIA yn ystod 1998.



DRAENOG

Fel tasa un waith ddim yn ddigon: Ddwywaith o fewn yr un wythnos aeth fan bugail lleol yn sych o betrol — y tro cynta tua Crawia a'r eildro yn ei gynefin tua'r Nant. Tosturiodd dyn bara'r Cwm wrtho a'i gludo i Lanberis i nôl petrol. Roedd yntau mor falch o gael ei gario a chael arbed cerdded. Pan ddaeth allan o'r fan sylwodd bod ei drowsus yn wlyb. Roedd o wedi eistedd ar ddwsin o wyau ar sedd flaen y fan fara! Dwn i ddim oes gwir yn y si mai CLOS pen-glin oedd y trowsus a wisgai!

NEWID AGWEDDAU

Bu'r Urdd, Y Ffermwyr Ieuainc a'r Clwb Ieuenctid yn rhan angenrheidiol o fywyd sawl pentref ers amser maith a'r farn gyffredinol yw fod y tri mudiad yn apelio at wahanol fathau o ieuenctid ac mae sawl rhagfarn yn bodoli ynglŷn â'r tri mudiad.

Yr hyn sy'n gyffredin rhyngddynt yw fod y tri mudiad yn dibynnu'n helaeth ar wirfoddolwyr. Mae pob mudiad yn ddibynnol ar bwyllgor gweithgar a chefnogaeth rhieno. Yn y cyswllt hwn mae gan yr Urdd a'r Ffermwyr Ieuainc fantas gan fod ganddynt eisteddfodau a ralïau sy'n rhoi proffil cenedlaethol iddynt. Mae'n anos o lawer i'r clybiau ieuenctid gan fod yr 'hen aelodau', sef rhieni heddiw, yn credu nad oes fawr o wahaniaeth rhwng y clwb ieuenctid modern a'r clwb yn eu dyddiau hwy — ping-pong, dartiau a'r hen chwaraewr recordiau yn y gornel. Mae pethau wedi newid. Fel rhan o'u polisi 'ymwybyddiaeth' yn ddiweddar cynhaliwyd wythnos 'Ieuenctid yn y Gymdeithas'. Yr ydym ni'r oedolion yn aml yn barod i gondemnio'r ieuenctid tra'n euog o beidio rhoi llais iddynt, na gofyn yn aml am eu cymorth. Mae'r ieuenctid yno i'w defnyddio er lles i ni'r oedolion. Yn ystod yr wythnos yma daeth aelodau sawl clwb allan o'r neuadd bentref neu'r ysgol. Penderfynodd Clwb Bethel fynd i gartref henoed Sant Teilo ym Methel ac o dan arweiniad Iola Hughes, yr arweinyddes weithgar, trefnwyd ambell weithgaredd a'r prif nod oedd dod â gwahanol genedlaethau at ei gilydd. Mae gwir angen y sgwrsio rhwng yr oedrannau yma. Barn yr arweinyddes oedd fod yr ieuenctid wedi manteisio o'r profiad. Diolch am eu cyfraniad a gobeithio y daw hyn yn rhan naturiol o weithgarwch a natur y clwb, yn hytrach na rhywbeth sy'n perthyn i un wythnos benodol yn unig.

AR BEN ARALL Y LEIN . . .

Wrth gloi'r erthygl yn y rhifyn diwetha o'r Eco fe addewais adrodd stori a glywais flynyddoedd yn ôl wedi imi symud yn ôl i'r ardal i fyw. Mynd i 'sgota un gyda'r nos wnês i ac yn sefyll ar bont Crawia gan edrych i lawr i'r afon tra'n disgwyl iddi dywyllu a chefais sgwrs, fel arfer, gyda Gwynfor Jones o Fethel. I'r rhai ohonoch sy'n gwybod am y llecyn yma fe welir heddiw, islaw'r bont, Ddeorfa'r Gymdeithas Bysgota sy'n sefyll ar safle hen felin wenith y Faenol. Yn terfynu ar yr afon mae clawdd uchel ac ynddo mae olion hen ddrws sydd wedi ei orchuddio â blociau llechi.

Gofynnais i 'Jôs' — 'Be ydi hanas hwnna tybad?' 'Wel, mi ddwedai wrthat ti,' meddai, a dyma'r hanes: Pan oedd y felin yn ei bri roedd yno felinydd a oedd wedi llwyr wirioni ar 'sgota ac fe arferai, tra byddai cerrig y felin yn malu, agor y drws ac yna 'sgota rhyw ychydig o'r fan honno hyd nes y byddai'n rhaid bwydo'r meini drachefn. Un diwrnod tra roedd yr hen felinydd yn 'sgota roedd yna li da yn yr afon a'r hen foi ar dân eisiau trio pry genwair. Dechreuodd ar y gwaith gan roi digon o gyflenwad i gadw'r meini i droi am beth amser ac i ffwrdd â fo — agorodd y drws ac allan â'r pry genwair. Ymhen ychydig fe fachodd eog anferth a hwnnw'n rhedeg i bob cornel o'r pwll ac ambell dro yn ceisio neidio dros y bont i Lyn Crawia. Roedd yr hen felinydd wedi cynhyrfu'n lân ond ar hynny dyma sŵn rhygnu aruthrol yn dod o'r felin a'r meini yn rhwbio yn erbyn eu gilydd. Rhaid oedd rhoi mwy o wenith at eu gwaith, ond beth am yr eog? Roedd hwnnw'n dal yn fywiog a ddim yn barod i'r giaff. Doedd dim amdani ond clymu'r lein am bostyn y drws, ac felly y bu. Aeth y melinydd yn ôl at ei waith am ysbaid ac yna rhuthrodd yn ôl am y 'sgodyn — ond dyna syndod — doedd yna ddim golwg o'r drws na'r postyn. Roedd yr eog mor fawr nes ei fod wedi tynnu'r cwbl i'r afon. Aeth y melinydd ati'n syth i gau'r bwlch lle bu'r drws ac felly y mae hyd heddiw — medda nhw, ynte!

Deorfa y Gymdeithas Bysgota yng Nghrawia — safle'r hen felin.

Nos Iau, 11 Rhagfyr cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol y Gymdeithas Bysgota yn yr Institiwt, Caernarfon ac roedd yna dros 50 o'r aelodau'n bresennol. Un o'r materion pwysicaf i'r ardal yw y bydd trwydded tymor i oedolion (18+) yn £85 eleni os prynir cyn 1 Mawrth 1998. Mae yna gynllun cynilo i'w gael megis stampiau £5 sydd ar werth yn siop Garth Maelog, Llanberis. Bydd cost y drwydded i ieuenctid (12-17) yn £12 a dyna'r gost hefyd i unigolion sy'n dilyn addysg bellach. Ni fydd cost i'r rhai dan 12 oed os yw'r plentyn yng nghwmni 'sgotwr trwyddedig.

Mae'r broblem gyda gwaith carthffosiaeth Llanberis yn wybyddus i bawb ac rydym yn gobeithio fod pethau rwan yn gwella ond rhaid fydd rhoi hoi bach i natur gael dod yn ôl ato'i hun felly am 1998 bydd nifer a ganiateir o helfa'r torgoch yn cael ei ostwng i 6 y dydd. Rhaid fydd cydweithio i'r perwyl hwn a gobeithiwn y bydd pawb yn gweld y rhesymeg.

Yn ogystal â cheisio cynyddu'r torgoch mae cynlluniau ar y gweill i roi cywion eogiaid yn Nant Peris ar Afon Goch. Mae miloedd o wyau yn y Ddeorfa a gobeithiwn y gwnaiff hyn roi tro eto am well 'sgota eogiaid. Mae llywodraeth Iwerddon yn awr yn deffro i'r newid mae rhwydo yn ei wneud nid yn unig i'w afonydd hwy ond hefyd i ni yma yng Nghymru, yn Lloegr, yr Alban, Ffrainc a gogledd Sbaen.

Dymunir i chwi oll Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda.

HUGH P. HUGHES

Simneau glân am bris rhesymol gan

G. LLOYD

4 PLAS TIRION TERRACE
LLANRUG

Cyfarchion y tymor i chwi oll

Defnyddir peiriant sugno i lanhau

Ffôn: Caernarfon 674781

Nadolig Llawen oddi wrth **Bryn a Kathleen**

Am eich
ANGHENION ADEILADU
mawr a bach
MASNACHWYR A "D.I.Y."
am **BRISIAU CYSTADLEUOL**



BRYN
(B & K Williams)

Yr Hen Ysgol
Glanmoelyn
LLANRUG
Ffôn: 677482

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth **Elaine, a staff**

Elaine's

LLANRUG, Ffôn: 672023

ORIAU AGOR	
Mawrth	9.00 - 7.00
Mercher	9.00 - 1.00
Iau	9.00 - 8.00
Gwener	9.00 - 8.00
Sadwrn	7.30 - 2.00

Dydd Mawrth a dydd Mercher i bensiynwyr

Nos Fawrth i ddynion

Colurio ar gyfer achlysuron arbennig

Y DELYN DEIRES



Mae Cryno Ddisg newydd o gerddoriaeth Telyn Draddodiadol Gymreig wedi ei chyhoeddi gan Llio Rhydderch o Farianglas, Ynys Môn. Mae'r delynores yn cofio ymweld â'r ardal hon flynyddoedd yn ôl i gynnal cyngherddau a nosweithiau llawen gyda'i thad, y canwr penillion Prydderch Williams. Ar y CD newydd clywir sain dwy delyn deires ynghyd â thelyn o weithred sengl. Mae Llion Rhydderch yn olyniaeth yr hen delynorion traddodiadol, wedi ei hyffordd gan Delynores Maldwyn — Nansi Richards — ac yn trosglwyddo'r grefft a'r dechneg i genhedlaeth newydd o delynorion. Mae'r CD a'r casét yn y siopau mewn pryd erbyn y Nadolig.

DYDDIADUR RHAGFYR a IONAWR

21. Sul **DEINIOLEN:** Gwasanaeth Nadolig y Plant yn Ebeneser am 10.30 a.m.
LLANBERIS: Gwasanaeth Nadolig y Plant yn Capel Coch am 2.00 p.m.
PENISARWAUN: Gwasanaeth Nadolig y Plant yn Bosra am 10 a.m. Gwasanaeth Cristingl yn yr Eglwys am 4 p.m.

22. Llun **PENISARWAUN:** Parti Nadolig yr Ysgolion Sul am 2.30 p.m.

24. Mer. **(Noswyl Nadolig) DEINIOLEN:** Cymundeb yn yr Eglwys am 11.30 yr hwyr.

25. Iau **(Dydd Nadolig) LLANBERIS:** Cymundeb yn Capel Coch am 10.00 a.m.
PENISARWAUN: Cymun Nadolig yn yr Eglwys am 9.30 a.m.

28. Sul **DEINIOLEN:** Gwasanaeth Cristingl yn yr Eglwys am 6 p.m.
PENISARWAUN: Naw Llith a Charol yn yr Eglwys am 4 p.m.

IONAWR 1998

4. Sul **BRYNREFAIL:** Cyfarfod Gweddi Blynyddol am 5.30 p.m.
DEINIOLEN: Yr Ysgol Sul yn ailddechrau.

8. Iau **DINORWIG:** Cyfarfod Gweddi y Gymdeithas am 7 p.m.

11. Sul **PENISARWAUN:** Yr Ysgol Sul yn ailddechrau.

12. Llun **DEINIOLEN:** Cyngor Eglwysi yn Libanus am 7 p.m. o dan ofal y Parchg Olaf Davies.

13. Maw. **LLANRUG:** Merched y Wawr yn yr Ysgol Gynradd.

14. Mer. **BETHEL:** Merched y Wawr — dawnsio llinell yn yr Ysgol.

15. Iau **LLANRUG:** Plaid Cymru — sgwrs gan Ioan Gruffudd am y 'Gŵr o Baradwys'.
CWM-Y-GLO: Pwyllgor yr Adran Gymuned am 7 p.m.

19. Llun **DEINIOLEN:** Merched y Wawr — sgwrs am Armoatherapi.

21. Mer. **LLANRUG:** Cwmni Theatr Bara Caws yn perfformio yn Ysgol Brynrefail.

22. Iau **DINORWIG:** Y Gymdeithas — noson o dan ofal Teulu Tŷ'r Ysgol.

26. Llun **DEINIOLEN:** Y Gymdeithas Lenyddol — Mr Neville Hughes.

29. Iau **WAUNFAWR:** Plygu'r Eco yn Festri Croesywaun.

RHODDION

£10: Norman Williams, Waunfawr.

£5: Mrs Ena Jones a Gwyneth, 3 Coed y Ddôl, Llanberis. Jane a Neville Thorman Jones, 14 Tai Caradog, Deiniolen. Iorwerth a Peri Evans, 5 Hafod Olau, Deiniolen. Teulu y ddiweddar Mrs Maggie Thomas, Arosfa, Stryd Fawr, Deiniolen. Llinos a Neil, Corlan y Rhos, Llanrug. Vera Williams, Awelon, Llanrug.

£3: Elizabeth a Peredur, 4 Fron Goch, Llanberis. Mrs Pugh, 14 Glanmoelyn, Llanrug.

£2: Hugh Vaughan Evans, 3 Dinorwig Terrace, Clwt-y-bont gynt.

Cyfarchion yr Ŵyl o Fethel

Oherwydd ei bod yn yr ysbyty ni fydd Mrs Mary D. Williams, Awelon (Cefn Gwyn gynt) yn anfon cardiau Nadolig eleni ond mae'n dymuno Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i'w chyfeillion a'i chymdogion i gyd.

* * * *

Dymunir Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i holl drigolion Bethel a'r cylch gan drigolion Cartref Preswyl St. Teilo.



'Ydi'r doctor 'ma'n ca'l diwrnod rhydd eto?'

TACSI AL

(01286) 872576 / 871049

Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda oddi wrth Alwyn, Marella a phawb o Tacsi Al.
Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

YFWCH CHI — FE DDREIFIWN NI

PRIODAS YNG NGHANADA

Mae Simon Morris yn frodor o Ddeiniolen, yn fab i Eleri a Gwyn Morris, 8 Rhesdai Fictoria ac yn ŵyr i Nancy a'r diweddar Eric Hughes, Siop Bapur Newydd a'r diweddar Jane a Dafydd Morris, 92 Pentre Helen.

Roedd o'n chwech oed pan ymfudodd gyda'i rieni a'i chwaer fach Kelly i Ganada a hynny 17 mlynedd yn ôl. Mae Simon a Kelly yn dal i siarad Cymraeg ac mae'r iaith yn dal yn fyw ar eu haelwyd gartref.

Bwriada Simon ddod a'i wraig newydd yn ôl i Gymru ym mis Mehefin ac mae'n edrych ymlaen yn arw i weld ei deulu a'i ffrindiau. Yn y llun o'r briodas mae Gwyn ac Eleri Morris, Smon a Nichole, Mrs Nancy Hughes — a anfonodd y wybodaeth i'r *Eco* — a Kelly.

AMGUEDDFEYDD AC ORIELAU CENEDLAETHOL CYMRU

FFAIR GAEAF



Diddanwr Teulu
Paentio Wynebau
Cerddoriaeth & Dawns Traddodiadol
Clywed Stori
Castell Codwm
Helfa Drysor
Gweithdy & Arddangosiad Castio Prês
Taith Natur
Holiti & Naddu Llechi
(Holitwch eich llechen eich hun !)
Crefftau
Sioe Bypedau
Arddangosfa Nadolig gan Blant Ysgol Bethel
(8-31 Rhagfyr 1997)
Llunlaeth
Tân Gwyllt

AMGUEDDFA LECHI CYMRU
LLANBERIS
Rhagfyr 29ain & 30ain 1997
12.00pm - 5.00pm

TÂL MYNEDIAD

Llanberis 870203
Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant - disgo a.y.y.b.
Bwydlen Bar a Restaurant
Cinio Dydd Sul
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Roger a'r staff

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

ATEBION Y DATGANIADAU A DDAETH O SIAMBAR SELWYN:
Mae'r datganiadau i gyd yn gywir!

SEFYDLIAD Y MERCHED. Ddydd Sadwrn, Tachwedd 15fed, cymerodd nifer o aelodau'r gangen ran yn y cystadlaethau yn Sioe Grefftau a Chynnyrch Nadolig Sefydliad y Merched Gwynedd a gynhaliwyd yn Ysgol Brynrefail.

Bu'r canlynol yn llwyddinnus mewn amrywiol adrannau: Ifanwy jones, Mai Davies, Carol Houston, Jennie Hughes, Gwenllian Edwards, Eleanor Williams, Betty owen a Helen Morris. Mrs Pat Jones a drefnodd yr hamper Nadolig a enillodd yr ail wobr.

Nos Lun, Rhagfyr 15fed, mwynhaodd yr aelodau eu cinio Nadolig ym Mwyty Dakota, Dinas Dinlle.

Ddydd Mercher, Rhagfyr 17eg, mwynhaodd henoed y pentref eu parti Nadolig wedi ei drefnu gan y gangen yn y Festri. Roedd yr adloniant yng nghwmni disgyblion Ysgol Gynradd Cwm-y-glo dan ofal Mrs Mair Huws a dosbarthwyd anrhegion i bawb gan Siôn Corn.

NANT GWRTHEYRN. Dymuniadau gorau i Gwyn Hefin Jones, Rhandir yn ei waith fel arolygydd a chydlynydd dros-dro yng Nghanolfan laith Nant Gwrtheyrn. Da clywed y bydd y Nant yn agored fel arfer ar ddechrau'r flwyddyn newydd.

DIOGELWCH Y FFORDD. Diolch i Gyngor Gwynedd am ddarparu stribedi sŵn a gwella'r arwyddion rhybudd ar y briffordd B4547 drwy'r pentrefr. Dilyniant yw hyn i drafodaeth gyda'r heddlu, Cynghorwyr lleol a thrigolion yr ardal, dan arweiniad Mr John Meirion Morris. Gwnaed archwiliad o'r damweiniau a gofnodwyd ar y rhan yma o'r ffordd yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf. Gofyn am groesfan wnaeth y trigolion ond gwrthodwyd hyn gan y Cyngor oherwydd ni ellid cyfiawnhau cyfyngiad cyflymdra o 40 milltir yr awr. Serch hynny, y bwriad yw lledu'r ffordd ger y groesffordd uchaf a darparu tair lôn gyda marciau lletgroes yn y canol i hwyluso troi i'r pentref. Bwriedir hefyd ddarparu ynys yng nghanol y ffordd i hwyluso croesi'r ffordd.



Enillodd Rhian Wyn Morris, 5 Minffordd, Brynrefail werth £200 o docynnau Woolworth mewn cystadleuaeth ysgrifennu llythyr at Siôn Corn a drefnwyd gan y cwmni. Mae Rhian yn 8 oed ac yn ddisgybl yn Ysgol Cwm-y-glo. Llongyfarchiadau iti, Rhian, a gad i ni wybod os bydd y cabbage patch kid, a'r stand piano, a'r computer sy'n siarad a'r monkey madness wedi cyrraedd erbyn 'Dolig.

EGLWYS M.C. BRYNREFAIL. Dydd Sul, Ionawr 4ydd 1998, cynhelir y Cyfarfod Gweddi Blynyddol dechrau blwyddyn am 5.30 o'r gloch.

Disgwylir y canlynol i wasanaethu yn ystod gweddill Suliau mis Ionawr:

11. Parchg Dafydd Hughes, Caernarfon (10)
18. Mr Norman Closs Parry, Treffynnon (10)
28. Canon R. Glyndwr Williams, Bangor (10).

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
Richard S. Humphreys
FINE ART TRADE GUILD
ORIEL CWM
Cwm-y-glo
Ffôn/Ffacs: (01286) 870882
Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau gwreiddiol gan Artistiaid Lleol

IEUAN WILLIAMS
Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO
YN ABBEY ROAD

BANGOR
(01248)
354646

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth Aneuryn Jones a'r staff

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb
GWYNETH ROBERTS
84 Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: 870491
Teganau, Cardiau
Melysion
Anrhegion

Cacennau
Nadolig a
Bara Brith Traddodiadol
BECWS ERYRI
Stryd Fawr, Llanberis 870491

ATODIAD EISTEDDFODAU'R FRO 1997

Mae'r atodiad blynyddol yma yn rhoi cipolwg ar y gweithgaredd anhygoel sy'n cymryd lle yn eisteddfodau pentrefi bro'r Eco. Cipolwg yn unig ydyw gan ganolbwyntio'n naturiol ar y cynnyrch llenyddol. Ond wrth edrych drwy'r canlyniadau mae'n amlwg fod yr eisteddfodau yn fodd i gannoedd yn llythrennol o blant ac oedolion yr ardal i gael blas ar gystadlu — boed yn ganu, llefaru, actio, gwnïo, tynnu lluniau, gwneud gwin a llawer, llawer mwy. Diolch o galon i bawb ohonoch sy'n gweithio mor galed i gynnal y gweithgaredd yma. 'Dan ni'n gwybod faint o waith sy'n gysylltiedig â gwneud hynny ac mi rydan ni'n wirioneddol ddiolchgar.

CANLYNIADAU EISTEDDFOD PENISARWAUN

Adrodd cyn oed ysgol (a'r Uned Feithrin): Siôn Dafydd. Canu cyn oed ysgol (a'r Uned Feithrin): Siôn Dafydd. Gwaith llaw cyn oed ysgol (a'r Uned Feithrin): Siôn Dafydd a Glesni. Arlunio cyn oed ysgol (a'r Uned Feithrin): Hannah Smith. Adrodd Bl. 0: Anest. Canu Bl. 0: Anest. Gwaith llaw Bl. 0: Anna. Arlunio Bl. 0: Rebecca Evans. Adrodd Bl. 1 a 2: Iolo. Canu Bl. 1 a 2: Gethin. Rhyddiaith Dosbarth Babanod (Bl. 0): Anest. Rhyddiaith Dosbarth Babanod (Bl. 1 a 2): Bl. Morys; Bl. 2, Rebecca a Caryl. Arlunio Bl. 1 a 2: Sasha. Gwaith llaw Bl. 1 a 2: Bethan. Coginio dan 8 oed: Bethan. Parti Canu Babanod: Parti Sophie. Adrodd Bl. 3 a 4: Luke. Canu Bl. 3 a 4: Bedwyr. Rhyddiaith Bl. 3 a 4: Hanna. Arlunio Bl. 3 a 4: Sioned Alaw. Gwaith llaw Bl. 3 a 4: Catrin. Parti canu dan 12: Parti Manon. Canu Bl. 5 a 6: Mathew. Adrodd Bl. 5 a 6: Mathew. Rhyddiaith Bl. 5 a 6: Manon. Arlunio Bl. 5 a 6: Jess. Coginio dan 12: Anest. Cân Werin dan 12: Heledd. Ffotograffiaeth dan 12: Catrin. Parti Adrodd dan 12: Parti Haydn. Unawd Piano dan 12: Mathew. Tarian yr Eisteddfod i'r Prif Lenor dan 12: Manon Glyn Roberts. Canu Bl. 7, 8 a 9: Cenin. Barddoniaeth Bl. 7, 8 a 9: Eurig. Rhyddiaith Bl. 7, 8 a 9: Erin. Arlunio Bl. 7, 8 a 9: Eurig. Coginio Bl. 7, 8 a 9: Cenin ac Eurig. Canu Bl. 10-13: Elgan a Wena. Adrodd Bl. 10-13: Sioned Catrin Davies. Unawd Piano Bl. 7-13: Sioned Catrin Davies. Parti Deulais dan 18 oed: Parti Vincent. Can Ysgafn Pop dan 18: Bedwyr. Rhyddiaith Bl. 10-13: Sioned Catrin Davies. Barddoniaeth Bl. 10-13: Sioned Catrin Davies. Cwpan yr Eisteddfod i'r Prif Lenor 12-18 oed: Sioned Catrin Davies. Unawd unrhyw offeryn heblaw'r piano dan 18: Ynyr. Arlunio Bl. 10-13: Ynyr. Gwaith llaw Bl. 10-13: Ynyr. Ffotograffiaeth dan 18: Ynyr. Adrodd 18 oed i oedran pensiynwyr: Mair Edwards Hughes. Parti Adrodd oedolion: Parti Ann. Deuawd Agored: Wena a Sioned. Meim i Record, Agored: Bedwyr, Ynyr, Jason, Deian, Heledd, Manon. Gwaith llaw oedolion: Alison Donnelly. Arlunio oedolion: Nant Roberts. Coginio oedolion: Eluned Jones. Ffotograffiaeth oedolion: Marian Griffiths. Unrhyw ddawns unigol (agored): Anest. Cyflwyniad dramatig (dau neu fwy): Wendy, David, Eifion a Marina. Grŵp Cân Ysgafn dros 18: C'mon Midffild. Gorffen limrig: Dafydd Williams. Brawddeg o'r gair 'Llanddeiniolen': Carys Williams. Parti Canu oedolion: Parti Marina.

Manon Glyn Roberts

ANNE FRANK

gan Manon Glyn Roberts

Prif Lenor dan 12 oed

Dyma stori drychinebus am ferch ifanc o'r enw Anne Frank a'i theulu yn cael eu herlid am ddim rheswm yn y byd. Enw ei chwaer oedd Margot. Roedd tair blynedd yn hŷn nag Anne. Enw ei mam a'i thad oedd Edith ac Otto. Roeddynt yn cael bywyd mor erchyll mi fyddwn yn taeru mai hunllef oedd!

Rwyf yn cychwyn dweud yr hanes fel hyn. Ganed Anne yn Frankfurt yn 1929. Fe gafodd ei dwyn i fyny fel merch aeddfed, hoffus a galluog. Roedd gan Anne ddigonedd o ffrindiau, wel, roedd hynny cyn i Hitler ddod i bŵer i wnud bywydau'r Iddewon yn un trychineb mawr.

Yn y flwyddyn 1933 y daeth Hitler i Bŵer. Yn y cychwyn dywedodd Hitler fod yn rhaid i'r Iddewon gael gwared o'u beiciau a'u ceir. Roedd Hitler yn gwybod fod hyn yn annifyr iawn oherwydd roeddynt yn teithio i bobman ar feic a rhai gyda char. Ychydig wedyn nid oeddynt yn cael siopa ond rhwng yr oriau yma 3.00 a 5.00 ac ond mewn siopau Iddewig. Roeddynt yn gorfod bod yn y tŷ erbyn 8.00. Roedd bywyd yr Iddewon fel un hunllef mawr. Yn y diwedd roedd pethau mor ddrwg aethant i Amsterdam i fyw. Roedd Margot wedi cael llythyr i ddweud fod rhaid iddi fynd i wersyll ofnadwy am ei bod yn Iddew. Roeddynt yn gobeithio na fyddai Hitler yn eu dilyn.

Gnaeth Anne ffrindiau newydd ac roedd bywyd yn braf unwaith eto ond yn anffodus rhedodd Anne a'i theulu allan o lwc. Roedd Hitler yn ôl. Roedd Hitler a'r Natsiaid wedi dod i bŵer yno hefyd. Pan glywodd Otto Frank y newyddion a dweud wrth ei deulu fe aethant yn syth i guddio. Pan oeddynt yn gadael yn 1933 roedd Hitler yn gyrru yr Iddewon i weithio yn y gwersylloedd. Roedd yn ofnadwy. Roeddynt yn cael eu gyrru i gawodydd. Roedd y milwyr yn dweud mai cawod oedd o. Roedd tua cant a hanner yn mynd i mewn, tynnu eu dillad, ac roedd nwy gwenwynig yn dod allan o'r cawodydd. Roedd y Natsiaid mor gas a'u gwylio yn marw. Roedd yn ofnadwy.

Beth bynnag, fe awn yn ôl at y stori. Fe aethant i guddio mewn nenlofft ffatri. Yn y ffatri roedd cwpwrdd a grisiau cul, cul yn arwain i fyny i'r nenlofft, ac yn y fan honno y cuddiodd pawb. Daeth deintydd o'r enw Mr Dussel, a theulu arall, sef bachgen bach o'r enw Peter a'i fam a'i dad, Mr a Mrs van Dam, a'u cath atynt. Doedd gan Anne ddim i'w wneud ond eistedd mewn cornel dywyll a'i phen yn ei phlu. Ym mis Gorffennaf 1942 roeddynt yn symud i mewn i'r nenlofft dywyll. Roedd Hitler a'i filwyr yn gwneud bywydau'r Iddewon yn anioddefol.

Yn y nenlofft cafodd Anne ei dyddiadur enwog o fri. Mae bron pawb trwy'r byd yn gwybod amdano. Ar Orffennaf 14eg, 1942 y cafodd y dyddiadur hwn. Fe'i galwodd yn Kitty.

Roedd Anne a'i theulu yn y nenlofft am ddwy flynedd ond ni fyddent wedi byw heblaw am Miep a Jan a'u cyfeillgarwch. Roeddynt yn golchi eu dillac ac yn eu bwydo ac yn gwneud popeth drostynt. Gweithio yn y fatri oeddynt. Roedd Miep a Jan wedi bod yn gyfeillgar iawn wrth Ane a'i theulu. Yn drist iawn darganfu y Natsiaid ei chuddfan ym mis Awst 1944 ac fe'i rhoddwyd mewn trên fudur a'i hel i wersyll ofnadwy. Cafodd Anne, Margot a'u mam eu hel i Belsen a chawsant eu gwahanu oddi wrth Otto oedd wedi cael ei yrru i Auschwitz. Bu farw Edith a Margot Frank a meddyliodd Anne waeth iddi hithau'r roi'r ffidil yn y to gan feddwl fod Otto wedi marw hefyd.

Ymhen tipyn bu farw Anne druan ond yn 1945 cafodd yr Iddewon eu rhyddhau. Roedd Otto wedi goroesi ac aeth yn ôl i'r nenlofft i weld a oedd gweddill y teulu wedi dychwelyd. Ond ni ddychwelodd ei deulu Gwelodd ddyddiadur Anne ar y llawr a chafodd ei wneud yn lyfr ac mae yn awr yn ail lyfr mwyaf poblogaidd yn y byd. A dyna stori bywyd erchyll Anne Frank.

Y LIMRIG FUDDUGOL

Mi welais y Lolipop Ledi
Yn mynd dros y ffordd reit 'unstedi'
Roedd wedi cael 'gin'
A'r plant erbyn hyn
Yn helpu'r hen ddynes i groesi.

Y FRAWDDEG FUDDUGOL

LLwyddodd Ant Neli DDysgu Ein Iaith Ni I Oedolion Efrog Newydd.

CANLYNIADAU EISTEDDFOD GWAUN GYNFI

Arwel Williams a enillodd y wobr gyntaf ar yr unawd offerynnol dan 16 oed, hefyd Cwpan Mr a Mrs Hefin Williams am yr ymgais orau yn yr adran gerdd o dan 21 oed.

Beirniaid — Cerdd a Cherdd Dant: Robat Arwyn, Rhuthun. Adrodd a Llên: y Prifardd John Gwilym Jones, Bangor. Gwau, gwnïo a choginio: Pat Jones, Brynrefail. Arlunio, gwaith llaw a ffotograffiaeth: Gwilym Williams, Deiniolen. Trefniant blodau: Mr a Mrs Alwyn Jones, Racca.

ADRODD. Ysgol Feithrin: 1, Mandy; 2, Dwynwen a Lliwen; 3, Christopher, Owain Glyn a Gethin. Bl. 0: 1, Daniel; 2, Gethin ac Arwyn; 3, Iwan, Gwenno a Megan. Bl. 1 a 2: 1, Bronwen; 2, Laura; 3, Caryl. Bl. 3 a 4: 1, Kayleigh. Bl. 5 a 6: 1, Donna. Dan 16: 1, Darryl; 2, Michelle. 16-21: 1, Lindsey. Darllen o'r Ysgrythur i ddysgwyr: 1, Miss Moeller. Adrodd digri agored: 1, Michelle; 2, Owen Parry. Prif adroddiad agored: 1, Tegfryn; 2, Meira Turner.

LLÊN. Ysgol Feithrin: 1, Gwion, Owain, Llŷr, Rhys, Calvin, Owain Glyn; 2, Ceirion, Gruffydd, Dion, Jason; 3, Gwilym, Manon, Anthea, David, Siobhan, Gareth, Lliwen, Daniel, Christopher, Mandy. Bl. 0: 1, Nathaniel, Gethin, Cadi, Arwyn, Richard; 2, Megan, Maria, Iwan, Daniel. 3, Kelly, Bleddyn, Gruff, Rachel, Gwenno. Bl. 1: 1, Gwydion, Stephanie, Ffion, Buddug; 2, Liam, Stephen, Aaron, Ashley; 3, Zena, Samantha, Adam, Sion. Bl. 2: 1, Sioned, Bronwen; 2, Sophia a Caryl; 3, Aimée, Manon, Kirsty. Bl. 3: 1, Gwenllian. Bl. 4: 1, Kayleigh, Deborah; 2, Nidian, Tony. Bl. 5: 1, John a Gregory. Bl. 6: 1, Llinos ac Aletea. Stori fer agored: Helen Hughes, Carmel. Englyn agored: 1, Nanw Roberts, Llanddeiniolen a John Owen Jones, Betws-y-coed. Parodi agored: 1, Valmai Williams, Aberdesach. Telyneg agored: Beryl Griffiths, Trefor. Limrig agored: Alwyn Jones, Deiniolen. Llinell goll agored: 1, Beryl Griffiths, Trefor. Erthygl addas ar gyfer Eco'r Wyddfa (agored): 1, Eirlys Wyn Thomas, Rhuthun. Cyfansoddi Emyn Sul y Mamau (agored): Beryl Griffiths, Trefor. Creu brawddeg (agored): Carys Briddon, Machynlleth. Cystadleuaeth y Gadair (agored): Einir Gwenllian.

CERDD. Ysgol Feithrin: 1, David; 2, Lliwen; 3, Christopher, Owain Glyn, Mandy a Daniel. Bl. 0: 1, Arwyn; 2, Daniel; 3, Gethin. Bl. 1 a 2: 1, Bronwen; 2, Laura; 3, Caryl ac Iwan. Bl. 3 a 4: 1, Emma. Bl. 5 a 6: 1, Rachel; 2, Donna; 3, Laura. Parti dan 12: 1, Parti Ysgol Gwaun Gynfi. Unawd dan 16: 1, Michelle; 2, Trystan. Unawd offerynnol dan 16: 1, Arwel; 2, Jennie; 3, Gethin. Deuawd dan 16: 1, Jennie a Michelle. Côr neu barti ieuenctid: Parti Trystan. Unawd Cerdd Dant dan 21: 1, Lindsey; 2, Michelle. Cân Werin dan 21: 1, Lindsey; 2, Michelle. Unawd piano dan 21: 1, Darryl; 2, Michelle; 3, Lindsey. Unawd 16-21: 1, Lindsey. Canu Emyn dros 50: 1, Dilys Mai; 2, Eirlys; 3, Glenys. Unawd offerynnol agored: 1, Jennie; 2, Urien. Cân Werin agored: 1, Wmffra; 2, Michelle; 3, Tegfryn. Her Unawd agored: 1, Lindsey; 2, Wmffra; 3, Gerallt ac Alun. Côr neu barti agored: 1, Llannau Môn. Cyfansoddi Tôn: 1, Gwilym Lewis, Caergybi.

CELF A CHREFFT — Arlunio. Ysgol Feithrin: 1, Ceri; 2, Dani; 3, Lowri. 1, Mandy; 2, Lliwen; 3, Calvin. Bl. 0: 1, Kelly Ann; 2, Arwyn; 3, Einion. Bl. 1: 1, Ffion; 2, Zena; 3, Gwydion. Bl. 2: 1, Sophia; 2, Sioned; 3, Bronwen. Bl. 3: 1, Gwenllian; 2, Lois; 3, Simon. Bl. 4: 1, Deborah; 2, Nidian; 3, Geraint. Bl. 5: 1, Tomos; 2, Sheila; 3, Catrin. Bl. 6: 1, Ruth; 2, Llinos; 3, Matthew. GWAITH LLAW. Ysgol Feithrin: 1, Lois; 2, Dani; 3, Sophie; 1, Gwion; 2, Mandy; 3, Christopher. Bl. 0, 1 a 2: 1, Sophia. Bl. 3, 4, 5 a 6: 1, Kayleigh; 2, Nidian; 3, Louise; 4, Robat a Tony. GWAU. Ysgol Gwaun Gynfi: 1, Kayleigh; 2, Donna a Manon; 3, Gwenllian. Agored: 1, Menna; 2, Valmai; 3, Elan. GWNÏO. Ysgol Gwaun Gynfi: 1, Bronwen; 2, Stephanie; 3, Caryl a Manon. 1, Louise; 2, Llinos; 3, Robat. Brodwaith a Tapestri: Sharon James. COGINIO. Bl. 1, 2 a 3: 1, Louise; 2, Sophia. Bl. 4, 5 6: 1, Kayleigh; 2, Robat. Ysgol uwchradd: 1, Urien; 2, Alaw. Jam agored: 1, Gwen Griffiths; 2, Elan Williams a Barbara Allen; 3, Menna Jones. Teisen Sir Fôn (agored): 1, Helen Jones; 2, Gwen Griffith; 3, Eirlys Williams. Dynion yn unig: 1, Gwynfor James a Hefin Jones. FFOTOGRAFFIAETH. Ysgol Gwaun Gynfi: 1, Nidian Caffo. Ysgol uwchradd: 1, Urien Sion. Agored: 1, Valmai Williams; 2, Gwen Griffiths; 3, Meirion Williams. TREFNIANT BLODAU. Ysgol uwchradd: 1, Bethan Williams. Agored: 1, Gwen Griffiths.

ENILLWYR Y TLYSAU. Tlws Teulu Ceris: Donna Lewis. Tlws Crud-yr-awel: Llinos Morris. Tlws Mr a Mrs John Peris Roberts: Rachel Lea. Cwpan er cof am y diweddar Mr W. J. Eames am yr ymgais orau yn adran arlunio i flwyddyn 6 Ysgol Gwaun Gynfi: Ruth Edge. Cwpan Mr a Mrs Hefin Williams: Arwel Williams. Cwpan Bryn Du: Sharon James.

Enillwyr cwpanau'r Eisteddfod — Rachel Lea, canu; Ruth Edge, arlunio; Donna Lewis, llefaru; a Llinos Morris, llenyddiaeth.

PLENTYNDOD

Ma'r sêr yn sgleinio
fatha sîcwins dy ffrog ora di, Mam,
a'r awyr ddu
yn grycha cymylog i gyd
yn disgwyl i hetar smwddio'r gwynt
ei llyfnhau.

Mi glywa i gwdi hw
yn canu, Mam,
a'i chri fatha cri bwgi bo
wedi blino'n lân.

Ma'n llgada inna'n trymhau.
Ac ar ôl swatio'n dynn dan y dillad yn ôl
a suddo 'mhen i fynwes gynnes y gobennydd,
mi freuddwydia i'n braf
am gandi fflós
a Spice Girls
a ieir bach yr haf.

Ma' 'mywyd i'n felfedaidd
fatha clustia ci,
a 'myd i'n berl fach berffaith, gron
hefo Carlo a Dadi a chdi.

* * * *

'Mam, ga' i fwy o hufen iâ?'

'Wel, o' reit, am hiddiw, 'ta.
Chwara teg, ti'n hogan dda.'

Llond powlen o siocled hufennog
yn slwj ym mhopty fy llaw,
a'i oerni meddal
yn gwella'r dolur
sy'n swatio'n slei
dan fy nhafod, 'sti, Mam.

Ma' heulwen dy wên di'n gleniach
na gwres y badell ffrïo
sy'n hisian yn braf yn yr awyr drw'r dydd,
ac yn poeri ei sbrencs o saim
yn frychni brown am ben pawb.

''Di o'n neis, del?'

Yndi. Lyfli, Mam.
Bron mor neis
â thrwyn *wine gum* Carlo bach
a'r pincrwydd coed rhosys yna
sy'n gwrido'n ddel
hyd dy focha.

* * * *

Bechod bo chdi 'di blino,
neu ella basa chditha
wedi chwerthin am ben y mwncwns
yn swingio a gneud nada
yn y caets.
Chwerthin a chwerthin
fatha Nain, Ann Wyn a finna,
a'n bolia ni i gyd yn brifo
ar ôl stwffio tsips a phetha da
i lawr ein gyddfa
drw'r dydd.

Dŵad adra'n doman o chwys.
A finna'n adrodd hanas
y pengwins a'r eirth a'r racŵns.
Ac yn sylwi am tro cynta
fod cannwyll dy llgada di'n pylu.

A gweddïo'r noson honno:
O Dduw, rho wialan fedw
ar y tylwyth teg bach drw
sy'n araf ddiffodd y fflama
a losgai'n dafoda
o dân
ddoe.

* * * *

Ma'r ffrog ora'n hel llwch
yn y wardrob,
yn hongian yn llipa
fatha croen dynas dew 'di teneuo.

A heno,
dagra'r nos a wela i
yn sgelinio yn yr awyr,
a'r rheini 'di rhewi'n galad gorn
fatha gema'r fodrwy briodas
sy'n troi rownd gwelltyn gwyn dy fys.

Ma' 'na sŵn tu allan
i'r stafall wely —
tylluan fechan yn crïo,
a neb yn malio
ei bod hi yno
ar goll ym mol buwch y nos.

Babi tylluan yn ei chwman
ar gangan y goedan
yn crïo'n lân
ar ôl colli mynwes gynnes ei mam.

Lle'm byd i swatio
na chanu na chuddio.

Dillad duon, heb dy sîcwins sbesial di,
fydd pawb yn eu gwisgo fory.
Heb neb ond Carlo a Dadi a fi
i sychu'r dagra
sy'n disgyn yn berla
o llgada
Nain.

A finna, rŵan, hebddach chdi,
ar ôl swyn a sbri fy saith mlynedd,
yn fwy na pheth bach hen ffasiwn . . .

. . . Yn blentyn ar ei bensiwn.

Einir Gwenllian, Bethel, Bodorgan, Môn, bardd cadeiriol Eisteddfod Gwaun Gynfi.

CANLYNIADAU EISTEDDFOD WAUNFAWR

CYFARFOD Y PRYNHAWN

Canu Hafod: 1, Meleri; 2, Cara; 3, Enfys. Adrodd Hafod: 1, Cara; 2, Meleri ac Enfys. Canu oed mejthrin: 1, Anya, Cain, Thomas; 2, Leah, Gavin; 3, Pawb arall. Adrodd oed meithrin: 1, Cain, Anya, Shona; 2, Thomas, Leah, Elgan, Gavin; 3, Daniel, Dafydd, Arwel. Arlunio oed meithrin: 1, Cain a Gavin; 2, Arwel a Siôn; 3, Hannah. Arlunio'r Hafod: 1, Sam Markham a Meleri Gwyrfai; 2, Tammy Jones a Kathleen Barnes; 3, Daryl Kane ac Enfys Roberts. Arlunio Bl. 1: 1, Huw Griffith a Dion Evans; 2, Charlotte Ackers a Siôn Jones; 3, Victoria Taylor a Liam Rowlands. Arlunio Bl. 2: 1, Ffion Williams ac Olivia Taylor; 2, Tamsin Griffiths a Sara Lloyd Williams; 3, Elissiah Trew ac Elidyr Glyn. Cân Actol oed meithrin; 1, Parti'r Ysgol Feithrin. Canu Bl. 1 a 2: 1, Elidyr a Ffion; 2, Meurig; 3, Huw. Adrodd Bl. 1 a 2: 1, Elidyr; 2, Ffion; 3, Dewi, Siôn, Sara. Unawd recordydd Bl. 3 a 4: 1, Beth Greasley; 2, Caryl; 3, Nia Jones; 4, Dafydd a Siôn Greasley. Unawd Piano hyd at Bl. 4: 1, Beth; 2, Iwan Daniels a Siôn Greasley. Gwaith llaw dosbarth yr Hafod: 1, Kathleen Barnes; 2, Cara Pritchard a Sam Markham; 3, Enfys Roberts a Jason Parry. Gwaith llaw Bl. 1: 1, Victoria Taylor; 2, Charlotte Ackers a David Simpson; 3, Liam Rowlands a Thomas Simpson. Gwaith llaw Bl. 2: 1, Olivia Taylor; 2, Helen Jones a James Chesmer; 3, Ffion Williams ac Elisshia Trew. Unawd recordydd Bl. 5 a 6: 1, Guto; 2, Gavin; 3, Pryderi. Llên Bl. 3: 1, Tegwen; 2, Merenid a Marc; 3, Gethin a Siôn; Llên Bl. 4: 1, Caryl a Beth; 2, Elen a Lesley; 3, Nia Jones. Canu Bl. 3 a 4: 1, Caryl; 2, Iwan; 3, Beth, Arawn, Gwion. Adrodd Bl. 3 a 4: 1, Owain, Beth, Caryl; 2, Siôn, Gwion; 3, Dafydd. Parti recordydd ysgol gynradd: 1, Parti Di-enw. Gwaith llaw Bl. 3: 1, Gemma Markham; 2, Merenid Gordon; 3, Marc Greasley ac Owain Thomas. Gwaith llaw Bl. 4: 1, Nia Jones a Charline Roberts; 2, Dafydd Parry a Lesley Griffiths; 3, Kelly Lloyd a Caryl Wood. Gwaith llaw Bl. 5: 1, Charlotte Taylor ac Emma Simpson; 2, Dylan Parry a Sara Patchett; 3, Jason Gringham a Nia Mai Williams. Gwaith llaw Bl. 6: 1, Liam Simpson; 2, Ceri Delacey Vallecarde ac Elin Huws; 3, Yasmin Allen a Zoe Evans. Cân Actol oed cynradd: 1, Parti 0135; 2, Parti 246. Arlunio Bl. 3: 1, Siôn Greasley; 2, Kara a Rebecca; 3, Tegwen D. Vallecarde a Stephen Smith. Arlunio Bl. 4: 1, Lesley Griffiths; 2, Nia Jones a Deion Jones; 3, Ellen Jones a Beth Greasley. Unawd Piano Bl. 5 a 6: 1, Nia Griffith a Dylan; 2, Wenna; 3, Elin a Gavin. Unawd Cerdd Dant oed cynradd: 1, Guto. Llên Bl. 5: 1, Trefor a Pryderi; 2, Wenna a Nia Mai Williams; 3, Emma Simpson a Nia Griffith. Unawd Cân Werin oed cynradd: 1, Guto. Arlunio Bl. 5: 1, Dylan Parry a Gavin Thompson; 2, Sra Patchett a Trefor Meirion Jones; 3, Ela Griffith a Jason Gringham. Arlunio Bl. 67: 1, Eifion Patchett a Fiona Nesfield; 2, Ceri Delacey Vallecarde ac Ieuan Owen; 3, Liam Simpson ac Elgan Jones. Unawd llinynnol oed cynradd: 1, Esyllt. Unawd Bl. 5 a 6: 1, Nia Griffith; 2, Guto. Adrodd Bl. 5 a 6: 1, Pryderi a Gavin; 2, Rhion. Unawd offeryn chwyth oed cynradd: 1, Yasmin; 2, Esyllt; 3, Wenna, Mair a Guto. Parti Adrodd oed cynradd: 1, Y Darpar-bianyddion. Parti Canu oed cynradd: 1, Parti Anti Gwenda. Grŵp offerynnol oed cynradd: 1, Parti Ffildlau Anti Jina. Parti Dawnsio Disgo: 1, Parti Anti Caroline. Coginio cynradd: 1, Marc a Beth; 2, Dylan.

CYFARFOD Y NOS

Darllen darn a roddwyd ar y pryd dan 19: 1, Llion; 2, Lowri. Unawd offerynnol Bl. 7, 8 a 9: 1, Iwan Parry. Unawd piano Bl. 7, 8 a 9: 1, Ieuan Parry; 2, Cristina. Darllen darn heb ei atalnodi Bl. 7, 8 a 9: 1, Iwan Parryk; 2, Ieuan a Ioan. Darllen darn heb ei atalnodi 15-19: 1, Llion; 2, Lowri. Deialog agored: 1, Jina a Catrin. Unawd Cerdd Dant agored: 1, Eurig Wyn. Darllen darn heb ei atalnodi dros 19: 1, Robat; 2, Haydn a Jina; Parti Adrodd agored: 1, Parti Gwenda; 2, Parti Pearl. Cân Werin dros 19: 1, Wmffra a Catrin; 2, Alun; 3, Eurig Wyn. Emyn dros 40: 1, Alun; 2, Wmffra; 3, Eurig Wyn. Duawd dros 19: 1, Alun ac Wmffra; 2, Jina a Catrin. Grŵr offerynnol dros 19: 1, Parti Jina. Grŵp pop dros 19: 1, Y Chwilod. Unawd piano dros 19: 1, Catrin. Unawd offerynnol agored: 1, Catrin. Eitem Blygain agored: 1, Côr Weun; 2, Alun. Llinell Goll: 1, Mary Davies; 2, Gwyn Davies; 3, John Gwynedd a Glenys Williams. Unawd Gymraeg dros 19: 1, Eirwyn; 2, Wmffra; 3, Alun ac Eurig Wyn; 4, Catrin. Parti Dawnsio Gwerin dros 19: 1, Parti Tinkerbelle. Parti Cerdd Dant: 1, Côr Weun. Côr: 1, Côr Weun.

Diolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd i wneud Eisteddfod Pentref y Waunfawr 1997 yn eisteddfod lwyddiannus dros ben.

Diolch i lywydd y pwyllgor, Heulwen Jones, ac i'r trysorydd, Janet Greasley, am eu gwaith diflino; ac i Liz Daniels am drefnu'r caffi mor effeithiol. Diolch i Ann am ofalu am y drysau ac i Wmffra am gario'r cadeiriau yn ôl ac ymlaen o'r ysgol.

Diolch i'r pwyllgor i gyd am eu gwaith drwy'r flwyddyn. Diolch i bawb a fu'n helpu yn y caffi neu wrth y drws yn ystod y dydd. Diolch i bawb a fu wrthi'n hyfforddi unigolion a phartïon ac i bawb a gymerodd ran, yn enwedig y plant.

Diolch i'r beirniaid gwaith celf a gwaith llaw, Pat Jones, Sioned Glyn ac Ann Elfryn am roi eu hamser unwaith eto. Diolch i'r cyfeilyddion Jina Gwyrfa ac Ilid Jones, yr olaf wedi dod atom yn garedig iawn ar rybudd byr iawsn i lenwi i mewn yn lle ei merch, Angharad, oedd yn methu â bod yn bresennol. Diolch i'n harweinyddion, Nan Roberts, Cadi Jones, Sioned Glyn a John Gwynedd am eu gwaith da. Diolch i'n llywyddion Llion Iwan a Gwynn Davies. Diolch yn fawr iawn i Mrs Eryl Thomas a holl staff yr Ysgol Gynradd am drefnu'r cystadlaethau celf, gwaith llaw a llên i'r plant cynradd. Eleni, fel arfer, roedd safon a chyflwyniad y gwaith o'r radd uchaf ac yn dangos ôl paratoi trylwyr gan yr athrawon. Diolch yn bennaf oll i'r ddau feirniad hynod ymroddgar ac annwyl, Buddug Roberts ac Eleri Wyn Owen. Mae beirniadu am un awr ar ddeg mewn eisteddfod pentref yn waeth na rhedeg marathon, drwy'r cwbl bu'r ddwy yn annwyl, yn gadarnhaol, yn hwyliog ac yn amyneddgar.

Mae eisteddfod pentref sy'n agored i'r pentrefwyr yn unig yn beth eithaf prin yn ein dyddiau ni. Y prif ogoniant i mi yw eid bod yn rhoi cyfle i blant na fyddent yn meddwl cystadlu mewn eisteddfod 'agored i bawb' i berfformio o flaen cynulleidfa ac i ddatblygu eu doniau a'u hyder. Peth braf oedd gweld cystadlu brwd trwy eisteddfod y prynhawn, a chynifer o blant yn cymryd rhan. Er enghraifft, roedd 48 o blant rhwng 4 ac 11 oed yn cymryd rhan yng nghystadleuaeth y gân actol, tua hanner nifer disgyblion ysgol gynradd y pentref. Diolch yn fawr iawn i'r holl blant a gymerodd ran am eu gwaith caled.

Peth braf arall am eisteddfod pentref yw ei bod yn tynnu pawb at ei gilydd ac yn rhoi cyfle i bawb o bob oed fwynhau gwylio neu berfformio neu gymdeithasu mewn awyrgylch gartrefol ac agos-atoch.

Rhaid gorffen, fodd bynnag, ar nodyn mwy syber. Mae rhai o'r pwyllgor yn teimlo ei bod yn bryd ailedrych ar drefn a ffurf yr eisteddfod nos. A ddylid parhau â'r eisteddfod ar ei ffurf bresennol, yn wyneb y ffaith fod y gefnogaeth yn wannach nag y bu? Neu a ydi hi'n bryd ailwampio ychydig? Rydym wedi penderfynu cynnal pwyllgor yn fuan yn y flwyddyn newydd i drafod hyn ac estynnir croeso cynnes i bentrefwyr nad ydynt yn aelodau o'r pwyllgor i ddod i roi eu barn. Cynhelir y pwyllgor nos Lun, Ionawr 19eg am 8 o'r gloch yn y Ganolfan Fach.

SYLVIA PRYS JONES
(Ysgrifennydd)

CANLYNIADAU EISTEDDFOD BETHEL



Rhys Lloyd Jones, enillydd Tlws Celf a Chrefft (Uwchradd).

Nos Iau, Tachwedd 6ed cychwynnodd gweithgareddau yr Eisteddfod gyda cystadlaethau dawnsio disgo a gwerin. Yr arweinydd oedd Siân Harris a'r beirniaid oedd Judith Harding, Penisarwaun a Miriam Thomas, Bethel. Trefnwyd y noson gan yr Is-ysgrifenyddes Rhian Hughes.

Parti Gwerin Bl. 6 ac iau: 1, Parti Huw a Gwenllian; 2, Angharad a Manon; 3, Gwenllian a Siwan; cyd 4, Kirsty a Marged/Lowri a Heulwen. Pâr Disgo Bl. 7-13: 1, Sarah a Katies; 2, Cadi a Manon. Grŵp Disgo Bl. 6 ac iau: 1, Genod Sborti; 2, Saffir; cyd 3, Sbeis Bethel/Curiad. Disgo Unigol Bl. 7-13: 1, Katy Hughes. Grŵp Disgo 7-12: 1, Sbeis. Tlws am y perfformiad gorau: Katy Hughes.

Rhodwyd y tlws gan Ann Elis Williams.

Nos Wener, Tachwedd 7 cynhaliwyd y cystadlaethau Celf a Chrefft. Y beirniad oedd Beryl Griffiths, Llanfairfechan.

2D Ysgol Feithrin: 1, Mererid ac Ilid; 2, Lowri a Sioned; 3, Cadi ac Awel. Oed Meithrin: 1, Elin Mair; 2, Gerallt ac Arron. Bl. 0: 1, Bethan; 2, Catrin Jones; 3, Emma a Gwilym. Bl. 1: 1, Dafydd; 2, Cai a Gari; 3, Siôn. Bl. 2: 1, Hanna Gwyn; 2, Iona; 3, Ellis. Bll. 3: 1, Dawn; 2, Dewi Pierce; 3, Dewi Alun. Bl. 4: 1, Elan Rhys; 2, Berwyn; 3, Bethan Griffiths ac Aled Roberts. Bl. 5: 1, Ian Morgan; 2, Angharad Jones; 3, Jamie Whitmore a Llion. Bl. 6: 1, Gwion; 2, Rhian Jones a Gethin; 3, Richard Griffiths. Bl. 10-13: 1, 2 a 3, Rhys Lloyd Jones. Collage Bl. 0, 1 a 2: 1, Greta Fflur; 2, Ella Christie; 3, Marged; 3 a 4: 1, Sion Ffoulkes; 2, Aled Gwilym; 3, Berwyn. 5 a 6: 1, Rhys Hughes; 2, Huw Ffoulkes; 3, Ian Morgan. 7-9: 1, Sarah Morgan. 10-13: 1, Rhys Lloyd Jones. Ffotograffiaeth, 3 a 4: 1, Sion Ffoulkes; 2, Elan Rhys; 3, Iona Speake. 7-9: 1, Ffion Owen; 2, Sarah Morgan; 3, Cefin Williams. 3D Creadigol, Bl. 2 ac iau: 1, Gwilym; 2, Marged; 3, Aled Griffiths a Louis Williams. 3-4: 1, Ceri Griffiths; 2, Elan; 3, Ifan Bryn a Sasha Williams. 5-6: 1, Marc Bardsley; 2, Huw Ffoulkes. Pypedau, Bl. 2 ac iau: 1, Marged ac Iona; 3-4: 1, Aled Gwilym. Graffeg Cyfrifiadurol, Bl. 1-6: 1, Marged; 2, Elan; 3, Marged. Logo: 1, Marged Rhys; 2, Ceri Griffiths a Huw Ffoulkes; 3, Dewi Ffoulkes. Tlysau Celf a Chrefft, cynradd: Gwion Owen; uwchradd: Rhys Lloyd Jones.

Rhoddwyd y ddau dlws yn ddienw. Diolch i Iola Jones a'r pwyllgor Celf am drefnu mor rhagorol.

Pnawn a nos Sadwrn, Tachwedd 8fed, a'r Neuadd Goffa dan ei sang, cynhaliwyd yr eisteddfod. Yr oedd y Neuadd wedi'i haddurno gan waith plant a ieuenctid y pentref yn yr adran Gelf a Chrefft. Mrs Edwina Morris fu'n trefnu'r blodau.

Y beirniaid oedd — cerdd: Judith Rees Williams, Bae Penrhyn; llên a llefaru: Gwilym a Madge Hughes, Mynytho; cyfeilyddion: Caryl Owen, Deilwen Hughes a Glenys Griffiths; arweinyddion: Rhian Hughes, Anita Owen, Geraint Elis ac Iorwerth Williams; genethod y rubanau: Katy Hughes, Sarah Jones, Tracy Hall a Rhian Williams. Prif enillwyr llenyddol oedd Heulwen Ostler (cynradd) ac Anest Williams (uwchradd). Adran yr Urdd drefnodd yr orsedd, dan arweiniad Geraint Elis; Dewi Griffiths ar y Corn Gwlad; ac Ellen Ellis yn canu Cân y Cadeirio. Kelly Williams, Shophi Jones, Linzie Whitmore a Rachel Peters oedd y cyrchwyr a chyfarchwyd y llenorion buddugol gan Huw ac Elen Ffoulkes. Mae'r pwyllgor yn dymuno diolch i brifathro ac athrawon yr ysgol gynradd ac i Mrs Nona Breese o Ysgol Brynrefail am bob cydweithrediad gyda'r gwaith llenyddol.

CERDD. Meithrin: 1, Gerallt; 2, Elin Owen; 3, Gruffydd John a Manon. Bl. 0: 1, Catrin; 2, Sian; 3, Gwilym. 1-2: 1, Cai; 2, Aled a Ceri; 3, Ella ac Elliw. 3-4: 1, Ceri; 2, Sion Ffoulkes a Berwyn; 3, Aled Gwilym. 5-6: 1, Huw; 2, Gwenan; 3, Ellen a Manon. Parti 1, 2 a 3: 1, Traed Bran; 2, Parti Ian; 3, Parti Sion Elwyn. Parti 4, 5 a 6: 1, Y Planedau; 2, Y Bydysawd. Piano 1, 2 a 3: cyd 1, Marged ac Aled. 4, 5 a 6: 1, Huw; 2, Manon; 3, Heulwen ac Ellen. Offerynnol: 1, Rhys; 2, Huw; 3, Gwion. Alaw Werin: Huw Foulkes. Bl. 7, 8 a 9: 1, Lois; 2, Gwen a Gwenno; 3, Ffion. 10-13: Caryl. Piano 7, 8 a 9: 1, Cadi; 2, Gwen; 3, Ffion. 10-13: 1, Caryl; 2, Ifan; 3, Rhian. Offeryn: 1, Dewi; 2, Lois; 3, Gwenno. Ffion Meleri. Alaw Werin: 1, Lois; 2, Caryl; 3, Geraldine a Ffion. Deuawd: 1, Ffion ac Anest. Meimio: Huw a'i griw. Grŵp Offerynnol: 1, Iolo ac Owain; 2, Nia a Sarah. Parti: Parti Pump.

LLEFARU. Meithrin: 1, Gerallt; 2, Aled; 3, Elin. Bl. 0: 1, Dyfan; 2, Gwilym; 3, Greta, Sian, Elena. Bl. 1 a 2: 1, Ceri; 2, Elliw; 3, Aled. 3 a 4: 1, Aled Gwilym; 2, Ceri a Leah; 3, Dewi Alun. 5 a 6: 1, Huw; 2, Manon; 3, Ffion. Parti 1, 2 a 3: 1, Ferraris; 2, Sion Elwyn; 3, Ian. 4, 5 a 6: 1, Teletubbies Bethel. Ymgom: 1, Pysgod Drewllyd; 2, Tydi pethau ddim yn deg yn tŷ ni. 7, 8 a 9: 1, Lois; cyd 2, Geraldine a Ffion. Ymgom: 1, Ffion a Gwen; 2, Ffion owen a Lois. Parti: 1, Rebels. Darllen darn: 1, Caryl; 2, Rhian; 3, Cadi. Sgets: 1, Pupur a Halen; cyd 2: Y Tramp a'r Monty Pythons. Tlysau — Cerdd: Ceri Griffiths; Offerynnol: Huw Ffoulkes; Llefaru: Aled Gwilym. Cerdd: Lois Wyn Hughes; Offeryn: Dewi Griffiths; Llefaru: Lois Wyn Hughes.

LLENYDDIAETH. Bl. 1: 1, Sion; 2, Enfys, Charlotte, Elen; 3, Gari, Aled, Robin, Mari Elena, Chris. Bl. 2: 1, Marged Rhys; 2, Elan Jones; 3, Hanna Gwyn; 4, Lowri Elena ac Iona Speake; 5, Hannah Jones a Manon Morgan. Bl. 3: 1, Sion Ffoulkes; 2, Aled Gwilym ac Ian Morris Jones; 3, Gwenllian Hughes, Ceri a Kelly Cavanagh. Bl. 4: 1, Heulwen Ostler; 2, Berwyn Jones ac Elan Rhys; 3, Ifan Bryn, Iola Jones a Claire Williams. Bl. 5: 1, Sion Llyr Roberts; 2, Manon Williams; 3, Olwen Davies a Sarah Sturrock. Bl. 6: 1, Samuel Hughes; 2, Rhian Jones; 3, Ellen Ffoulkes a Meinir Hughes. Bl. 7, 8 a 9: Owain Sion Williams; 2, Ffion Williams; 3, Lois W. Hughes; 4, Ffion Owen ac Enlli Haf Huws. 10-13: 1, Anest Williams; 2, Bethan Williams a Caryl Owen. Brawddeg: Goronwy Jones.

Heulwen Ostler ac Anest Williams, Prif Lenorion yr eisteddfod.

Rhoddwyd y tlysau yn adrannau cerdd, llên a llefaru gan deulu Llwyn Eithin, Brian ac Eirlys Sharpe, Gwilym ac Eirlys Williams, Gareth a Rhian Hughes, David a Margaret Williams, William a Nora Parry, Gethin a Guto Sion, Caernarfon a Collwyn a Rita Williams.

Mae'r pwyllgor, dan gadeiryddiaeth David Williams, Llanddwyn; Rita Dauncey Williams yr ysgrifenyddes a Rhys Harris y trysorydd, yn ddiolchgar i bawb a gyfrannodd ymhob ffordd tuag at lwyddiant yr eisteddfod. Cafwyd nawdd, rhoddion a gwobrau raffl gan Gyngor Cymuned Llanddeinolen, Cig Bethel, Swyddfa'r Post, Siop Treflyn, Garej Beran, Y Bedol, Ceir cymru, aelodau'r pwyllgor a chyfeillion yr eisteddfod.

Diolch hefyd am y lluniaeth a baratowyd gan Mir Jones, Cilan; Nora Parry, Eirlys Sharpe ac Eirlys Williams. I Gethin Evans am y sustem sain a Morgan Griffith am baratoi'r rhaglenni. Diolch arbennig i blant a ieuenctid y pentref am gefnogi'r eisteddfod ac i'r rhai ymhob adran fu'n eu hyfforddi.

Lois Wyn Hughes, enillydd Tlysau Cerdd a Llefaru; a Dewi Griffiths, enillydd y Tlws Offerynnol.

FY FFRIND GORAU

gan HEULWEN OSTLER

Enillydd Tlws yr Ifanc (Cynradd)

Enw fy ffrind gorau yw Rebecca Williams ac mae'n byw yn Nhreforys. Mae fy ffrind gorau yn mynd i Ysgol Gymraeg Lôn Las ac mae'n 8 oed.

Enw byr fy ffrind gorau yw Beccy. Mae ganddi hi wallt brown fel boncyff coeden, llygaid glas a chroen golau fel papur ac mae'n fy atgoffa i o fy ffrindiau da eraill. Byddaf bob amser yn ffrindiau hefo hi a byth yn ei anghofio. Dwi'n cofio mynd mewn canŵ gyda hi ond disgynais i mewn i'r afon!

Mae fy ffrind gorau yn dal ac yn denau ac yn ddigri ac mae'n codi fy nghalon pan fyddaf yn drist. Mae ganddi wên ar ei hwyneb bob amser ac mae'n ddel fel tywysoges.

Beccy oedd fy ffrind cyntaf ysgol a dyna sut mae'n ffrind gorau i mi. Mae ganddi chwaer o'r enw Nicola a mam o'r enw Caroline, a brawd o'r enw Stewart ac mae ei thad wedi marw.

Pedair blynedd yn ôl symudais o Abertawe i Bethel a doeddwn i ddim eisiau symud tŷ oherwydd doeddwn i ddim eisiau colli fy ffrindiau, roeddwn yn teimlo'n drist iawn. Pan fyddaf yn chwarae gyda fy ffrindiau mae'n teimlo'n rhyfedd hebddi.

PERTHYN

gan ANEST WILLIAMS

Enillydd Tlws yr Ifanc (Uwchradd)

Twriodd Rhisiart o dan y cwrlid a cheisiodd anwybyddu sain aflafar y cloc larwm. Daeth llais ei fam o rywle i'w atgoffa ei bod yn amser iddo godi. Ni chymrodd unrhyw sylw ohono. Toc, ymddangosodd pen ei fam heibio'r drws.

'Rhisiart Wyn, mae'n amser codi, cariad. Mae Mami angen mynd i'r dref yn gynnar heddiw.'

O noddfa'i wely, tynnodd Rhisiart ystumiau cyn tynnu ei hun allan o gynhesrwydd y gwely a llusgo'i gorff i'r ystafell ymolchi.

Doedd o ddim eisiau mynd i'r ysgol — roedd y wers ymarfer corff heddiw a byddai Jason a'i griw yn siŵr o wneud hwyl am ei ben wrth iddo newid. Meddyliodd am ddweud wrth ei fam fod ganddo boen yn ei fol ond nid oedd yn un da am ddweud celwyddau a byddai ei fam yn mynd ag ef at y doctor fel y gwnaeth y tro diwethaf. Roedd hwnnw wedi rhoi archwiliad iddo ac wedi rhoi diagnosis o 'ysgolitis' i'w fam ac awgrymu iddi i roi pryd o dafod iddo i'w wella. Ar ôl iddynt gyrraedd adref roedd ei fam wedi cwyno wrth ei dad am 'ansensitifrwydd y meddyg newydd yna' a'r 'ffordd mae'n trin plant'. Teimlai'n euog yn awr wrth feddwl am y digwyddiad.

Nid oedd ganddo fawr o chwant am y bacwn a'r ŵy yr oedd ei fam wedi ei baratoi ar ei gyfer ond llwyddodd i'w fwyta. Byddai'n well ganddo fod wedi cael creision ŷd neu uwd, ond pan lwyddodd i gael ei fam i brynu 'Rice Krispies' iddo, ar ôl llawer o berswad, cafodd siom wrth ei gweld yn sefyll uwchben y badell ffrio y bore canlynol gan nad oedd y 'Rice Krispies', yn ei barn hi, yn ddigon i hogyn mawr fel fo oedd ar ei brifiant.

Ar ôl cael ei ddanfon i'r ysgol yng ngherbyd ei fam, aeth Rhisiart yn syth i mewn i'r adeilad ac i'w ystafell gofrestru. Er mawr syndod iddo, ni alwodd Jason ef yn 'll'gada pot jam' na 'carrots' ond dywedodd 'Helô' wrtho. Tynnodd ei hun yn uwch yn ei gadair a gwenu arno wrth ei gyfarch yn ôl. Pan ganodd y gloch am naw, brysiodd i'r wers gyntaf — mathemateg, un o'i hoff bynciau.

Tra roedd yn tynnu'i lyfr allan o'i fag canfyddodd fod Jason wedi eistedd wrth ei ochr ac wrthi'n tynnu'i siaced ledr.

'O'n i'n meddwl y byswn i'n istadd wrth ymyl chdi heddiw,' esboniodd. 'Nath fi a Shane ffeitio ddoe.'

Ni allai Rhisiart feddwl am ddim i'w ddweud. Pam oedd Jason wedi dewis dod i eistedd ato fo, yn hytrach nag un o'r hogia eraill, neu un arall o aelodau'i gang? Nid oedd Rhisiart erioed wedi bod yn un o'r criw poblogaidd yn yr ysgol gynradd, y rhai a oedd o hyd yn cael chwarae yn nhîm pêl-droed a rygbi'r ysgol, a fo oedd un o'r rhai olaf i gael ei ddewis pan oedd pawb yn dewis timau — wel, fo neu Tegid John. Yn yr ysgol gynradd, daeth ef a Rhisiart yn ffrindiau pennaf a threuliodd y ddau eu holl amser rhydd yng nghmwni ei gilydd hyd at yr haf diwethaf pan fu'n rhaid i Tegid adael yr ardal gan fod ei dad, a oedd yn rheolwr banc, yn symud efo'r cwmni.

Cyhoeddodd yr athro fod prawf tablau i fod heddiw ar ddiwedd y wers ac os byddai unrhyw un yn cael llai na phymtheg allan o ugain, byddai'n rhaid iddynt aros i mewn bob amser cinio am yr wythnos. Gwelwodd wyneb Jason ychydig wrth glywed hyn a diolchodd Rhisiart Wyn ei fod wedi mynd dros y gwaith efo'i fam neithiwr. Roedd cyfarfod y clwb gwyddbwyll amser cinio ddydd Mercher ac edrychai ymlaen at gael dysgu mwy o symudiadau newydd. Sylwodd fod Jason yn edrych arno'n betrus gan gnoi pen ei feiro a chynheuodd gwreichionen o amheuaeth yn ei feddwl. Ai dyna pam roedd Jason wedi eistedd wrth ei ymyl heddiw, neu oedd o wedi ffraeo efo Shane, fel yr oedd yn ei honni? Cymrodd gipolwg ar Shane dros ei ysgwydd a gwelodd ef yn rhythu'n filain ar gefn Jason. Penderfynodd ei fod yn dweud y gwir wedi'r cyfan.

Tra roedd yr athro'n marcio'r profion a'r dosbarth yn gwneud ymarferion o'r gwerslyfr mathemateg yn ddiawydd, ochneidiodd Jason a throi at Rhisiart.

'Dwi 'di anghofio sandwiches fi adra. 'Sgen ti ddim punt fedra' i gael menthyg i nôl rôl o'r caff, nag oes?'

'Dim ond digon i gael cinio sydd gen i, sori,' ymddiheurodd Rhisiart. Yna cofiodd am y pecyn bwyd a fyddai ei fam yn ei baratoi iddo bob dydd, gyda brechdan ham a darn bach o gacen ynddo, a fyddai fel arfer yn diweddu yn un o'r buniau sbwriel o gwmpas yr ysgol.

'Mae gen i becyn bwyd fedri di ei gael. Mi fydda' i yn ei gael o gan Mam i'w fwyta amser chwarae, ond dydw i dim ei isio fo go-iawn. Mae Mam yn mynnu fy mod i'n ei gymryd o i'r ysgol bob dydd a fuasa' hi ddim yn gwrando arna' i pe bawn i'n dweud wrthi hi beth bynnag.'

'Diolch, carrots. Ti'n rêl mêt.'

Teimlodd Rhisiart ei hun yn poethi wrth iddo dderbyn y clod a gafodd gan Jason. Clywai eco o'i lais yn ei ben drosodd a throsodd. Efallai yr hoffai Jason iddo fod yn gwmni iddo amser cinio neu y medrai'r ddau chwarae pêl-droed ar ben eu hunain. Ac, efallai, y medrai Jason ddod draw i'w dŷ ef i gael te ar ôl ysgol. Llanwodd pen Rhisiart Wyn gyda gweledigaethau ohono'i hun a Jason yn gwneud gweithgareddau lu cyn iddo gael ei ddeffro o'i swyngwsg gan lais yr athro.

'Marciau llawn unwaith eto, Rhisiart Wyn. Wel, mi wyt ti hefyd wedi dysgu dy waith yr wythnos yma, Jason. Pedair ar bymtheg allan o ugain. Wyt ti'n gweld pa mor dda y medri di wneud os wyt ti'n gwneud ychydig o ymdrech?'

'Rhoddodd Jason hanner gwên iddo'n ddiolch. Trodd at Rhisiart a chan edrych ar ei llawedd i ryddid amser cinio dywedodd,

'Fydd mam fi'n hapus. Dim ond naw ges i w'snos dwytha'. Ga' i fynd allan i'r pictiwrs efo fy mêts i nos Sadwrn rŵan.'

Treuliodd Rhisiart weddill y bore mewn breuddwyd. Cafodd y fraint o fod yn bartner i Jason yn y wers lafar Saesneg ac ef oedd y cyntaf a ddewisodd Jason i fod yn ei dîm pêl-droed. Roedd fel pe bai yn berson

Rhai o gystadleuwyr ieuengaf yr eisteddfod.

newydd wrth iddo deimlo ei fod yn hoelio sylw pawb o'i gwmpas a chafodd ei ganmol gan yr athro ymarfer corff am ei ymdrech a'i farcio da. Aeth i'r ystafelloedd newid yn llawn hyder ac yn teimlo ei fod wedi cymryd rhan yn y gêm ac wedi cael boddhad o chwarae, fel petai'n perthyn o'r diwedd.

Cyn iddo fynd i gysgu'r noson honno, aeth meddwl Rhisiart dros digwyddiadau'r dydd. Ar adegau, câi drafferth i gredu nad breuddwyd oedd y cyfan ac y byddai'n deffro cyn hir a chanfod mai bore dydd Llun oedd hi. Roedd wedi teimlo ei fod ar du allan y cylch cymdeithasol yn yr ysgol ar hyd ei oes. Nid oedd wedi arfer cael cyn gymaint o sylw. Yn aelod o'r gang, teimlai'n gryf, hyderus a phoblogaidd. Hoeliai sylw pawb a theimlai fel magned yng nghanol siafins haearn. Heb ei ffrindiau newydd, roedd yn ddiflas ac yn ddi-asgwrn-cefn.

Fore trannoeth, bu bron i fam Rhisiart gael ffit binc pan aeth i ddeffro'i mab. Gwelodd ef yn cribo'i wallt ar ôl iddo godi, ymolchi a gwisgo. A oedd ei mab wedi cael tröedigaeth? Fel arfer roedd hi'n amhosib i'w gael i symud o'i wely. Lleddfwyd ar y distawrwydd gan ei lais.

'Dwi am ymarfer y ffidil cyn mynd i'r ysgol, Mam.'

Bwytaodd Rhisiart ei frecwast yn awchus a thra roedd yn bwyta penderfynodd y byddai'n gofyn a gâi fynd ar y bws yn lle cael ei ddanfon i'r ysgol. Edrychodd ei fam yn hurt arno.

'Ond i beth sydd arnat ti eisiau mynd ar yr hen fws yna pan gei di lifft i'r ysgol heb orfod cerdded yr holl ffordd i'r lôn fawr bob dydd?' holodd.

'Mae pawb arall yn cael mynd ar y bws — fy ffrindiau i a'r hogia eraill i gyd.'

'Fydd dy ffidil di'n iawn efo'r ffordd y mae'r bws yna'n cael ei yrru? A beth os bydd yna blant bach drwg yn trio ei thorri?'

'Mi fydda' i'n iawn. Mae fy ffrindiau newydd i'n mynd ar y bws.'

'Pwy ydi'r ffrindiau newydd yma, Rhisiart? Mi fydd yn rhaid i ti eu gwahodd nhw draw i gael te i mi gael eu cyfarfod nhw.'

'Hogia eraill o'r ysgol. Mi wna i ofyn iddyn nhw heddiw.'

Erbyun hanner awr wedi wyth roedd Rhisiart yn sefyll yng nghwmni Jason, Shane, Rick a Kevin yn disgwyl i'r bws gyrraedd. Grwgnachodd Shane, 'Be mae o yn 'i 'neud 'ma?'

Atgoffwyd ef gan Jason.

'Mae o'n un o'r gang rŵan, yn tydi? Ma' Carrots yn hen foi iawn.'

Aeth wyneb Rhisiart yn lliw go debyg i liw ei wallt wrth glywed y fath glod. Cafodd y bechgyn eu synnu gan ei wybodaeth eang am bêl-droed a chyfrifiaduron ar y ffordd i'r ysgol. Ym marn Shane a Rick roedd ei fag Nike yn 'cŵl' a chredai Kevin fod ei 'Game Boy' yn 'wicked'.

Mentrodd Rhisiart allan i'r dre yn ystod amser cinio am y tro cyntaf er y gwyddai ei bod yn erbyn y rheolau. Ar y dechrau teimlai'n ofnus ond cafodd ei sicrhau gan y criw na fyddai neb yn ei weld a fod 'pawb yn mynd eniwê'. Mwynhaodd y bag o sglodion a brynodd gyda'i arian cinio a gwelodd lawer o rai eraill a oedd yn ei ddosbarth tra roedd o'n cerdded o amgylch canol y dref.

Estynnodd wahoddiad i'r gang ddod draw i gael te drannoeth ac fe'i derbyniwyd gan y pedwar aelod arall. nid oedd Shane, Rick a Kevin yn rhy sicr ar y cychwyn ond ar ôl cael gwybod am y bêl ledr a gafodd ar ei ben-blwydd a'r 'Play Station' a oedd yn ei lofft, roeddynt yn fwy na pharod i ddod.

Rhuthrodd Rhisiart adref o'r ysgol y noson honno i gael dweud wrth ei fam fod ei ffrindiau newydd yn bwriadu dod i'w gartref nos Fercher. Roedd ei fam uwchben ei digon a dywedodd y byddai'n gwneud rhywbeth arbennig iddynt yfory.

Ailadroddodd eiriau ei fam wrth weddill y criw yn yr ysgol fore trannoeth ac roeddynt hwythau hefyd yn edrych ymlaen i gael te ond siom iddynt i gyd oedd gweld mai brechdanau tiwna a ciwcymbyr efo'r crystiau wedi eu torri i ffwrdd a oedd mam Rhisiart wedi ei baratoi iddynt. Treiffl 'Birds' a gawsant i bwdin.

Teimlai Rhisiart gywilydd fod ei fam wedi darparu'r fath fwyd iddynt. Roedd pawb yn gwybod mai bwyd te parti a fyddech yn ddisgwyl ei gael pan oeddech chi tua chwech oed oedd rhywbeth fel yna. Pam na fyddai wedi gwneud pryd poeth safonol — pizza a sglodion, fel y byddai mam unrhyw un arall wedi'i wneud? Beth fyddai'r hogiau'n feddwl wrth weld fod ei fam wedi gwneud y bwyd babiaidd yma? Gobeithiai na fyddent yn penderfynu

(Parhad ar dudalen VIII)

CANLYNIADAU EISTEDDFOD LLANRUG

Delyth Humphreys, enillydd y Gadair a Siôn Emyr Wynne, enillydd Tlws yr Ifanc gyda phlant y ddawns flodau.

CERDDORIAETH. Unawd cyn oedran ysgol: 1, Owain; 2, Dafydd a Jamie; 3, Gwenno. Dosbarth derbyn: 1, Alys; 2, Debbie; 3, Gwion. Bl. 1 a 2: 1, Beverley (enillydd Cadair Lowri); 2, Lois; 3, Ceri Wyn. Bl. 3 a 4: 1, Elin; 2, Llinos; 3, Gwenno. Bl. 5 a 6: 1, Natalie; 2, Debbie; 3, Lyndsey. Bl. 7-11: 1, Michelle. Unawd cerdd dant Bl. 7-11: 1, Michelle. Unawd Bl. 12 a throsodd: 1, Bethan. Unawd Werin: 1, Debbie. Unawd piano Bl. 3 a 4: 1, Mari. Unawd unrhyw offeryn pres i oedran cynradd: 1, Guto. Unawd piano Bl. 5 a 6: 1, Natalie; 2, Laura 3, Mark a Ceri. Unawd ar unrhyw offeryn heblaw pres a phiano, oedran cynradd: 1, Guto a Llinos. Unawd piano Bl. 7-11: 1, Sian a Michelle; 2, Rhian. Parti unsain, cynradd: 1, Parti Popeye; 2, Parti Natalie; 3, Parti'r Morwyr. Grŵp offerynnol: Blas o'r Wlad Werdd. Unawd ar unrhyw offeryn heblaw'r piano, Bl. 7-11: 1, Iwan; 2, Sion a Donna; 3, Geraint. Unawd ar unrhyw offeryn, Bl. 12 a throsodd: 1, Iona. Grŵp Gwerin: 1, Dynion y Fari Lwyd. Cyflwyniad cerddorol lleisiol: 1, Parti'r Merched a Pharti'r Dynion; 2, Delyth a Bethan.

LLAFAR. Cyn oedran ysgol: 1, Dafydd; 2, Owain; 3, Ifan a Tania. Dosbarth derbyn: 1, Alys; 2, Tracy; 3, Awen. Bl. 1 a 2: 1, Lois; 2, Declan; 3, Gerallt. Bl. 3 a 4: 1, Llinos; 2, Gwenllian; 3, Mari. Bl. 5 a 6: 1, Natalie; 2, Fflur; 3, Megan. Bl. 7-11: 1, Michelle. Siarad cyhoeddus Bl. 7-11: 1, Michelle. Cyflwyniad llafar digri, cynradd: 1, Y Parti 'Ffres'. Cyflwyniad llafar digri, Bl. 7-11: 1, Mynd ä'r Ci am Dro; 2, Y Postman; 3, Y Tractor. Parti llefaru, cynradd: 1, Parti Susanne.

DAWNS. Dawns Werin, cynradd: 1, Dawnswyr Disgwylfa; 2, Parti'r Dwsin Del. Dawns fodern Bl. 7-11: 1, Beth a Mel.

GWNÏO. Bl. 1 a 2: 1, Mari Pleming. Bl. 3 a 4: 1, Fiona Pitts; 2, Jennifer C. Jones; 3, Gwenllian Angharad Williams. Bl. 5 a 6: 1, Ffion Haf Jones; 2, Daniel jones; 3, Iwan Machno. Bl. 7 ac 8: 1, Llio Angharad Hughes. Agored: Bethanne Williams.

GWAU neu GROSIO. Ysgol gynradd: cyd 1, Marc a Fiona Pitts. Agored: 1, Beryl Thomas; 2, Yvonne Pitts; 3, Glynis Roberts.

COGINIO. Bl. 1 a 2: 1, Declan Jones; 2, Rhys M. Jones; 3, Alex Lynes. Bl. 3 a 4: 1, Stacey Wynne; 2, Lowri Ann Hughes Jones a Fiona Pitts; 3, Mari Deiniol ac Aled Rhys. Bl. 5 a 6: 1, Mark Pitts; 2, Ceri Roberts a Rhys Roberts; 3, Ffion Haf Jones. Bl. 7 ac 8: 1, Rhian Angharad Jones; 2, Gemma Jones a Siôn Emyr; 3, Sioned Wyn Jones. Bl. 9 a 10: 1, Ffion Jones. Agored — merched: 1, Lynda Wavell; 2, Yvonne Pitts; 3, Dawn Jones. Agored — dynion: 1, Wavell Roberts; 2, Rolant Wynne; 3, Malcolm Pitts. Agored — jam: 1, 2 a 3: Bethanne Williams. Agored — chutney: 1, Daniel Jones. Agored — gwin coch: 1 a 2: Bethanne Williams.

GOSOD BLODAU. Agored: 1, Pat Thomas; 2, Susan Thomas.

TRI DIMENSIWN. Cyn oedran ysgol a dosbarth derbyn: 1, Gwyn Lloyd Jones; 2, Gwion Dafydd Williams. Bl. 1 a 2: 1, Dafydd A. Jones; Bl. 3 a 4: 1, Llion Gethin; 2, Gwenno Catrin Jones; 3, Fiona Pitts. Bl. 5 a 6: 1, Ffion Haf Jones; 2, Meilyr Siôn Owen; 3, Laura Beard a Rhys Williams. Bl. 7 ac 8: 1, Dion S. Owen; 2, Iwan Williams; 3, Llio Angharad Hughes a Rhian Angharad Jones.

ARLUNIO. Dosbarth derbyn: 1, Gwion Dafydd Williams; 2, Awen Lyn Hughes. Bl. 1 a 2: 1, Beverley Hughes; 2, Osian Larsen; 3, Alex Lynes a Gerallt Roberts. Bl. 3 a 4: 1, Gwenno Catrin Jones; 2, Llion Gethin; 3, Llinos Catrin Roberts. Bl. 5 a 6: 1, Debbie Hughes (enillydd Cwpan Emma Barnard); 2, Ffion Jones a Fflur Angharad Griffith; 3, Natalie Elisha. Bl. 7 ac 8: 1, Dion Owen; 2, Siôn Rhys Jones; 3, Donna Griffiths. Bl. 9 a 10: 1, Siân Green.

FFOTOGRAFFIAETH. 1, Natalie Elisha; 2, Gwion Iwan; 3, Llio Angharad Hughes.

Y TWYNI TYWOD

gan SIÔN EMYR WYNNE

Enillydd Tlws yr Ifanc

Diwrnod braf ym mis Gorffennaf ydoedd a Llŷr wedi penderfynu cynnal ei barti ar y traeth. Ifan a Huw oedd ffrindiau pennaf Llŷr felly roeddent wedi cael gwahoddiad i dreulio'r dydd gyda Llŷr a'i dad ar draeth o'r enw Traeth y Mynydd.

Traeth yn llawn o dwyni tywod ydoedd, tywod yn ymestyn am filltiroedd fel yr anialwch. ym Mae Ceredigion yr oedd y traeth, felly os fyddent yn cychwyn am un ar ddeg o'r gloch fe fuasent yn cyrraedd yno tua deuddeg o'r gloch. Felly, allan o'r car a bwyta'u brechdanau, yn barod am hwyl. A dyna a wnaethant. Roedd siarad di-ddiwedd ar y ffordd yno — sôn am bêl-droed, nofio a chriced — rhywbeth i basio'r amser, ond yn y diwedd fe setlo nhw lawr gyda'r drafodaeth be oeddent am chwarae ar y traeth.

'Nefi bliw, dwi wedi anghofio'r offer chwarae.'

'O, Dad,' meddai Llŷr gan ochneidio.

'Wel, mae'n rhy bell i droi nôl rŵan, hogiau.'

'Iawn,' atebodd yr hogiau yn unsain.

Wedi cyrraedd y traeth roedd yr hogiau allan fel mellten ac erbyn i Dad gloi y car roedd yr hogiau wedi cyrraedd y traeth, wedi dechrau tynnu amdanynt ac yn rhedeg am y dŵr. Gwaeddodd Dad:

'Dewch i gael eich cinio gyntaf.'

'O, Dad!'

'Dewch rŵan hogia, fe fydd yn well mynd i nofio â bol llawn na gwag.'

'O'r gorau.'

Rhedodd yr hogiau i fyny at y twyni tywod lle roedd eu tad yn disgwyl amdanynt. Wedi gosod y blanced, setlo'n nhw i lawr i gael cinio blasus. Ar ôl hynny roedd rhaid iddynt adael i'r bwyd setlo. Roedd yr hogiau yn disgwyl am y foment i gael rhedeg fel bwled a tharo'r dŵr ar gyflymder aruthrol.

'Ffwrdd â chi, fechgyn.'

'Cynta yna,' meddai Llŷr.

'Di hynna ddim yn deg. Fe gychwynnais ti o fy mlaen i.'

'Paid â mwydro.'

Cyrhaeddodd yr hogiau'r dŵr, ond o! am oerfel. Bu bron iddynt redeg yn ôl allan wedi rhewi, ond wedyn fe gynhesodd eu cyrff i'r tymheredd. Ar ôl nofio ychydig roeddent wedi diflasu oherwydd nid oedd ganddynt bêl i chwarae. Roeddent wedi anghofio'r offer chwarae adref felly aeth y tri i gyfeiriad eu tad, oedd erbyn hyn wedi syrthio i gysgu.

'Ssh!' meddai Llŷr.

'Beth am fynd i dop y twyni tywod a llithro.'

'Syniad gwych,' atebodd Ifan.

'Dewch 'ta hogia,' atebodd Huw.

Ar dop y twyni roeddent yn herio ei gilydd i fynd lawr y tywyn.

'Am mai chdi awgrymodd, dwi'n meddwl mai chdi ddylai ei drio gyntaf,' gwirfoddolodd Ifan.

'Â i gyntaf,' atebodd Ifan.

Ond pan aeth Ifan i lawr ni welodd ei ffrindiau ef yn cyrraedd y gwaelod.

'Ifan, tud 'laen, mae'r jôc drosodd.'

Ni atebodd.

'Llŷr, Llŷr, dos i ddweud wrth dy dad fod Ifan wedi mynd ar goll yn y tywod.'

Rhedodd Llŷr i lawr i ddeffro ei dad.

'Be sy'n bod 'ngwas i?'

'Ma . . . ma . . . ma . . . ma Ifan wedi mynd dan wyneb y twyni tywod.'

'Be!'

'O dan y tywod!'

'Llŷr, dos i ffonio gwyliwr y glannau.'

'Iawn, Dad.'

Brasgamodd Llŷr tuag at y top a'i wynt yn ei ddwrn i gyrraedd y blwch ffonio. Roedd ei lais yn ofnus a'i gorff yn ysgwyd fel jeli. Cyrhaeddodd dau o wylwyr y glannau yn eu car pedwar wrth bedwar.

'Ble mae'r claf?'

'Yn y twyni tywod yna!'

Fe gychwynnodd y timau achub i chwilio'r twyni am gorff Ifan. Gwelodd un o'r dynion law yn sefyll allan.

'Llaw! Llaw!' gwaeddodd y gwyliwr. Rhuthrodd pawb yno. Roedd wyneb Ifan yn wyn fel y galchen a'i gorff mor llonydd â broc môr wedi'i dynnu yn y tywod. Defnyddiodd y gwyliwr ei fobail ffôn a chysylltu gyda'r gwasanaethau brys. Ac nawr roedd Llŷr a Huw wedi dechrau gruddfan.

Daeth yr ambiwlans ymhen hir a hywr a llwythwyd Ifan iddo. Roedd wynebau'r hogiau yn drist pan ruthrodd yr ambiwlans tuag at y gorwel a'r sŵn yn atsain yn y cefndir. Sbort oedd y cyfan i fod, ond roedd chwarae wedi troi'n chwerw.

Enillydd Cadair yr Eisteddfod

DWYLO

gan Delyth Humphreys

'Dwy law yn erfyn sydd yn y darlun . . .' — gŵyr pawb beth sy'n dod nesaf, neu o leiaf dylai pawb sy'n byw yn Nyffryn Peris wybod geiriau anfarwol T. Rowland Hughes, sy'n aros yn y cof am dragwyddoldeb. Mae yna gysylltiad pendant rhwng y gerdd hon a'r darlun adnabyddus o ddwy law mewn ystum gweddi gan Albrecht Durer, a phan feddyliaf am ddwylo, y darlun hwn ddaw i'r meddwl yn syth.

Byth ers i mi droedio'r ddaear, mae dwylo, boed yn ddarluniau neu'n perthyn i bobl sy'n agos i mi yn rhan o wead yr atgofion sydd gen i am fy mhlentyndod, y casgliad amryliw o ddarnau bychain o ddefnyddiau, yn ffurfio un clytwaith gyda 'dwylo' fel nodwydd yn eu pwytho ynghyd.

Mae'n hynod sut mae dwylo person yn cydfynd â'i ryw — prin y down ar draws merch a maint ei dwylo yn fwy na rhai ei thad neu ei brawd. Penderfynodd natur ymhell yn ôl mai gan y ddynes y byddai dwylo bychain, gosgeiddig a'r dyn gyda rhai mawr, ond tyner. Er hynny, gallant fod yn hynod o greulon yn ogystal, yn gwneud i blentyn grynu bob tro y dônt yn agos iddo. Mae rhywbeth mawr o'i le os oes gan blentyn ofn ei dad ei hun. Y tristwch mwyaf yw fod hyn yn ffaith ym mywyd llawer o blant. Ni ddylai'r un plentyn fyw o dan fygythiad neb, yn enwedig ei riant. Yno i roi cariad a'u gofal mae rhieni, nid i gosbi'r plentyn am y drosedd leiaf. Pwrpas plentyndod yw ein cyflwyno yn raddol i'r byd y mae'n rhaid i bawb ei wynebu rhyw ddiwrnod, yn ogystal a'i fwynhau. I'r rhai anffodus, craith yw, sydd yn aros gyda hwy am weddill eu hoes. Os oes un annhegwch yn bodoli yn y byd, y ffaith fod plant yn dioddef oherwydd creulondeb oedolion yw hwnnw.

Yn ffodus, i'r mwyafrif ohonom, dim ond atgofion melys sydd gennym o'n plentyndod ac un o'm atgofion cynharaf yw cael fy nghario ym mreichiau fy nhad ar nifer o achlysuron. Ni chefais unwaith unrhyw amheuaeth y byddai ei ddwylo cryfion yn fy ngollwng. Am y cyfnod byr hwnnw pan oeddwn yn hollol ddibynnol ar fy rhieni, anghofiaf fyth y teimlad cysurus hwnnw o ddwylo fy nhad yn cynhesu fy rhai i trwy eu nythu yn ei rai ef. Yn ddi-os, y defnydd cynhesaf a'r cryfaf yn y clytwaith yw dwylo Dad.

Wedi'i bwytho'n agos at y defnydd hwn fyddai atgof teuluol arall — dwylo Nain. Credaf mai 'brethyn cartref' yw'r atgof hwn, y defnydd mwyaf cywrain, gyda manylder ac amser dynol wedi mynd i mewn iddo. Gellir dweud yr un peth am y bobl hynny sydd mor barod i roi eu hamser gwerthfawr i wella bywydau eraill, fel gwirfoddolwyr sy'n delio â phlant di-gartref ar y strydoedd neu yn cynorthwyo'r henoed.

Mae eraill yn ymestyn eu 'dwylo dros y môr', chwedl y gân enwog a gafodd ei chyfansoddi'n arbennig i gasglu arian i helpu'r Trydydd Byd. Rhain yw'r bobl sy'n rhoi gobaith ac sy'n rhoi ystyr i fywydau eraill ac nid yw'r un ohonynt yn disgwyl cael rhywbeth yn ôl. Nid wyf yn dweud fod fy nain yn gwneud newidiadau syfrdanol i fywydau eraill, ond ceisia wneud o fewn ei gallu. Mae Nain wastad wrthi yn gwneud ei chynhyrchion 'hôm-mêd', boed yn fara brith neu yn bâr o fenyg, yn barod i'w gwerthu mewn nosweithiau coffi dragwyddol, neu'n gyfrifol am y dillad ar gyfer Drama'r Geni yn y capel. Nid yw'n disgwyl cael unrhyw glod am ei hymdrech di-ddiwedd ac i mi mae ei chyfraniad yr un mor werthfawr a'r gwirfoddolwyr ar draws y wlad. 'Y pethau bychain a glywsoch ac a welsoch gennyf i' yw cyfraniad ei dwylo 'brethyn cartref' hi. Pa beth bynnag fo'r dasg bydd wrthi a'i deg ewin. Edmygaf ei dwylo medrus yn tylino toes yn ddi-drugaredd fel petai mewn gornest ymaflyd codwm; yn gwau mor rhwydd a chyflym nes fod y gweill yn clician fel petaent a'u bywyd eu hunain, heb anghofio nad oes neb fel Nain am roi 'massage' i gyhyrau blinedig. Yn bendant, 'brethyn cartref' y clytwaith yw hi — byddai unrhyw ddefnydd arall yn rhy synthetig.

Mae'n rhyfedd fel y daw person i gynefino â'i ffordd o fyw a chredu prin y byddai pethau'n newid, pan ddaw storm annisgwyl o rywle sy'n troi popeth ar ei ben i waered — genedigaeth fy chwaer oedd y daran yn y storm honno. Er mai ifanc oeddwn yn cael aelod newydd i'r teulu, glŷn yr atgof o gydio yn fy chwaer am y tro cyntaf yn fy meddwl fel stamp i amlen. Cefais fy synnu gan mor fychan oedd hi — roedd gan i ddoliau a oedd yn fwy na hi!

Cofiaf imi gynnig fy mys iddi gael chwarae ag o, a chydiodd ynddo mor dynn, fel y meddyliais na fyddwn yn ei gael yn ôl! Er mai bychan iawn oedd ei dwylo, roedd y nerth ynddynt yn anghredadwy. O ystyried, mae'n rhaid i ddwylo baban fod yn gryf er mwyn cynnal gweddill y corff pan mae'n ceisio cropian, neu i dderbyn y gwymp pan gymer ei gam cyntaf. Allan o unrhyw ddefnydd, 'sidan' yw'r un mwyaf gwerthfawr yn y clytwaith ac er ei fod yn hynbod o hyblyg a bregus, gorwedd cryfder o fewn ei ffibrau. Nid oes defnydd gwell i ddisgrifio dwylo baban.

Ond mae'n ddefnydd sensitif ac unrhyw farc yn annileadwy. Wrth edrych ar unrhyw faban, mae'n anodd credu y gall rhywun fod mor fwystfilaidd a chymryd ei fywyd. Pan wneir y weithred erchyll hon gan blant, mae'r sefyllfa'n afreal iawn. Gŵyr pawb sydd wedi bod yn darllen y papurau newydd a gwylio'r teledu yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf, fy mod yn siarad am lofruddiaeth James Bulger. Mae tystiolaeth ar gamera-fideo yn dangos un bachgen yn gafael yn llaw y plentyn bychan ac yn ei arwain i'w dynged. Y tu ôl i'r dwylo a ymddangosai'n ddiniwed ar y pryd, roedd bwriad dieflig, ond pwy oedd â lle i amau dwylo plentyn? Yr unig gysur yw mai eithriad oedd y digwyddiad hunllefus yma, ond roedd yn un digwyddiad yn ormod.

Credaf mai prif bwrpas y 'teclynnau' sydd ar waelod ein garddynau yw i fynegi ein teimladau i eraill. Maent yno i anwesu i gysuro a chofleidio. Pan mae dau berson eisiau dangos i weddill y byd faint maent yn ei olygu i'w gilydd, cydio dwylo yw'r ffordd mwyaf naturiol o wneud hynny.

Anghofiaf fyth yr adeg pan gerddais i a hogyn 'tal, tywyll a golygus' o gwmpas yr ysgol, law yn llaw, gan anwybyddu sylwadau fy nghyd-ddisgyblion. Er mai ond chwe mlwydd oed oeddwn i ar y pryd, roeddwn i'n benderfynol o ddangos i'r genethod erail mai 'fi bia fo'. Mynd law yn llaw oedd y drwydded a brofai hynny.

Does fawr ddim yn newid ar ôl tyfu'n oedolyn chwaith. Mae gweld cwpwl yn cerdded i lawr y stryd law yn llaw yn rhywbeth digon cyffredin, felly wedi meddwl, mae dwylo yn un o rannau mwyaf nwydus y corff. O ran defnydd, byddai'n rhaid iddo fod yn 'chiffon' priodasol, defnydd moethus sy'n para am oes ac sydd hyd yn oed yn rhywiol!

Does dim dwywaith fod rhai wedi cael eu geni â doniau arbennig, ac os ydynt ag unrhyw synnwyr byddant yn gwneud yn fawr o'r ddawn honno.

Ni all pawb fod yn llawfeddyg, er enghraifft. Mae'n swydd sy'n bell o gyrraedd y mwyafrif ohonom ac mae angen mwy na dim ond 'brêns' i lwyddo ynddi. Wedi'r cwbl, mae bywydau pobl yn fantol a phe bai dwylo'r llawfeddyg yn gwneud y symudiad lleiaf allan o'i le, byddai'n ddigon i ladd y claf. Yn aml cânt eu cyhuddo o geisio chwarae rôl 'Duw' ac yn bersonol credaf nad ydynt ymhell o hynny. Pwy bynnag sydd â dwylo llawfeddyg, maent â'r dwylo hynny ers dydd eu geni.

Rhai eraill sydd â dawn yn eu dwylo yw pianyddion proffesiynol ac er nad oedd fy athrawes piano yn un o'r rhain, roedd ganddi hithau ddawn arbennig ar gyfer chwarae'r piano.

Pan oeddwn yn chwech oed, penderfynodd fy mam fy mod i'n ddigon hen i dderbyn gwersi piano. Nid oedd gen i fawr o ddewis yn y mater a'r noson cyn y wers gyntaf dychmygwn fod gan yr athrawes o leiaf ddau ben a breichiau ymhobman — roedd gen i feddwl hynod o fywiog pan oeddwn yn blentyn! I dorri stori hir yn fyr, roedd fy athrawes yn ddynes tu hwnt o garedig, ond yr hyn a gofiaf fwyaf amdani yw ei dwylo ystwyth a gosgeiddig yn dawnsio pan chwaraeai'r piano. Buaswn wedi gwneud unrhyw beth i gael chwarae'r piano gystal, ond tueddu i 'faglu' wnâi fy mysedd i, yn hytrach na 'dawnsio' ar y nodau, er gwaetha'r ffaith fy mod i'n athrawes biano fy hunan bellach! Rwyf yn diolch i Mam, wedi'r cwbl, am gydio yn fy llaw a'm harwain i'r wers biano gyntaf honno.

Yn sicr roedd dawn fy athrawes yn ei dwylo a diolch iddynt hwy, roedd yn feistres ar ei chrefft. Roedd ei dwylo yr un mor sensitif â rhai llawfeddyg ac yn union fel llawfeddyg defnyddiai ei dwylo i gynnig hapusrwydd i fywydau eraill, pan wrandawent arni yn perfformio. Hi fyddai 'melfed' y clytwaith, oherwydd ei llyfnder ac ansawdd gyfoethog y teimlad fel y gerddoriaeth a glywid pan chwaraeai hi'r piano.

Yn bennaf oll, rhaid sôn am y dwylo — dwylo anwyliaid sydd wedi fy nghynnal yn ystod fy ieuenctid; y dwylo sy'n symbol o'm magwraeth grefyddol, ddiwylliedig — y dwylo Cymreig. Brethyn unigryw i'w gael yng Nghymru'n unig, yn unlle arall yn y byd. Cymaint oedd dylanwad y dwylo yma arnaf ac rwy'n dal i ddibynnu arnynt i'm cynnal heddiw. Yn y dyfodol, fy nwylo i fydd yn gwneud y 'cynnal' a chyfrifoldeb fy nwylo i hefyd fydd trosglwyddo'r etifeddiaeth a dderbyniais i'm plant.

Mae'n syndod mor hawdd yw cymryd y 'teclynnau' ar waelod ein garddynau mor ganiataol a chario ymlaen i'w defnyddio pob dydd heb feddwl ddwywaith. Mae dwylo pob person ar wyneb daear yn wahanol ac yn arbennig. Maent i gyd â dawn arbennig sy'n perthyn i'r person ac ond i'r unigolyn yna ei ddarganfod, bydd ganddo glytwaith drudfawr.

EISTEDDFOD YSGOL BRYNREFAIL

Enillydd Tlws y Llenor Ifanc

Y TRO CYNTAF gan Owain Siôn Williams

'Mam, mae Ceri wedi dwyn fy nghap i!' meddai Iwan.

'O, tyfa i fyny wnei di, a Ceri, rwyt ti i fod yn bymtheg oed ond ti'n actio fel maint dy draed — pedwar!' meddai Mam. 'Rho'r cap yn ôl i Iwan wnei di!'

Roedd Mam yn dechrau colli'i limpyn, doedd ganddi hi ddim ond awr a hanner i baratoi nes roedd y bws yn cyrraedd.

Aeth yr amser fel mellten ac yn y cyfamser y cyrhaeddod Nain. Ei bag trafaelio brown o'r pumdegau ac yn gwisgo 'Bermuda shorts' pin a melyn llachar, crys o'r Caribî, sbectol haul, a'r cap a enillodd ar 'Jacpot'.

Neidiodd pawb i mewn i'r bws las, a chychwyn ar y daith hir — hir i Nain beth bynnag, ond dim ond dwyawr oedd hi — i faes awyr Manceinion.

Cyrhaeddodd y 'giang' yn union fel 'country bumpkins, come to town.'

Dadlwythwyd y bws gan roi'r tri cês a'r bag trafaelio brown o'r pumdegau ar y troli a cherdded i mewn i'r adeilad a'u llygaid fel rhai llo bach yn edrych ym mhobman ac ymhob lle, yn union fel tasai plentyn yn mynd i'r ysgol am y tro cyntaf.

Ar ôl gwneud pob dim roedd y llawlyfr yn ddweud wrthyn i'w wneud, dechreuodd y swnian. Ond nid y plant oedd yn swnian y tro hwn, ond Nain. Eisiau mynd i'r caffi yr oedd hi gael paned fach o de, ond fel pob dynes o'i hoed, o Ben Llŷn, roedd yn rhaid iddi gael cacen blât, neu i ni'r bobl gyffredin — cacen afal. O, roedd hi fel malwen yn bwyta — a phob darn o'r afal yn mynd yn sownd yn ei dannedd gosod a oedd wedi cael eu glanhau am y tro cyntaf ers tua dwy flynedd! O'r diwedd gorffennwyd y gacen blât a chychwynnodd y 'giang' am y 'waiting area'.

'Ydi'r awyren wedi mynd?' gofynnodd Nain.

'Peidiwch â bod yn stiwpid,' meddai Iwan. 'Dydym ni ddim ynddi hi eto!'

'O, wel, myn uffern i,' meddai Ceri. 'Rŵan dwi'n gweld o pa ochr rwyt ti'n tynnu ar eu hôl — ochr Nain Aberdaron!'

'Bydd ddistaw, a phaid â bod yn ddigwilydd gyda dy nain,' meddai Mam a oedd wedi blino ar y tri.

O'r diwedd daeth yr alwad iddynt fynd ar yr awyren. Cerddasant yn araf at yr anghenfil anferth, gwyn. Roedd un ochr gyda thwll ynddo — ac oddi yno y daeth y grisiau i lawr. Dringodd y pedwar i fol yr anghenfil ac eistedd yn y lle 'economy'.

Cychwynnodd yr anghenfil i lawr y man cychwyn ac i ffwrdd â hi i fyny i'r awyr, lle roedd yr un o'r pedwar wedi bod o'r blaen.

'Mam,' dywedodd Iwan.

'Be rŵan eto?' gofynnodd Mam. 'Dwyt ti ddim 'di stopio swnian ers i ni gychwyn o'r tŷ.'

'Mae fy nghlustiau i'n brifo,' swniodd Iwan am y canfed tro y diwrnod hwnnw.

'Cno' ychydig o'r 'mint imperial' yma,' meddai Nain. 'Pam yr wyt ti eisiau 'mint imperial' beth bynnag? Dydan ni ddim 'di cychwyn eto!'

'Be?' meddai Mam, yn methu coelio'i chlustiau. 'Rydym ni wedi cychwyn ers hanner awr!'

'Ond, be?' Sut yr ydym yn mynd i fyny beth bynnag?' gofynnodd Nain.

'Pam? Sut oeddech chi'n meddwl yr oeddem ni'n mynd i fyny?' gofynnodd Iwan, yn gall am ytro cyntaf y diwrnod hwnnw.

'Fel roced, yntê. Dwi wedi'i weld o, pan gychwynnodd yr hogyn Neil yna am y lleuad,' meddai Nain yn falch ei bod hi wedi cofio hynny.

'Ia, ond roced oedd honno, awyren yw hon!' meddai Ceri gan chwerthin.

'Ia, ti'n iawn,' meddai Nain. 'Roeddwn i'n gwybod, dim ond eisiau gwybod os oeddech chi'n gwybod oeddwn i!'

Ar ôl gwylio 'Absolutely Fabulous' — a Nain yn deall dim byd, ond peidiwch â phoeni roedd pawb wrth ein hymyl yn gwybod, a'r 'air hostess', oherwydd ei bod hi'n gweiddi dros bob man gyda'r 'pethau' yna yn ei chlustiau, fel roedd hi'n eu galw nhw — aeth y swnian yn waeth gan y tri.

'Mam, mae nhraed i wedi chwyddo o faint tri i bedwar!' meddai Iwan.

'Stopia falu awyr, a bydd ddistaw,' meddai Mam.

'Gwna di be dwi'n wneud, yli, i stopio dy draed rhag chwyddo,' meddai Nain. 'Rho dy draed ar bapur newydd fel rhai fi. Dyna be ddywedodd Anti Lwl, Bryn Poeth wrthaf pan hedfanodd hi i Sir Fôn.'

'Dwi'n gwisgo'r sliperi yna, ond dydyn nhw ddim yn gwneud llawer o wahaniaeth chwaith,' meddai Ceri wrth ei nain.

'Lle cefaist ti nhw?' gofynnodd Nain.

'Gan y ddynes 'na,' torrodd Iwan ar eu traws.

'Iw-hw, Misus, ga' i un o'r sliperi 'na, os gwelwch chi'n dda?' gofynnodd Nain.

'O, un o'r rhain ydach chi'n feddwl?' meddai'r ddynes gan roi'r sliperi iddi, i gau ei cheg.

'Diolch,' meddai. 'Mi âf i'w rhoi nhw ymlaen rŵan yn y toiled.'

Cerddodd Nain fel hwyaden i'r toiled gan stryffaglu i gloi'r drws. Cymerodd hanner awr iddi wisgo'r sliperi. Roedd yr hulpen wirion wedi colli'r sliper i lawr rhyw dwll! Felly, maen siŵr, ymhen blynyddoedd, fe wnaiff rhywun ddarganfod y sliper yng nghanol y môr!

Ni stopiodd Iwan a Ceri chwerthin ar ben eu nain ac roedd ganddynt ddagrau yn eu llygaid.

Ar ôl dwyawr o uffern yn eistedd wrth ymyl Nain, glaniwyd yr anghenfil ar y man glanio yn Athens, Groeg. Nain oedd yr unig un call o'r pedwar — am y tro cyntaf — yn gwisgo trowsus byr, ond ni fuasai neb call yn gwisgo 'Bermuda shorts' fel ei rhai hi — a hi oedd yr unig un a oedd heb draed wedi chwyddo, diolch i Anti Lwl.

Roedd Nain wedi dygymod gyda'i thaith awyren gyntaf, a chafodd pawb wyliau llawn antur gyda Nain.

(Parhad o dudalen V)

nad oedd yn addas i fod yn aelod o'r criw. Ar ôl y llu o brofiadau newydd a gawsai yn ystod y dyddiau diwethaf, byddai llithro'n ôl i'w hen arferion yn gan gwaith anos i'w oddef.

Fodd bynnag, nid oedd ganddo reswm i boeni gan i Jason ddod ato ar ei ben ei hun ar öl iddynt fwyta tra roedd yr hogiau eraill yn brysur yn chwarae gêm gyfrifiadurol newydd Rhisiart. Eisteddodd i lawr ar gadair ac ymunod Rhisiart ag ef.

'Ti'n gwbod fod fi a'r gang yn meddwl fod chdi'n rili cŵl, Carrots, a 'dan ni isio chdi i fod yn un o'r gang go-iawn . . .'

Goleuodd llygaid Rhisiart.

'. . . Ond mi fydd yn rhaid i chdi ddangos i ni fod chdi'n ddigon o ddyn.'

Diflannodd y golau mor sydyn ag y daeth ond roedd ennyd o obaith yn dal yn ei galon. Teimlai'n sicr y medrai wneud unrhyw beth y dymunai iddo'i wneud gyda'r addewid o boblogrwydd tragwyddol o'i flaen os cyflawnai'r dasg. Cliriodd ei wddf cyn gofyn,

'Be' fydd raid i mi 'i 'neud?'

'Torri i mewn i dŷ'r hen grocs sy'n byw wrth ymyl y bys stop yn Stryd y Goron.'

Brawychwyd Rhisiart. Torri i mewn! Dwyn! Byddai'n lleidr ac yn droseddwr ac, yn waeth fyth, byddai'n troseddu'n erbyn rhai na fedrai amddiffyn eu hunain. Ni allai wneud y fath beth. Ni fyddai'i gydwybod yn caniatáu iddo wneud hynny, hyd yn oed os y golygai golli'i ffrindiau newydd ac os y byddai ei fywyd fel yr oedd cyn iddo eu cyfarfod. Mynd yn ôl i fod yr un a oedd yn alltud ymysg ei gyfoedion ac a fyddai'n cael ei alw'n enwau a'i bryfocio'n ddidrugaredd; yr un na fyddai'n cael pêl wedi ei phasio iddo yn ystod gêmau pêl-droed; yr un a fyddai'n treulio ei amser chwarae mewn cornel unig gyda'i ben mewn llyfr heblaw am gyfarfodydd y clwb gwyddbwyll, a oedd wedi colli eu sglein erbyn hyn ar ôl profi melysder cwmni a'r teimlad o gael perthyn.

'Pryd dwi i fod i 'neud o ta?'

Am hanner awr wedi saith nos Wener safai Rhisiart ar gornel Stryd y Goron yn edrych ar ei oriawr. Teimlai'n oer, er mai noson fwyn o hydref oedd hi. O'i amgylch safai tai cyfagos a choed yn fygythiol yn nhywyllwch y gwyll. Ymddangosodd y pedwar aelod arall o'r gang o rywle'n sydyn — pob un wedi'i wisgo mewn lifrai o jîns glas, crys chwys du Reebok ac esgidiau rhedeg Adidas.

Gwthiodd Jason falaclafa du i ddwylo Rhisiart ac wedyn tynnodd y pump ohonynt megis cysgodion drwy'r tywyllwch at ffenestr toiled tŷ Mr a Mrs Roberts, cwpwl mewn oed a fyddai allan yn chwarae bingo am o leiaf awr arall cyn dychwelyd adref. Cododd Rhisiart y ffenestr yn ofalus, fel pe bai'n gafael ym mhot blodau grisial gorau ei fam a dringodd yn llechwraidd i mewn drwyddi. Dilynodd y gang ef heb ffwdan.

Sleifiodd Rhisiart i'r ystafell fyw ac estynnodd fag plastig o boced ei gôt. Cerddodd tuag at y silff-ben-tân a chlirio'r creiriau oedd arno i'r bag fesul un tra curai ei galon fel gordd. Ar ôl estyn ychydig o hen luniau a oedd mewn fframiau a fyddai'n werth ceiniog neu ddwy yn ôl Jason, trodd ar ei sawdl a dilyn y lleill yn ôl tua'r ddihangfa yn y tŷ bach ond, cyn iddo adael yr ystafell, clywodd sŵn traed. Trodd i weld hen ŵr yn gafael mewn procer fel pe bai'n dal cleddyf. Yn ei fraw, gwthiodd Rhisiart yr hen ŵr o'r ffordd a gwelodd ef yn suddo i'r llawr yn swp anymwybodol. Llamodd o ffenestr y tŷ bach a rhedeg oddi yno fel cath i gythraul heb edrych yn ôl.

Pan gyrhaeddodd adref, ar ôl bod yn cerdded yn y parc, cafodd wybod gan ei fam fod 'yr hen Mr Roberts wedi cael trawiad ar ei galon ar ôl i ryw hwliganiaid ifanc dorri i mewn i'w dŷ.' Darganfu Mrs Roberts gorff ei phriod ar ôl iddi ddychwelyd o'r bingo yn neuadd y dref a doedd gan ei fam ddim syniad beth wnâi Mrs Roberts druan rŵan, a hithau mewn oed. Roedd angen dysgu gwers iawn i rai fel yna, ac fe ddylid eu rhoi mewn cell am wneud y ffasiwn beth. Ni sylwodd ei fam fod wyneb Rhisiart yn wyn fel y galchen.

Ar ôl cyrraedd diogelwch ei lofft, eisteddodd Rhisiart ar ei wely mewn sioc ac yn methu derbyn yr hyn a glywodd gan ei fam. Pam iddo fod mor wirion yn cytuno i wneud yr hyn a oedd Jason wedi'i ddweud wrtho am ei wneud? Bellach roedd yna wraig yn weddw o'i achos ef ac efallai y byddai'n rhaid iddi gael ei hanfon i gartref hen bobl.

Aberthwyd bywyd hen ŵr diniwed er mwyn iddo ef gael ei dderbyn — iddo ef gael 'perthyn'.

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

Camera yng ngofal Valmai Williams, Hafle, 2 Rhes Faenol Ffôn: 871174

CYDYMDEIMLO. Anfonwn ein cydymdeimlad llwyraf i Mr a Mrs Llewelyn Jones a'r teulu, Sŵn y Gwynt, Bro Elidir yn eu profedigaeth o golli mam a nain. Bu farw Mrs Jones yn Ysbyty Eryri yn 90 oed.

CYNGHORYDD CYMUNED. Da oedd gennym glywed fod Mr Phillip Jones, Tŷ Capel Sardis wedi rhoi ei enw ymlaen i fod yn Gynghorydd Cymuned yr ardal. Diolch iddo am fod mor barod i ymateb i'r cais. Rwy'n siŵr y caiff pob cefnogaeth a chymorth gan drigolion yr ardal.

DAMWAIN. Drwg gennym deall i Simon a Lesley Wilson, 2 Glan Gors gyfarfod â damwain car. Dymunwn iddynt wellhad llwyr a buan.

CYD ADDOLI. Ar 14 Rhagfyr fe fu Eglwys M.C. Dinorwig yn cyd addoli gydag Eglwys Sardis yng Nghapel Sardis. Yn gwasanaethu roedd y Parchg Gwynfor Williams, Caernarfon. Y Sul canlynol, 21 Rhagfyr, yn Nghapel Sardis bydd y Parchg Olaf Davies yn gwasanaethu ac fe fydd y plant yn perfformio eu drama Nadolig o dan ofal Miss Nellie Wyn Jones. Ar Sul olaf y flwyddyn disgwylir Miss Eleri Lloyd Jones, Bangor i'n gwasanaethu.

Disgwylir y canlynol i wasanaethu yng Nghapel M.C. Dinorwig: 21: Parchg Huw Gwynfa Roberts, Llanwnda; 28: Parchg S. O. Hughes, Bae Colwyn.

CROESO ADREF. Estynnwn groeso gartref i Evan a Hannah, Tŷ'r Ysgol y ddau wedi bod ar ymweliad â theulu yn Awstralia; a thalu ymweliad â Harri ac Elizabeth, Bryn Sardis gynt. Derbyniwyd copi o lun gan Harri o'r ardal yma cyn iddynt adeiladu tai Bro Elidir. Tybed all rhywun ddweud pwy a phryd ei tynnwyd? Gwn i dai Bro Elidir gael eu hadeiladu yn ystod 1952.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Y gŵr gwadd yn y Gymdeithas a gynhaliwyd nos Fercher, 19 Tachwedd, oedd y Parchg Gwyn Erfyl, Bangor. Seliodd ei anerchiad ar rai o'i gerddi a chawsom fraslun o'i fywyd yn y cerddi hynny — o gyfnod ei blentyndod pan arferai chwarae ar lan llyn yn Llanerfyl; ei gyfnod yn Nhrawsfynydd; cerdd a soniai am ei frawd yng nghyfraith, sef Arthur Rowlands y plismon a saethwyd ger Pont ar Ddyfi. Clywsom hefyd gerdd a soniai am y gwewyr a brofodd tra'n ceisio penderfynu pa lwybr i'w ddilyn un ai i'r Weinidogaeth neu i fyd y cyfryngau. Yr oedd y noson yn ei gwmni yn un o naws arbennig a phleser digymysg. Llywydd y noson oedd Miss Nellie Wyn Jones a thalwyd y diolchiadau gan Mr Derek Williams. Braf hefyd oedd cael estyn croeso i'r Parchg Olaf Davies yn ôl i'r Gymdeithas wedi ei gyfnod hir o anhwylder.

Nos Iau, 4 Rhagfyr, y gŵr gwadd oedd Mr Alun Lloyd Hughes a chawsom ganddo weld sleidiau o Dde America a oedd wedi ei tynnu yn ystod 1983 pryd yr oedd ef a'i ffrind yno yn canwio a dringo. Rhaid dweud fod y lluniau'n wych. Llywydd y noson oedd Mrs Alice Griffiths a diolchodd i'r gŵr gwadd am ddod ar fyr rybudd. Talwyd y diolchiadau gan Mrs Karen Jones. Roedd y noson i fod yng ngofal Mr Ralph Jones, Llanberis ond yn anffodus fe'i trawyd yn wael yn frawychus o sydyn. Hyderwn ei fod yn gwella ac y caiff lwyr wellhad ac y cawn ei gwmni rywbryd eto yn y Gymdeithas.

Dyma drefn y cyfarfodydd am fis Ionawr — 8: Cyfarfod Gweddi dan ofal Eglwys M.C. am 7 o'r gloch; 22: noson yng ngofal Teulu Tŷ'r Ysgol.

Y GANOLFAN. Fel y dywedwyd yn y rhifyn diwethaf bydd Parti Nadolig i'w gynnal nos Wener, 12 Rhagfyr, ac mae'r rhagolygon yn edrych yn dda iawn gan fod y tocynnau a argraffwyd wedi eu gwerthu i gyd, a rhaid oedd cael ailargraffiad — cewch yr hanes yn y rhifyn nesaf.

NADOLIG LLAWEN. A ninnau ar drothwy'r Nadolig rwy'n siŵr ein bod yn anfon ein cofion at Miss Elizabeth Thomas, Llidiart y Clo gynt; a Mr David John Thomas, 8 Maes Eilian gynt; ill dau yng Nghartref Pengwaith, Llanberis. Ein dymuniad yw ar iddytn gael Nadolig llawen a blwyddyn newydd well. Cofion ardal Dinorwig atoch eich dau.

CYNGOR CYMUNED LLANRUG

Yn ei gyfarfod diwethaf datganwyd pryder nad oedd ymateb wedi ei dderbyn oddi wrth Brif Swyddog Cynllunio Gwynedd ynglŷn â'r datblygiadau ger mynedfa i Gwm-y-glo. Penderfynwyd dwyn sylw'r adran i'r ffaith fod talcen Carreg y Fran wedi'i ddymchwel a gwaith yn cael ei wneud yno heb hawl cynllunio.

Derbyniwyd gwybodaeth bod panel wedi'i sefydlu gan Wynedd i edrych ar dawelu traffig a gobeithir y bydd Llanrug yn cael y sylw dyledus. Ymhellach deallwyd bod cyfarfod buan i'w gynnal rhwng y Cynghorydd Charles W. Jones a swyddogion adran priffyrdd i geisio datrysiad o broblemau trafnidiaeth ger y sgwâr.

Yn dilyn presenoldeb y Cadeirydd, P. J. Rowlinson mewn cynhadledd yn Llandudno ar Ieuenctid a Chynghorau Cymuned penderfynwyd trafod ei adroddiad yng nghyfarfod mis Ionawr.

Penderfynwyd yn unfrydol i gefnogi safbwynt Cyngor Gwynedd yn ei ymdrech i gael ad-daliad o'r £900,000 a gollwyd oherwydd camddrafftio rheolau ynglŷn â threthu ail gartrefi.

Croesawyd y newyddion bod pwyllgor y Sefydliad Coffa wedi penderfynu comisiynu cwmni Pensel, Llanrug i gario allan astudiaeth ymarferol o anghenion y pentref, er galluogi symud ymlaen i addasu'r adeilad yn bwrpasol.

Nodwyd y gobaith y byddai modd i godi'r gysgodfan newydd ger Corlan y Rhos yn fuan.

Penderfynwyd cyfrannu £400 i Glwb Pêl-droed Llanrug i'w cynorthwyo i godi caban te newydd.

Bydd cyfarfod nesaf o'r Cyngor yn Ysgol Gymuned Cwm-y-glo, nos Fawrth, 23 Rhagfyr 1997 am saith o'r gloch.

Hefyd carwn innau ddymuno Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i bawb yn yr ardal gyda diolch am bob help a gefais ynglŷn â gwahanol weithgareddau yn yr ardal a gobeithiaf y caf y fraint o wneud hynny eto yn y flwyddyn newydd.

OSMOND W. SHAW DEINIOLEN



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll

GWASANAETHAU TELEDU
Ffôn; Llanberis 870545

I drin a thrwsio pob math o beiriannau gwnïo
MENAI SEWING MACHINE CENTRE
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn:
(0248) 714043
neu C'fon 674520
Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

CHWARAEON

Y FRO YN CIPIO'R GWOBRAU

Unwaith eto cynhaliwyd Noson Wobrwyo Chwaraeon Arfon. Bu newid sylfaenol gan mai Cyngor Chwaraeon Arfon yn hytrach na'r Awdurdod Lleol oedd yn ei threfnu. Mae'r Cyngor Chwaraeon lleol wedi tyfu'n fudiad cryf erbyn hyn gyda 47 o glybiau a chymdeithasau yn aelodau. Mae bellach yn gwneud lobi gref yn lleol. Ar wahân i dynnu'r gwahanol grwpiau at ei gilydd mae'n trefnu amrywiaeth o gyrsiau. Elfen bwysig arall o'i waith yw bod yn ddolen gyswllt effeithiol rhwng yr aelodau a'r gwahanol asiantaethau sy'n dosrannu grantiau. Mae hefyd yn cynorthwyo trwy gynnig grantiau o'i goffrau ei hunan. Ac yn ystod y noson rhoddwyd grant o £150 yr un i Glwb Hoci Caernarfon a thîm pêl-droed merched Ysgol Syr Hugh Owen, ynghyd â grant unigol i Andrew Whalley, rhedwr addawol o Brifysgol Bangor.

Oherwydd nawdd hael, cynhaliwyd y noson eleni yng ngwesty moethus Y Celt yng Nghaernarfon, yn hytrach na Theatr Seilo. Roedd yn lleoliad delfrydol a denwyd torf deilwng yno i gefnogi a llongyfarch y sawl a enwebwyd a'r rhai a enillodd. Eleni roedd y rhai a enwebwyd yn adlewyrchu'r ystod eang o gampau sydd ar gael bellach ynghyd ag oedran y rhai sy'n cymryd rhan. Prif arweinydd deheuig y noson oedd Steven Morgan, Swyddog Datblygu Chwaraeon Arfon. Y gŵr gwadd oedd Gareth Roberts, S4C.

Roedd yr enillwyr yn amlwg yn derbyn pob canmoliaeth ond hefyd yn mynd ymlaen i ymgiprys am y brif wobr yn noson gyffelyb Gwynedd. Cafwyd nosweithiau rhanbarthol eisoes ym Meirion a Dwyfor a bydd enillwyr y tair rhanbarth yn ceisio'r brif wobr.

Dyma fraslun o'r enillwyr ynghyd â'r rhai a enwebwyd o fro'r Eco. Yng nghategori Tîm y Flwyddyn roedd tîm bowlio Waunfawr. Mae'r Ganolfan yno bellach yn gartref i dîm llwyddiannus iawn. Ond enillwyr y tlws oedd tîm Cyfeiriannu (Orienteering) Eryri; tîm o dair merch sydd erbyn hyn yn Bencampwyr Prydain. mae un o'r tair, Lis Campbell, wedi cael ei dewis i gynrychioli Prydain ym Mhencampwriaeth y Byd. Gyda llaw, nid rhywbeth elitaidd yw'r gamp hon. Mae cyfeiriannu erbyn hyn yn rhan o faes llafur Addysg Gorfforol ein hysgolion.

Daeth tlws cyntaf y fro yng nghategori Tîm Ieuenctid y Flwyddyn nid i dîm rygbi Bethesda, tîm Caernarfon nag Ysgol Syr Hugh, na thîm llwyddiannus Maes y Bryn o Fangor, ond i dîm pêl-droed dan 12 oed Ysgol Brynrefail — hwy enillodd y tlws. Mae gorchestion y tîm wedi cael cryn sylw gennyf o'r blaen ac felly'r tro yma bodlonaf ar ddweud, 'Da iawn, hogs!'

Enwebwyd Hefin Roberts o Lanrug am ei ddawn ar y cwrt tenis yng nghategori Bachgen y Flwyddyn. Roedd y rhai a enwebwyd yn cynnwys pencampwyr Cymru mewn nofio, gymnasteg ac athletau. Oes mae talent anhygoel yn yr ardal hon. I Fethesda yr aeth y tlws a hynny i'r seren nesaf ar orwel athletau lleol, sef Cai Pierce. Dim ond 14 oed ydyw ac mae eisoes yn disgleirio mewn rasus traws-gwlad ac ar y trac.

Roedd y bleidlais am dlws Geneth y Flwyddyn yn hynod o agos. Unwaith eto roedd y categori yn frith o bencampwyr cenedlaethol. Am ei dawn gynhenid, ei dyfalbarhad a'i hymroddiad dyfarnwyd y tlws i'r nofwraig Elin Dafydd o Lanrug. Mae'r 12 awr wythnosol o ymarfer caled wedi dyrchafu Elin i blith 20 gorau Prydain. Ia, hogan o Lanrug yw hi, cofiwch.

Y llynedd dyfarnwyd Tlws yr Hyfforddwr am gyfraniad i waith gyda phlant. Eleni aed i'r pegwn arall at grŵp rhyfeddol o fabolgampwyr. Yr enillydd oedd Jenny Shaw, merch ddiymhongar iawn sy'n hyfforddi carfan Nofio Meistri Arfon. Mae aelod hynaf y tîm, Edna Dilworth, yn 73 mlwydd oed ac yn gystadleuydd cyson a safonol ar lefel rhyngwladol o hyd.

Tlws poblogaidd yw'r un am wasanaeth i chwaraeon. (Dyma un o'm prif gymhellion dros geisio sefydlu Noson Wobrwyo Bro'r Eco.) Mae'r fro hon yn gyforiog o bobl sy'n haeddu clod a diolch. Yr enillydd eleni oedd Bobby Rowe, Cadeirydd Clwb Pêl-droed Cae Glyn ers 30 mlynedd. Gwelodd y 'clwb bach' yn tyfu'n feithrinfa leol sy'n cynnal saith tîm erbyn hyn.

Stori arbennig y noson oedd cefndir enillydd y tlws i'r mabolgampwyr ag anabledd. Norman Runham o dîm Nofio Meistri Arfon oedd yr enillydd. Concrodd y nofiwr hwn y gelyn mawr — cancr. Roedd cael dychwelyd i'r pwll nofio yn nod iddo trwy sawl cyfnod o driniaeth dyngedfennol. Nid oedd methiant yng nghyfansoddiad y gŵr rhyfeddol hwn. Dyma wir symbylydd ym myd y campau. Roedd rhyw dinc arbennig yn y gymeradwyaeth a dderbyniodd ar y noson.

Enid Jones, ysgrifenyddes tîm pêl-droed Maes y Bryn aeth adref efo tlws Gweinyddwr y Flwyddyn. Rhestrwyd ei chyfraniad diflino. Oes, mae gan ferched rôl allweddol ym myd y campau ac nid gwneud y brechdanau fel y tybia rhai!

Ac yna prif dlws Chwaraewr y Flwyddyn. Alun Vaughan oedd yr enillydd haeddiannol fel y gwelir o'r stori ar y dudalen flaen y mis hwn.

Cafwyd noson lwyddiannus iawn a dymunwn y gorau i'r enillwyr wrth iddynt ymgiprys am lawryfon Gwynedd. Gallwn ninnau fel ardal ymfalchïo yng ngorchestion y criw yma sy'n dod â chlod i'n hardal, a hynny yn aml heb fawr o sylw. Pobl ddiymhongar yw'r goreuon mewn sawl maes ond maent yn haeddu pob cefnogath.

Nia, Sioned, Sarah Jane a Ceri fu'n nofio yn Gala Genedlaethol yr Urdd dros Adran Llanberis.

CERDDED — RHEDEG — (CROPIAN!)

RAS HWYL O AMGYLCH LLYN PADARN

Bore Sul, Rhagfyr 21ain 1997

am 11.00 a.m.

Cychwyn ger Gwesty Victoria, Llanberis

Pris: Oedolion £2.50 Plant £1.50

— Cawl a Mins Pei i bawb —

TREFNIR GAN GLWB RHEDWYR ERYRI

PYTIAU WRTH BASIO

Soniais droeon am 'Lyfr Dic Parri' sy'n cofnodi gwahanol gystadlaethau tai Ysgol Brynrefail dros y blynyddoedd. Mae i'r sustem tai ran bwysig yn y dasg o greu ymlyniad plentyn at ei ysgol. Daeth canlyniadau'r gystadleuaeth pêl-rwyd i law. Elidir enillodd y gystadleuaeth i'r oedran blynyddoedd 8 a 9, gydag Eilian yn ail. Yr oedd yr un drefn i'r rhai ym mlynyddoedd 10-13.

* * * *

Dydd Sadwrn y cwpan mawr — Cwpan Her y Gogledd — oedd hi'r Sadwrn diwethaf. Roedd Llanberis a Llanrug yn wynebu clybiau o gynghreiriau uwch. Mwynheais y gêm yn Llanberis, ond roedd tipyn o wahaniaeth rhwng y tîm cartref a Threffynnon ar y dydd. Caiff Llanbêr rŵan ganolbwyntio ar frwydro am safle uchel yn y Fitlock. Boddi wnaeth Llanrug draw yn Ninbych. Y trueni mawr yw bod ail dîm y ddau glwb yn isel iawn yn nhabl cynghrair Pentec. Mae Deiniolen wedi gwella'n arw ers dechrau'r tymor a sawl wyneb newydd wedi cryfhau'r garfan. Un chwaraewr amryddawn sy'n denu sylw yw Iwan Jones. Mae wedi gwella o anaf drwg i'w benglin. Mae Deiniolen yn agos at y prif dimau yng Nghynghrair Gwynedd ar hyn o bryd. Tymor o ymgartrefu a magu profiad yw hwn i'r Waunfawr. Fel pob tîm yn ei dymor cyntaf mae'r canlyniadau yn anwadal ond mae hyn yn siŵr o wella gyda phwyllgor mor weithgar y tu cefn i'r tîm.

* * * *

Mae'n rhyfedd sôn am griced yn y tywydd oer yma. Daeth y newydd da bod cricedwyr Fron Dinas am ymlafnio ymlaen. Wedi colli eu maes a chyda wiced pob tywydd a maes Ysgol Brynrefail yn addas maent am fenthyg meysydd clybiau cyfagos. Ymlaen am y 'trebl' felly.

* * * *

Erbyn hyn mae Cynghrair Dartiau Caernarfon a'r Cylch yn cael hoi hanner tymor. Mae'r safon yn gwella bob blwyddyn a chryn ddiddordeb yn y gystadleuaeth. Yn y brif adran mae'r Wellington, Deiniolen yn ail; a Padarn Lake 'A', gyda dim ond dau bwynt yn llai, yn bedwerydd. Yn yr ail adran mae tîm Y Bedol 'A' yn ail a thîm Clwb Llanberis yn bedwerydd. Yng Nghynghriair y Merched mae Penbont yn bedwerydd yn y brif adran tra bo tîm Dolbadarn chwe phwynt ar y blaen yn yr ail adran. Mae gobaith am ambell dlws i'r ardal felly.

* * * *

Yn y byd pŵl brwydr rhwng Penbont a'r Bull, Deiniolen yw hi ar frig yr adran gyntaf. Yn yr ail adran ail dîm y Bull sy'n arwain gyda Padarn Lake yn dynn ar eu sodlau.